Cyfeirnod y papur: P&G 67
Ionawr 2024

# Polisi ar gyfer diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl

*P&G 67*
*Ionawr 2024*

Fun, Learning and Achievement

Fun, Learning and Achievement

## Gweithdrefn ar gyfer Ymateb i Bryderon

| | |
|---|---|
| **ADNABOD** | Bod yn ymwybodol o unrhyw bryderon am les, ymddygiad niweidiol neu gamdriniaeth bosibl.<br>Rhaid i unrhyw un sy'n pryderu am les plentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn sydd mewn perygl, neu sy'n dod yn ymwybodol o bryderon trwy weld, clywed neu dderbyn datgeliad o gam-drin neu esgeulustod: |
| **YMATEB** | Gwrandewch yn ofalus ar yr hyn y bydd yr unigolyn yn ei ddweud wrthych. Peidiwch â thorri ar draws; gofynnwch cyn lleied â phosibl o gwestiynau; peidiwch ag addo cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol. Ymatebwch yn gadarnhaol i unrhyw un sy'n rhannu pryder am ddiogelwch neu les plentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn sydd mewn perygl. Sicrhewch yr unigolyn ei fod wedi gwneud beth sy'n briodol trwy ddweud wrthych. |
| **CYFEIRIO** | A oes risg neu berygl dybryd i'r unigolyn neu i unrhyw un arall?<br>**NAC OES** **OES**<br>Ffoniwch y gwasanaethau brys (999)<br>Ar ôl gweithredu'n briodol, sicrhewch eich bod chi'n:<br><br>Cyfeirio'r mater fel y bo'n briodol a cheisio cymorth gan:<br>Swyddog Diogelu Dynodedig Clwb neu Ffederasiwn Sirol – rhestrir y manylion isod<br>(Os bydd y Swyddog yn absennol neu os mai'r Swyddog fydd testun y pryder, hysbyswch Gadeirydd y Clwb/Ffederasiwn Sirol neu aelod o'r staff swyddfa'r Ffederasiwn Sirol). Bydd y swyddog diogelu lleol yn cynghori ynghylch y camau nesaf i'w cymryd h.y. os bydd angen cyfeirio'r wybodaeth ymlaen at wasanaethau allanol sydd ar gael 24 awr y dydd, e.e. tîm dyletswydd y gwasanaethau cymdeithasol.<br><br>**Nodwch fanylion cyswllt lleol ynghylch diogelu: Swyddog Clwb/Ffederasiwn Sirol**<br>Enw:<br>Rôl:<br>Rhif ffôn:<br>Rhif ffôn symudol:<br>Cyfeiriad e-bost:<br><br>Manylion i Gysylltu â FfCCFfI ynghylch Diogelu:<br>Dydd Llun – Dydd Gwener 9-5 safeguarding@nfyfc.org.uk<br><br>**Pennaeth Diogelu a Rheoli Ymddygiad:** Val Wright 07541 626 855<br>**Rheolwr Diogelu ac Ymddygiad:** Lauren Hancox 07823 884 659<br>**Prif Swyddog** James Eckley 02476 857 200 |
| **COFNODI** | Ysgrifennwch adroddiad gwrthrychol ynghylch eich pryderon ar unwaith (beth welsoch chi, beth glywsoch chi neu beth a ddywedwyd wrthych chi; beth wnaethoch chi; beth oedd eich pryderon; pwy arall oedd yn ymwybodol o hynny/yn bresennol a'u manylion cyswllt). Gellir defnyddio Atodiad 1 i gofnodi'r wybodaeth. Dylai clybiau a ffederasiynau sirol storio cofnodion yn ddiogel yn unol â gofynion deddfwriaeth diogelu data a GDPR. Peidiwch â dinistrio nodiadau sydd mewn llawysgrifen.<br><br>**Sicrhewch fod tîm Diogelu a Rheoli Ymddygiad FfCCFfI (a restrir uchod) yn cael gwybod** am unrhyw gyfeiriadau at asiantaethau statudol (Gofal Cymdeithasol/Swyddog Dynodedig Awdurdod Lleol/Heddlu) o fewn 48 awr ar ôl cael gwybod am y pryder/datgeliad fel y gellir cynnig cymorth. Gall ymdrin â phryder/datgeliad achosi pryder a gall fod yn anodd o safbwynt emosiynol. Os dymunwch siarad â rhywun i gael cymorth, rhowch wybod i FfCCFfI fel y gallwn helpu. |

Rheoli'r Fersiwn

**Cyfrifol am Adolygu/Perchennog y Polisi:**
Pennaeth Diogelu a Rheoli Ymddygiad / Pennaeth Datblygu Sefydliadol

**Dull Cymeradwyo:**
Prif Swyddog / Bwrdd Rheoli

**Dyddiad Cymeradwyo**
04 Ionawr 2024

| Fersiwn | Hanes y Diwygiadau | Awdur | Dyddiad | Dyddiad yr adolygiad trefnedig nesaf |
|---|---|---|---|---|
| 0.1 | Creu drafft cyntaf | FfCCFfI | | |
| 1.0 | Cyhoeddwyd | FfCCFfI | Chwefror 2020 | Chwefror 2023 |
| 2.0 | Adolygwyd<br>• Diweddaru cyfeiriadau at ddeddfwriaeth a chanllawiau statudol<br>• Diwygio'r polisi a'r gweithdrefnau cyfan drwyddynt draw | FfCCFfI | Rhagfyr 2023 | Tachwedd 2024 |
| 3.0 | Adolygwyd<br>• Diweddaru atodiadau | FfCCFfI | Chwefror 2024 | |

Fun, Learning and Achievement

## Cynnwys


Gweithdrefn ar gyfer Ymateb i Bryderon ........ 2
Datganiad ynghylch polisi diogelu FfCCFfI ........ 6
Dyletswydd gyfreithiol i ofalu ........ 9
**1. Recriwtio'n Ddiogel - Adran 1 ........ 14**
1.1. Gweithdrefnau recriwtio ........ 14
1.2. Ffurflenni cais ........ 15
1.3. Ffurflen Hunanddatganiad ........ 15
1.4. Tynnu rhestr fer (ar gyfer swyddi staff yn y CFfI) ........ 15
1.5. Cyfweliadau (am swyddi staff yn y CFfI) ........ 16
1.6. Gwiriadau Datgelu a Gwahardd (gwiriadau DBS) ........ 16
1.7. Mathau o wiriadau DBS ........ 18
1.8. Ffioedd a godir am wiriadau DBS ........ 19
1.9. Gwiriadau DBS ar gyfer gwirfoddolwyr ........ 20
1.10. Cyfyngiadau amser yn achos ceisiadau ........ 20
1.11. Gwirio dogfennau adnabod ........ 20
1.12. Camau proses gwiriadau DBS ........ 22
1.13. Sicrhau hygludedd gwiriadau DBS ........ 23
1.14. Amlder gwiriadau DBS ........ 23
1.15. Asesu Gwiriadau DBS ........ 24
1.16. Diogelu cofnodion DBS ........ 25
1.17. Geirdaon ........ 26
1.18. Rhestr Wirio Recriwtio Diogel ........ 27
1.19. Swyddi cyfrifol gwirfoddol ........ 27
1.20. Deddf Troseddau Rhywiol 2003 – Camfanteisio ar Ymddiriedaeth ........ 30
**2. Rhedeg yn Ddiogel - Adran 2 ........ 33**
2.1. Hyfforddiant ........ 35
2.2. Cynllunio rhaglenni yn y CFfI ........ 36
2.3. Y gymhareb oedolion/pobl ifanc ........ 36
2.4. Cofnodion clybiau ........ 36
2.5. Cydsyniad ar sail gwybodaeth gan rieni ........ 37
2.6. Tynnu Lluniau ........ 39
2.7. Cyfathrebu ag aelodau (ffonau symudol, e-byst a rhwydweithiau cyfryngau cymdeithasol) ........ 41
2.8. Cludo ........ 41
2.9. Clwb diogel, clwb hapus ........ 44
**3. Rhannu Pryderon - Adran 3 ........ 45**
3.1. Gweithdrefnau adrodd ........ 45
3.2. Oedolion a allai fod yn fwy agored i niwed yn datgelu camdriniaeth ........ 47
3.3. Galluedd a chydsynio ........ 48
3.4. Siart llif rhoi gwybod am bryder ........ 50
........ 50
........ 50
........ 50
........ 50
........ 50
........ 50
........ 50
........ 50
........ 50
3.5. Gweithdrefnau ynghylch rheoli honiadau ........ 51
3.6. Ymchwiliad Diogelu Mewnol ........ 53
3.7. Cadw cofnodion a Rhannu Gwybodaeth ........ 55

3.8. Rhannu Gwybodaeth - Saith Rheol Aur ........ 56
3.9. Cadw cofnodion ........ 56
3.10. Cyfrinachedd ........ 57
3.11. Gweithdrefn ymdrin â chwynion ........ 57
3.12. Datganiad ynghylch 'chwythu'r chwiban' ........ 58
3.13. Cysylltiadau ........ 59
3.14. Cyfeirio at gymorth ........ 59
**Rhestr Atodiadau ........ 60**

## Datganiad ynghylch polisi diogelu FfCCFfI

Mae FfCCFfI wedi gweithio mewn partneriaeth dros nifer o flynyddoedd â gwasanaeth ymgynghorol y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) ac asiantaethau allanol eraill ac arbenigwyr yn y maes i ddatblygu ein fframwaith diogelu a chymorth i aelodau. Mae'r polisi hwn yn adlewyrchu ac yn adeiladu ar y gwaith hwnnw ond mae'n anelu at fod yn fwy cyfannol yn ei ddull o ddiogelu a hybu lles yr holl aelodau beth bynnag fo'u hoedran, hunaniaeth o ran rhywedd, anabledd, gwahaniaethau cyfathrebu/niwroamrywiaeth, hil, ethnigrwydd, crefydd neu gredoau, rhywioldeb, cefndir neu leoliad. Rydym yn cydnabod yn llawn bod gwahaniaethau hollbwysig wrth geisio cynorthwyo a diogelu oedolion ond rydym wedi gwneud penderfyniad sefydliadol i gynnal un polisi diogelu unedig mewn ymateb i'r dewis a fynegwyd gan ein haelodaeth.

*Mae diogelu ac amddiffyn plant, pobl ifanc ac aelodau o'n cymuned sy'n agored i niwed yn bwysig iawn i FfCCFfI. Rydym yn darparu gweithgareddau a gwasanaethau i bobl ifanc rhwng 10 a 28 oed, ac efallai bod gan rai ohonyn anghenion ychwanegol o ran cymorth ac amddiffyn. Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo amgylchedd diogel i blant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl i gael cyfranogi ynddo a mwynhau ystod o weithgareddau a chyfleoedd y CFfI trwy sicrhau bod trefniadau priodol yn eu lle.*

### Cwmpas y Polisi

Mae'r polisi hwn yn orfodol ac yn berthnasol i bob aelod, aelodau sydd â swyddi o ymddiriedaeth (swyddogion), cynorthwywyr gwirfoddol (arweinwyr, aelodau ymgynghorol, aelodau pwyllgorau, llywyddion a dirprwy lywyddion, a rhieni/gofalwyr) a staff sy'n ymwneud â Chlybiau Ffermwyr Ifanc a phawb sy'n yn gweithio gyda neu ar ran FfCCFfI.

### Nod y Polisi

Mae'r Polisi hwn yn ceisio sicrhau bod FfCCFfI yn hyrwyddo profiadau a gweithgareddau diogel, cadarnhaol a phleserus i aelodau ac yn cyflawni ei gyfrifoldebau moesol a chyfreithiol i amddiffyn a diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl o gael niwed. Mae'r polisi'n pwysleisio'r angen i bawb sy'n ymwneud â'n gweithgareddau fod yn ymwybodol o ddangosyddion niwed ac ymateb yn ddi-oed i bryderon am gamdriniaeth neu ymddygiad niweidiol. Mae hefyd yn darparu ar gyfer gweithdrefn adrodd amserol, prydlon ac effeithiol pe bai pryderon ynghylch diogelu neu les yn codi neu os caiff cam-drin ei amau, ei ddatgelu neu ei ddarganfod, ni waeth ym mha leoliad y bydd pryderon yr codi neu yr amheuir bod cam-drin wedi digwydd.

Ein blaenoriaeth yw cynorthwyo â datblygiad cymuned Ffermwyr Ifanc gwybodus sy'n hyrwyddo arferion gweithio diogel ac sy'n wyliadwrus ynghylch unrhyw arwyddion o bryder neu gamdriniaeth bosibl ac yn ymateb yn gadarnhaol, yn gyson ac yn briodol i hynny. Mae gan bob un ohonom rôl hanfodol i'w chyflawni o ran cadw plant ac oedolion sy'n ymwneud â'r Ffermwyr Ifanc yn ddiogel rhag niwed.

Mae FfCCFfI wedi ymrwymo i gynorthwyo ffederasiynau sirol i gael mynediad at gyfleoedd hyfforddi a dysgu priodol ar-lein ac yn uniongyrchol gan amrywiaeth o ddarparwyr (gan gynnwys eu partneriaeth ddiogelu leol neu fudiad ieuenctid gwirfoddol) ar gyfer y sawl sydd â swydd gyfrifol yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc a oedolion a all fod yn fwy agored i niwed. Nod y cyfleoedd hyfforddi hyn yw codi ymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau diogelu yn y Ffermwyr Ifanc, ategu ymatebion gwybodus a datblygu tîm gwirfoddolwyr/staff hyderus a chymwys sy'n mynd ati i hyrwyddo amgylchedd sy'n fuddiol i'n haelodau.

Mae FfCCFfI yn cydnabod bod gan bawb eu profiadau bywyd unigryw eu hunain, gan gynnwys profiadau o wahaniaethu a gormes, a bod yn rhaid i ni ystyried yr ystod o ffactorau croestoriadol (unigol, cyd-destunol a throsiannol) a all ymyleiddio pobl, a thrwy hynny achosi mwy o risg a gwneud i bobl fod yn fwy agored i niwed. Rydym yn elusen sydd wedi ymrwymo i gynorthwyo i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r holl bobl ifanc sy'n ymwneud â'n gweithgareddau. Felly, mae'r polisi hwn yn rhan o'n hymrwymiad gweladwy a phenodol i sicrhau bod amrywiaeth yn cael ei gwerthfawrogi a'i dathlu, a bod cydraddoldeb a chynhwysiant yn cael eu cefnogi yn ein holl waith (mae gan y polisi gysylltiad uniongyrchol â'n Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, ein Cod Ymddygiad a'n Polisi Ymddygiad). Mae'r ystyriaethau hyn yn allweddol o ran arferion diogelu effeithiol.

Mae FfCCFfI hefyd yn cydnabod y gall anghydraddoldebau cymdeithasol, arwahanrwydd, iechyd, lles, gallu, anabledd ac angen am ofal a chymorth effeithio ar gadernid unigolyn. Rydym yn cydnabod bod rhai pobl yn wynebu rhwystrau, er enghraifft, rhwystrau rhag cyfathrebu, wrth fynegi pryderon neu geisio cymorth. Rydym yn cydnabod y gall y ffactorau hyn amrywio ar wahanol adegau ym mywydau pobl ac y gall unrhyw unigolyn ddod yn agored i niwed neu fod mewn perygl yn ôl y cyd-destun y bydd ynddo a ffactorau eraill sy'n ymwneud â'u profiad bywyd.

Nod y polisi hwn yw cyfrannu at amddiffyn a diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl, yn ogystal â staff, gwirfoddolwyr ac aelodau o bob oedran trwy:

- Godi ymwybyddiaeth o ymrwymiad FfCCFfI i ddiogelu
- Deall bod angen i bawb gymryd cyfrifoldeb am ymateb yn gadarnhaol ac yn ddi-oed i bryderon, gan gynnwys y pryderon hynny y ceir yr argraff eu bod yn fwy dibwys efallai
- Egluro disgwyliadau o ran ymddygiad
- Sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â gweithgareddau/r Ffermwyr Ifanc ar bob lefel yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb cyfreithiol a moesol i amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl, gan gynnwys eu dyletswydd i roi gwybod am bryderon
- Amlinellu arferion a gweithdrefnau i leihau risgiau posibl
- Cynorthwyo i sicrhau dulliau priodol, hyderus a chyson o reoli pryderon trwy sicrhau cymorth hygyrch a gweladwy trwy law staff diogelu dynodedig, gweithdrefnau diogelu a chyfeirio at ffynonellau cymorth allanol
- Amlinellu trefniadau i gynnig cymorth ac amddiffyniad hygyrch i bobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl sy'n cysylltu â FfCCFfI mewn perthynas â materion diogelu a lles
- Sicrhau bod gwybodaeth sensitif a chyfrinachol yn cael ei chofnodi a'i storio'n briodol i ategu amddiffyn pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl a'u lles

Mae'r polisi'n ceisio sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth y DU, canllawiau statudol a chanllawiau'r sector gwirfoddol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Ddeddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Diogelu Data 2018
- Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018

- Deddfau Plant 1989 a 2004
- Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002
- Deddf Troseddau Rhywiol 2003 (*sylwer fod deddfwriaeth Swyddi o Ymddiriedaeth wedi'i hehangu ar 28 Mehefin 2022*)
- Deddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Amddiffyn Rhyddidau 2012
- Deddf Plant a Theuluoedd 2014
- Deddf Gofal 2014
- Canllawiau Statudol Gofal a Chymorth (Cyhoeddwyd yn unol â gofynion Deddf Gofal 2014) - *diweddarwyd Hydref 2023*
- Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 (*a Strategaeth Prevent y Llywodraeth*)
- Deddf Troseddau Difrifol 2015 (Adrannau 67 a 76)
- Deddf Caethwasiaeth Fodern 2017
- Deddf Plant a Gwaith Cymdeithasol 2017
- Deddf Cam-drin Domestig 2021Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant (2018) - *diweddarwyd ddiwethaf yng Ngorffennaf 2022 Disgwylir i Gweithio Gyda'n Gilydd 2023 gael ei gwblhau yn dilyn proses ymgynghori ac adolygu.*
- Rhannu gwybodaeth. Cyngor i ymarferwyr sy'n darparu gwasanaethau diogelu i blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr (Gorffennaf 2018)
- Canllawiau gan y Comisiwn Elusennau 2017 (diweddarwyd Hydref 2018) - www.gov.uk/guidance/safeguarding-duties-for-charity-trustees
- Safonau a chanllawiau diogelu'r NSPCC/Sector Gwirfoddol a Chymunedol (Lloegr) 2017 (diweddarwyd Medi 2018) – diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion 0-25 oed yn y sector gwirfoddol a chymunedol.
- Cyngor Datblygu'r Gweithlu Plant - 'Recriwtio'n Ddiogel'
- Cadw Plant yn Ddiogel mewn Addysg (2023)
- Adnoddau 'Keeping it Safe' Gwasanaethau Cyngor Cenedlaethol y Sefydliadau Gwirfoddol (2019)

Deddfwriaeth a Chanllawiau'r Gwledydd Datganoledig

- Cymru – Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019
- Yr Alban - Deddf Cynorthwyo ac Amddiffyn Oedolion 2007
- Canllawiau Cenedlaethol ynghylch Amddiffyn Plant yn yr Alban (2014) (Llywodraeth yr Alban)
- Deddf Cynorthwyo ac Amddiffyn Oedolion (Yr Alban) 2007
- Cod Ymarfer Cynorthwyo ac Amddiffyn Oedolion 2014 (Llywodraeth yr Alban)
- Gogledd Iwerddon - Diogelu Oedolion: Atal ac Amddiffyn mewn Partneriaeth 2015

Mae'r polisi hwn wedi'i rannu'n dair adran er hwylustod:

1. **Recriwtio'n ddiogel** – *er mwyn galluogi'r CFfI i sicrhau bod ganddynt weithdrefnau recriwtio cadarn i ddewis y gwirfoddolwyr a'r staff mwyaf priodol i weithio gyda Phlant a Phobl Ifanc.*
2. **Rhedeg yn Ddiogel** – *i sicrhau bod diogelu yn elfen anhepgor o weithrediadau rheolaidd y CFfI*
3. **Rhannu Pryderon** – *cynnig gwybodaeth eglur ynghylch sut i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon yng Nghymuned y CFfI a allai beryglu plant pobl ifanc ac oedolion a all fod yn fwy agored i niwed.*

## Dyletswydd gyfreithiol i ofalu

Yn ôl diffiniad Deddf Plant 1989, mae plant a phobl ifanc yn golygu pawb hyd at 18 mlwydd oed. O dan ddeddfwriaeth a chanllawiau'r DU, mae gan blant a phobl ifanc hawliau i gael amddiffyniad a chymorth ychwanegol i hybu eu lles. Mae Deddf Plant a Theuluoedd 2014 yn ymestyn y cymorth a'r amddiffyniad sydd ar gael i Blant sy'n Derbyn Gofal (plant yng ngofal yr Awdurdod Lleol / rhai sy'n gadael gofal) hyd at 21 oed ac i'r rhai ag anabledd cydnabyddedig hyd at 25 oed trwy'r pontio i gyfnod cynnar bywyd oedolion.

Mae ymchwil gymdeithasol a gwyddonol gyfredol (gan gynnwys ymchwil a wnaed gan Brifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt) yn dangos na fydd ymennydd y glasoed yn aeddfedu'n llawn nes byddant tua 25 oed, ac yn achos llawer, ni fyddant yn aeddfedu'n llawn o safbwynt cymdeithasol a gwybyddol nes byddant yn eu tridegau. Gall y newidiadau yn yr ymennydd wrth i unigolyn bontio i fyd oedolion effeithio ar ymddygiad, asesiad risg a'r posibilrwydd o fod yn agored i niwed. Mae'r oedran pan fydd unigolyn yn dod yn oedolyn o ran datblygiad yn wahanol i bawb, ac mae'r cyfnod o risgiau cynyddol posibl o ran diogelu wrth i bobl ifanc adael gwasanaethau cyffredinol (ysgol) a chymunedau lleol cyfarwydd yn ymestyn i gwmpasu aelodaeth lawn y Ffermwyr Ifanc. Rydym yn elusen plant ac mae goblygiadau'r ddirnadaeth gymharol newydd hon o'r pontio i fyd oedolion yn rhywbeth yr ydym yn ei gymryd o ddifri.

Estynnodd Deddf Gofal 2014 hawliau statudol i gwmpasu cynorthwyo ac amddiffyn oedolion sydd mewn perygl. Ceir llawer o ffactorau a all olygu bod y sawl sy'n ymwneud â gweithgareddau Ffermwyr Ifanc yn fwy agored i niwed gan gynnwys:

- Arwahanrwydd cymdeithasol
- Anawsterau iechyd meddwl
- Salwch
- Gwahaniaethau o ran niwroamrywiaeth, cyfathrebu a dysgu
- Camddefnyddio sylweddau (alcohol a/neu gyffuriau)
- Bwlio ac aflonyddu
- Archwilio hunaniaeth rywiol neu hunaniaeth o ran rhywedd
- Tlodi
- Cludiant
- Digwyddiadau preswyl
- Cyd-destunau teuluol sy'n golygu ei bod anodd rhoi gwybod am bryder
- Perthnasoedd / teuluoedd yn chwalu a gwrthdaro
- Anabledd
- Adleoli / symud ymhell o rwydweithiau cymorth sefydledig
- Camddefnyddio cyffuriau ac alcohol

Yn ôl Canllawiau Statudol Gofal a Chymorth, ystyr oedolion sydd mewn perygl (y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol fel oedolion agored i niwed) yw pobl sydd dros 18 oed 'y mae arnynt angen neu y gallai fod arnynt angen gwasanaethau gofal cymunedol oherwydd anabledd meddwl neu anabledd arall, oedran neu salwch' ac 'sy'n methu neu a a allai fethu â gofalu amdanynt hwy eu hunain, neu'n methu â'u hamddiffyn hwy eu hunain rhag niwed neu gamfanteisio sylweddol'. Defnyddir y term 'oedolion sydd mewn perygl' wrth gyfeirio at ddeddfwriaeth yn y polisi. Rydym yn cydnabod efallai na fydd oedolion yn ystyried eu bod mewn perygl pan fo hyn yn gysylltiedig â'r cyd-destun a'r amgylchiadau y byddant yn eu profi. Mae FfCCFfI wedi adlewyrchu'r ddirnadaeth hon drwy ddewis defnyddio'r derminoleg 'oedolyn a allai fod yn fwy agored i niwed' oherwydd amrywiaeth o resymau. Yn FfCCFfI, rydym yn cydnabod y gall unrhyw un o'n haelodau, gwirfoddolwyr neu staff fod yn fwy agored i niwed ar unrhyw adeg waeth beth fo'u hoedran neu ffactor risg adnabyddadwy.

Mae gan sefydliadau fel FfCCFfI ddyletswydd gofal gyfreithiol a moesol i sicrhau bod yr hawliau hyn i fod yn ddiogel, cael cymorth a'u hamddiffyn rhag niwed yn cael eu blaenoriaethu wrth ddarparu gweithgareddau a gwasanaethau i bob aelod.

**Mesurau i sicrhau gweithlu mwy diogel: rolau gwirfoddol a chyflogedig**
*Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006* – yn wreiddiol, fe wnaeth y ddeddf hon ddarparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y cynllun fetio a gwahardd a adolygwyd rhwng 2010 a 2012 gan arwain at sefydlu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i ganiatáu adrodd a monitro ar y lefel genedlaethol ynghylch gwybodaeth feddal am y sawl sy'n cyflwyno cais i weithio (neu sy'n gweithio) gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl i gynorthwyo sefydliadau mewn perthynas ag asesu addasrwydd unigolion i ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau fel rhan o'u gweithlu cyflogedig neu wirfoddol.

*Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000* - Gwirio gweithwyr sy'n gweithio gyda phlant. At ddibenion diogelu, mae'r holl wirfoddolwyr sy'n ymwneud â'r CFfI ac sy'n ymgymryd â swyddi o ymddiriedaeth y tu hwnt i swyddi aelod cyffredin yn cael eu hystyried yn weithwyr ac yn wirfoddolwyr. Bydd rhai swyddi yn y CFfI sy'n aml yn gyfrifol am oruchwylio a hyfforddi plant a phobl ifanc neu gymryd cyfrifoldeb llwyr amdanynt yn gweithio mewn swydd 'reoledig'. (Diffiniad llawn yn Atodiad 4) Felly, cyflawnir trosedd os na fydd cyflogwr neu sefydliad yn gweithredu'n ddigonol i wirio unrhyw weithiwr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn swydd reoledig. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i wirfoddolwyr a staff mewn rhai rolau gael gwirio'u cofnodion troseddol ar y lefel briodol o ran y datgeliad ar gyfer y cyfrifoldebau y maent yn eu cyflawni gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

**Swyddi o Ymddiriedaeth**
*Camddefnyddio ymddiriedaeth* - fe wnaeth *Deddf Troseddau Rhywiol (Diwygiadau) 2003* sefydlu trosedd camddefnyddio ymddiriedaeth. Mae'r drosedd hon yn ymwneud â pherthnasoedd rhywiol rhwng rhywun sydd dros 18 oed (oedolyn) a rhywun o dan yr oedran hwnnw (plentyn) os oes gan yr oedolyn 'swydd gyfrifol' mewn perthynas â'r unigolyn ifanc. Eglurir hynny yn fanylach yn yr adran recriwtio diogel yn y polisi hwn.

**Y Comisiwn Elusennau**
Y Comisiwn Elusennau yw rheolydd y sector elusennol yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Comisiwn Elusennau yn llunio [canllawiau diogelu ar gyfer elusennau ac ymddiriedolwyr] a ddiweddarwyd ym mis Tachwedd 2021, ac sy'n nodi cyfrifoldebau diogelu ymddiriedolwyr. Mae gan ymddiriedolwyr elusennau sy'n gweithio gyda grwpiau agored i niwed a phlant ddyletswydd gofal i'w helusen a fydd yn cynnwys cymryd y camau angenrheidiol i ddiogelu a chymryd cyfrifoldeb am y buddiolwyr bregus hynny. Mae'r canllawiau yn nodi y dylai diogelu fod yn flaenoriaeth allweddol i bob elusen, ac mae'n hanfodol felly bod pob elusen yn datblygu, yn gweithredu ac yn monitro polisïau a gweithdrefnau diogelu effeithiol. Mae hyn yn rhoi ar ddeall bod ymddiriedolwyr elusen yn gyfrifol am sicrhau nad yw'r rhai sy'n cael budd o'u helusen, neu'r sawl sy'n gweithio gyda hi, yn cael eu niweidio mewn unrhyw ffordd trwy gysylltiad â'r elusen. Mae ganddynt ddyletswydd gyfreithiol i wneud popeth y gallant o fewn rheswm i sicrhau na fydd hyn yn digwydd. Bydd hynny'n neilltuol o bwysig os bydd buddiolwyr yn bobl agored i niwed neu'n blant yn y gymuned. Disgwylir i ymddiriedolwyr ganfod beth yw'r gyfraith berthnasol, sut mae'n berthnasol i'w sefydliad a chydymffurfio â hi lle bo'n briodol. Dylent hefyd fabwysiadu arferion gorau cyn belled ag y bo modd er mwyn osgoi'r tebygolrwydd y bydd digwyddiadau diogelu yn digwydd.

Mae'r canllawiau yn creu gofyniad i adrodd am ddigwyddiadau diogelu. Rhaid i elusennau megis FfCCFfI gyflwyno adroddiad i'r Comisiwn os bydd unrhyw risg(iau) diogelu difrifol yn codi. Mae hyn yn cynnwys pob achos o gam-drin (honedig neu wirioneddol) buddiolwyr yr elusen (plant neu oedolion) neu ei trin yn wael sydd wedi arwain at (neu a allai arwain at) niwed sylweddol iddynt ac a ddigwyddodd tra'r oeddent dan ofal yr elusen neu'n ymwneud â'i gweithgareddau, neu bod y pryderon wedi codi mewn perthynas ag aelod o

weithlu'r elusen. . Mae crynodeb o'r canllawiau hyn ar gyfer ymddiriedolwyr wedi'i nodi yn Atodiad 1 y polisi hwn. Mae'n ofynnol i unrhyw ddigwyddiad difrifol sydd wedi arwain at neu a allai arwain at golli cyfanswm sylweddol o arian neu risg sylweddol i eiddo, gwaith, buddiolwyr neu enw da elusen gael ei adrodd ar unwaith, nid wrth lenwi'r Ffurflen Flynyddol. Byddai'r craffu allanol hwn ar glybiau a ffederasiynau sirol gan y Comisiwn Elusennau yn cwmpasu adrodd am unrhyw ddigwyddiad diogelu arwyddocaol ac unrhyw fethiannau o ran cydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau cenedlaethol.

Trwy hyrwyddo'r polisi diogelu hwn a'r gweithdrefnau â chanllawiau ategol, mae FfCCFfI yn ceisio sicrhau bod dyletswyddau'r sefydliad yn cael eu deall, yr ymatebir iddynt ac y cânt eu cyflawni ar yr lefel genedlaethol. Bydd mabwysiadu a gweithredu Polisi diogelu FfCCFfI yn sicrhau bod pob Clwb Ffermwyr Ifanc yn cydymffurfio â gofynion y Comisiwn Elusennau. Mae FfCCFfI yn cynnig arweiniad a chymorth i ffederasiynau sirol a chlybiau ar y lefel leol. Gall methu â mabwysiadu neu gadw at y polisi (neu bolisi amgen a gefnogir yn ffurfiol gan sefydliad a gymeradwywyd gan FfCCFfI) olygu y gallai clybiau a ffederasiynau sirol wynebu risgiau, oherwydd mae atebolrwydd yn nwylo'r ymddiriedolwyr ar y lefel leol.

**Eithafiaeth a Radicaleiddio**

Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 - Mae Adran 26(1) y Ddeddf yn gosod dyletswydd ar "awdurdodau penodedig", wrth arfer eu swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu radicaleiddio a/neu eu denu at derfysgaeth. Mae pobl ifanc yn parhau i fod yn gyfran anghymesur o uchel o'r rhai a arestir yn y wlad hon am droseddau'n ymwneud â therfysgaeth ac am hyrwyddo ideolegau eithafol wyneb yn wyneb ac ar-lein. Rhaid i'r Ffermwyr Ifanc fod yn wyliadwrus ac yn ymwybodol o'r risgiau y mae hyn yn eu hachosi, nid yn unig i ddiogelwch y wlad ond mewn perthynas â'r risg wirioneddol o niwed i'r rhai sydd dan sylw. Ceir tystiolaeth hefyd o fwy o eithafiaeth a radicaleiddio gan yr asgell dde eithafol mewn llawer o gymunedau, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae'r boblogaeth yn wynebu heriau sy'n ymwneud â thlodi, anghydraddoldeb cymdeithasol, arwahanrwydd cymdeithasol a diweithdra.

Yn unol â *strategaeth Prevent* Llywodraeth y DU, dylid cyfeirio unrhyw bryderon sy'n ymwneud â radicaleiddio ac eithafiaeth (os bydd ymddygiad neu farn a fynegir gan unrhyw unigolyn peri risgiau neu'n peri risgiau i bob golwg i'r unigolyn neu i eraill) yn ddi-oed at FfCCFfI (neu'r Heddlu os credir bod perygl dybryd) i sicrhau yr eir i'r afael â'r holl ystyriaethau diogelu. Daeth canllawiau statudol dyletswydd Prevent ar gyfer Cymru a Lloegr, a gyhoeddwyd ar 7 Medi 2023 yn unol ag Adran 29 Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, i rym ar 31 Rhagfyr 2023 Mae'r canllawiau ar gael ar gael trwy droi at Prevent duty guidance: England and Wales (2023) - GOV.UK (www.gov.uk). Gellir cyrchu a chwblhau cyrsiau hyfforddi dyletswydd Prevent y llywodraeth ar-lein yn: Prevent duty training - GOV.UK (www.gov.uk).

Mae deddfwriaeth y DU yn diogelu hawliau pob unigolyn ac mae gan ein haelodau a'n staff ddyletswydd gyfreithiol i adrodd am bryderon ynghylch arferion niweidiol gan gynnwys yr hyn a elwir yn drais 'ar sail anrhydedd', anffurfio organau cenhedlu benywod (Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003) a phriodas dan orfod (Deddf Priodas dan Orfod (Amddiffyniad Sifil) 2007) sy'n anghyfreithlon yn y DU.

Yng nghyd-destun y CFfI gall aelodau ddod yn ymwybodol o fathau o eithafiaeth (mewn perthynas â hawliau anifeiliaid neu wrthwynebiad i gnydau a addaswyd yn enetig, er enghraifft) pan fydd credoau unigolion yn golygu eu bod fodlon cymryd camau uniongyrchol a all gynnwys amrywiaeth o ymddygiad anghyfreithlon ar adegau, boed yn ymddygiad cymedrol (troseddau camymddwyn megis tresmasu, fandaliaeth droseddol, troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus, ac ati) neu ymddygiad difrifol (enllib, llosgi bwriadol, ymosod, ac ati). Mae'n amlwg bod angen i'r CFfI gydbwyso ei ddyletswyddau cyfreithiol o ran sicrhau rhyddid i lefaru ac arfer cynhwysol â'r angen i ddiogelu lles yr holl aelodau a'r staff ar yr un pryd.

**Yr egwyddorion sy'n sail i arferion diogelu effeithiol:**

Mae arferion diogelu yn cael eu llywio’n gryf gan werthoedd ac maent wedi’u tanategu gan yr egwyddorion a nodir mewn canllawiau statudol.

<u>**Gwerthoedd FfCCFfI – Hwyl, Dysgu a Chyflawni**</u>

- ***Hwyl:*** Mae’r CFfI yn annog cyfranogi mewn modd sy’n caniatáu i bawb gael hwyl
- ***Rhagoriaeth:*** Mae’r CFfI yn annog unigolion a chlybiau i gyflawni eu llawn botensial trwy gyfranogi yng ngweithgareddau a chystadlaethau’r CFfI, i ddysgu sgiliau newydd, ac i fagu hyder a datblygu cymwyseddau y gellir eu trosglwyddo i bob agwedd ar fywyd.
- ***Cydraddoldeb a chynhwysiant:*** Mae’r CFfI yn gwerthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth heb ragfarn neu wahaniaethu, ac yn croesawu tebygrwydd a gwahaniaethau’r naill a’r llall gan sicrhau y caiff pawb eu cynnwys
- ***Parch:*** Caiff pawb ei drin â pharch
- ***Tegwch:*** Caiff pawb ei drin yn deg
- ***Ysbrydoli a chyffroi:*** nod cyfranogiad cadarnhaol yn y CFfI yw ysbrydoli arweinwyr y dyfodol yn ein mudiad
- ***Delfrydau ymddwyn:*** Mae’r CFfI yn ymdrechu i greu diwylliant cadarnhaol ac amgylchedd diogel trwy ymdrechion pawb i fod yn ddelfrydau ymddwyn o ran arferion bob amser, gan gynnwys ar-lein

Os bydd pryderon difrifol am risg dybryd o niwed, dylid gweithredu’n ddi-oed. Dilynwch y gweithdrefnau adrodd yn y polisi hwn bob amser ond ystyriwch yr egwyddorion canlynol:

Mae Deddf Plant 1989 yn amlinellu sawl egwyddor sy’n allweddol o ran diogelu a hybu lles plant:

- **Grymuso:** Sicrhau bod plant yn cael eu grymuso i fynegi eu barn, cyfrannu at benderfyniadau sy’n effeithio arnynt, a bod eu lleisiau’n cael eu clywed.
- **Amddiffyn:** Blaenoriaethu diogelwch plant a’u hamddiffyn rhag niwed, camdriniaeth neu esgeulustod.
- **Atal:** Cymryd camau rhagweithiol i atal niwed a mynd i’r afael â risgiau cyn iddynt waethygu.
- **Cymesuredd:** Cydbwyso ymyriadau’n briodol ar sail anghenion ac amgylchiadau’r plentyn.
- **Partneriaethau:** Cydweithio ag asiantaethau amrywiol, gweithwyr proffesiynol a theuluoedd i ddarparu cymorth cyfannol.
- **Atebolrwydd:** Sicrhau bod partïon cyfrifol yn atebol am ddiogelu plant yn effeithiol.

Mae canllawiau statudol Gofal a Chymorth yn nodi’r egwyddorion canlynol sy’n sail i arferion diogelu sydd i bob pwrpas yn ceisio cynorthwyo ac amddiffyn oedolion a allai fod yn fwy agored i niwed neu rai sydd mewn perygl:

- **Grymuso -** Oedolion yn cael eu cynorthwyo a'u hannog i wneud eu penderfyniadau eu hunain a chydsynio ar sail gwybodaeth. *‘Gofynnir i mi beth yw fy nymuniadau o ran canlyniadau’r broses ddiogelu ac mae’r rhain yn helpu’n uniongyrchol i lywio’r hyn sy’n digwydd’.*
- **Atal -** Mae’n well gweithredu cyn i niwed ddigwydd. *‘Byddaf yn cael gwybodaeth eglur a syml ynghylch beth yw cam-drin, sut i adnabod yr arwyddion a beth y gallaf ei wneud i geisio cymorth’.*
- **Cymesuredd** - Yr ymateb lleiaf ymwthiol sy'n briodol i'r risg a amlygwyd. *‘Rwy’n siŵr y bydd y gweithwyr proffesiynol yn gweithio er fy lles pennaf i, pan fyddaf yn eu gweld, ac ni fyddant yn ymyrryd mwy na’r hyn sy’n ofynnol’.*

- **Amddiffyn -** Cymorth a chynrychiolaeth i'r sawl sydd â'r anghenion mwyaf. *'Byddaf yn cael cymorth a chefnogaeth i roi gwybod am gamdriniaeth ac esgeulustod. 'Rwy'n cael cymorth fel y gallaf gyfranogi yn y broses ddiogelu i'r graddau y dymunaf'.*
- **Partneriaeth** - Atebion lleol trwy wasanaethau yn cydweithio â'u cymunedau. Mae gan gymunedau gyfraniad i'w wneud o ran atal, canfod a rhoi gwybod am esgeulustod a chamdriniaeth. *'Rwy'n gwybod y bydd staff a gwirfoddolwyr yn trin unrhyw wybodaeth bersonol a sensitif yn gyfrinachol, gan rannu dim ond yr hyn sy'n ddefnyddiol ac yn angenrheidiol. Rwy'n hyderus y bydd staff a gwirfoddolwyr y CFfI yn cydweithio â gweithwyr proffesiynol, os bydd hynny'n ofynnol, a gyda fi, i sicrhau'r canlyniad gorau i mi'.*
- **Atebolrwydd** - Atebolrwydd a thryloywder wrth gyflawni diogelu '*Rwy'n deall rôl pawb sy'n ymwneud â fy mywyd ac maent hwythau hefyd.'*

Mae gan staff, gwirfoddolwyr ac aelodau gyfrifoldeb i fod yn wyliadwrus ac yn ymwybodol o arwyddion o bryder sy'n dangos nad yw popeth yn iawn yn achos rhywun. Dylid nodi y bydd llawer o oedolion sy'n fwy agored i niwed naill a'i dewis peidio â datgelu hyn neu ni fyddant yn ystyried eu bod yn agored i niwed. Yn yr un modd, mae mwy nag 80% o anableddau yn anweledig (gwahaniaethau o ran dysgu a chyfathrebu, er enghraifft). Nid yw staff, gwirfoddolwyr ac aelodau'r CFfI yn gyfrifol am asesu nac ymchwilio i neu ddarparu ymateb therapiwtig i gamdriniaeth. Yn ychwanegol, nid yw pob pryder yn ymwneud â cham-drin, oherwydd mae'n bosibl iawn y bydd esboniadau eraill. Mae'n bwysig bod yn eangfrydig ac ystyried yr hyn sy'n hysbys am yr unigolyn a'i amgylchiadau. Gellir datgan gwybodaeth ar y ffurflen aelodaeth, ac os bydd hynny'n briodol, gellir cael rhagor o wybodaeth o'r asesiad o anghenion yn y Canllawiau Cymorth ag Anghenion Ychwanegol (Atodiad X), sydd ar gael ar gais gan FfCCFfI.

Bydd y Ffederasiwn yn:

- Sicrhau bod staff, aelodau a gwirfoddolwyr yn ymwybodol, ar sail 'angen gwybod', o wybodaeth sy'n awgrymu bod gan aelod anghenion cymorth ychwanegol neu bod angen ei ddiogelu. Lle bo'n briodol, bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu gan sicrhau bod yr oedolyn, yr unigolyn ifanc neu'r rhieni/gofalwyr yn gwybod am hynny ac yn cytuno y gellir gwneud hynny.
- Ceisio cymorth gan yr asiantaethau statudol priodol os nodir neu amheuir perygl dybryd o niwed neu gamdriniaeth
- Cynorthwyo, ac os bydd hynny'n bosibl, gweithredu i sicrhau diogelwch unigolion a sicrhau y darperir yr holl wybodaeth berthnasol/hysbysu ynghylch risg ac anghenion a nodwyd wrth gyfeirio pryderon a
- Rhoi gweithdrefnau recriwtio diogel ar waith yn unol â'r hyn a nodir ym Mholisi Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Perygl FfCCFfI gan gynnwys gwiriadau cofnodion troseddol (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd [DBS]) ar gyfer staff a gwirfoddolwyr os yw eu rôl yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a amlinellwyd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. .

Yn Lloegr a'r Alban, os oes gan oedolyn ddigon o alluedd, mae ganddynt hawl i wrthod asesiad a chymorth os na fydd pryderon am berygl dybryd (yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a Chanllawiau Statudol Gofal a Chymorth 2018). Gall FfCCFfI ofyn am gyngor a chymorth gan asiantaeth statudol dan yr amgylchiadau hyn heb ddatgelu manylion yr unigolyn. Os credir bod perygl dybryd o niwed sylweddol, mae holl ganllawiau diogelu gwledydd Prydain yn cefnogi'r egwyddor y dylid cymryd camau i amddiffyn yr unigolyn.

Ceir rhagor o wybodaeth am ddiogelu oedolion a allai fod yn fwy agored i niwed yn adran 3 y ddogfen hon.

# 1. Recriwtio'n Ddiogel - Adran 1

Mae'r adran hon o'r polisi yn egluro sut rydym yn ceisio sicrhau ein bod yn recriwtio pobl ddiogel a phriodol i weithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion a allai fod yn fwy agored i niwed yn y CFfI. Mae gweithdrefnau recriwtio diogel yn hanfodol i asesu a yw pobl yn briodol ac yn addas i weithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed. Mae'r mesurau hyn yn amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl rhag niwed posibl ac yn lleihau'r cyfleoedd i unrhyw un sydd â bwriadau amhriodol ddod i gysylltiad â'n haelodau a/neu arwain ein gweithgareddau. Maent hefyd yn darparu tystiolaeth gadarnhaol bosibl y gellir ei hystyried i gynorthwyo'r sawl sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion a allai fod yn fwy agored i niwed pan fydd pryderon yn codi. Dylid llunio cofnodion recriwtio diogel a'u cadw er mwyn cynorthwyo ag ymchwiliadau mewnol ac allanol yn ymwneud â phawb sy'n cael eu recriwtio neu eu hethol gan y CFfI. Yn achos unigolyn yn cael ei ddiarddel o'r CFfI oherwydd pryderon diogelu, bydd angen y cofnodion hyn er mwyn gallu cyfeirio ar y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, y Comisiwn Elusennau ac o bosibl Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol (LADO) yn unol â deddfwriaeth gyfredol a canllawiau statudol a rhai'r sector.

Mae FfCCFfI yn fudiad ieuenctid gwirfoddol ar gyfer plant a phobl ifanc 10-28 oed. Oherwydd y grŵp oedran a natur y gwaith y mae ein sefydliad yn ei gyflawni gyda phobl ifanc, mae ein staff a'n gwirfoddolwyr yn destun gweithdrefnau recriwtio diogel i sicrhau eu bod yn addas i weithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl. Mae FfCCFfI yn cymryd y mater hwn o ddifri a bydd yn cymryd pob cam rhesymol i atal pobl amhriodol rhag gweithio yn y CFfI. Mae llawer o'n haelodau dan 18 oed ac mae'n hanfodol ein bod yn cymryd pob cam posibl i ddiogelu lles y plant a'r bobl ifanc hyn, a diogelu enw da'r CFfI hefyd.

Bydd y Ffermwyr Ifanc yn gweithredu'r safonau recriwtio canlynol yn achos y rhai sy'n rhan o Dîm Swyddogion Clwb/Ffederasiwn Sirol, Arweinwyr Clybiau Iau, gwirfoddolwyr eraill neu aelodau staff sydd â mynediad rheolaidd at blant a phobl ifanc, a hefyd yn achos unrhyw oedolyn a all, fel rhan o'u rôl a'u cyfrifoldebau, fod â rôl arwain/goruchwylio neu a allai fynd gydag aelodau ifanc i gyfranogi mewn gweithgareddau penodol. Y gweithgareddau risg uwch yw'r rhai sy'n cynnwys teithio a digwyddiadau. Mae gweithgareddau preswyl yn weithgarwch rheoledig. Mae 'cyswllt rheoledig' yn derm a ddefnyddir i ddiffinio cyswllt unigolyn â phlant, pobl ifanc neu oedolion a allai fod yn fwy agored i niwed sy'n pennu lefel y gwiriadau recriwtio diogel sydd eu hangen arnynt. Ceir esboniad llawn o'r categorïau cyswllt rheoledig yn Atodiad 4.

## 1.1. Gweithdrefnau recriwtio

Ein gwirfoddolwyr yw ein caffaeliad pennaf, ond rhaid cydnabod hefyd y ceir unigolion sydd â chymhellion eraill sy'n sail i'w dymuniad i weithio gyda phobl ifanc a grwpiau bregus. Gallai hynny beryglu aelodau'r CFfI ac enw da ein sefydliad. Ni fydd gweithdrefnau recriwtio diogel bob amser yn atal y rhai sydd â bwriadau amhriodol rhag dod yn rhan o'r sefydliad, ond maent yn ein helpu i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am addasrwydd y bobl yr ydym yn caniatáu iddynt weithio gyda'n haelodau, a gweithredu fel rhwystr drwy ddangos dirnadaeth a threfniadau cadarn ynghylch diogelu. Bydd arddangos trefn recriwtio ddiogel sy'n eglur ac yn cael ei hybu a'i gweithredu o'r adeg pan fydd rôl yn cael ei hysbysebu/dod ar gael hyd at y penodiad yn ddull cryf o atal y bobl hynny sydd â bwriadau amhriodol rhag ceisio dod yn rhan o'r CFfI i gael mynediad at blant a phobl ifanc. Mae gofalu bod pobl yn atebol mewn perthynas â'u hymddygiad a'u ffiniau proffesiynol a hyrwyddo arferion gwaith mwy diogel yn sicrhau y caiff pryderon eu cydnabod (hyd yn oed ar y lefelau isel) ar ôl i unigolion gael eu penodi.

Dywed llawer o'r aelodau fod y Ffermwyr Ifanc yn debyg i fod yn rhan o deulu. Mae tystiolaeth yn deillio o ymarfer yn dangos bod y rhan fwyaf o gamdriniaeth yn digwydd yn y cartref neu'n cael ei gyflawni gan rywun

sy'n hysbys i'r dioddefwr. Er na ddylid creu diwylliant lle amheuir pawb, mae'n hanfodol i bawb yn y sefydliad ddeall eu cyfrifoldebau ynghylch diogelu.

Mae'r mwyafrif helaeth arweinwyr gwirfoddol y CFfI wedi aeddfedu drwy'r mudiad a bydd yr aelodaeth yn eu hethol neu'n gofyn iddynt ymgymryd â rôl. Ar ôl derbyn y rôl a'r cyfrifoldebau hyn, yn hytrach na bod yn aelod, byddant yn unigolyn â swydd gyfrifol. Rhaid i ni gydnabod, pan fydd aelod yn dod yn swyddog/arweinydd/cynorthwyydd gwirfoddol neu'n ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol mewn clwb neu ffederasiwn sirol, dylid eu trin yn yr un modd â rhywun o'r tu allan i'r sefydliad sy'n ymgeisio am swydd neu'n cynnig cynorthwyo'n wirfoddol. Mae gan bob gwirfoddolwr a'r holl staff hawl i gael eu trin yn gyfartal, ac mae hynny'n golygu eu trin yn yr un modd yn union, eu bod yn gorfod ymgymryd â'r un prosesau a'u bod yn rhannu'r un hawliau a chyfrifoldebau. Nid oes gan neb yr hawl i wirfoddoli heb gael eu hasesu i gadarnhau eu bod yn addas i wneud hynny mewn perthynas â'r rôl a'r aelodau y byddant yn gyfrifol amdanynt, trwy wiriadau recriwtio a dethol priodol.

## 1.2. Ffurflenni cais

Mae'n well gofyn i'r holl ddarpar staff a gwirfoddolwyr posibl lenwi ffurflen gais yn hytrach na gofyn am gopi o'u CV oherwydd bydd ffurflen yn caniatáu ichi ofyn cwestiynau penodol a chyson am eu cyflogaeth a'u profiad o wirfoddoli yn y gorffennol. Dylid defnyddio ffurflen gais safonol wrth recriwtio; bydd hyn hefyd yn cynorthwyo i sicrhau asesiad tryloyw, cyson a theg o ddarpar ymgeiswyr. Bydd y ffurflen gais hefyd yn rhoi cyfle i'r ymgeisydd/gwirfoddolwr enwebu dau ganolwr y gellir cysylltu â hwy fel rhan o'r gweithdrefnau recriwtio diogel. Mae templedi o'r ffurflenni cais ar gyfer gwirfoddolwyr a staff ar gael yn Atodiadau 2 a 3.

## 1.3. Ffurflen Hunanddatganiad

Mae hunanddatganiad wedi'i gynnwys yn y ffurflenni cais ar gyfer staff a gwirfoddolwyr a dylid ei ddefnyddio ar gyfer pob rôl reoledig yn y sefydliad. Mae'n gofyn y cwestiynau eithriedig i'r ymgeiswyr sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddatgelu manylion unrhyw droseddau yn y gorffennol, gan gynnwys euogfarnau sydd wedi'u disbyddu, ymchwiliadau, pryderon a gwybodaeth y bydd yn rhaid eu hystyried a'u hasesu efallai yn ystod y broses recriwtio. Dim ond yn achos rolau sy'n gymwys i gael gwiriadau manylach gan y DBS y gellir gofyn y cwestiynau hyn. Gallai'r wybodaeth hon wedi'i datgelu (neu beidio) ar dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ond gallai unrhyw anghysonderau rhwng y ddwy set hon o wybodaeth godi pryderon diogelu. Mae'n hanfodol cydnabod yr angen i sicrhau sensitifrwydd a chyfrinachedd mewn perthynas ag unrhyw wybodaeth a rennir gan ymgeiswyr. Dylid nodi hefyd na fydd gan lawer o droseddau unrhyw oblygiadau o ran diogelu ac na fyddant yn berthnasol i'r rôl yr ymgeisir amdani. Bydd unrhyw wybodaeth a ddatgelir yn cael ei hystyried mewn modd tryloyw, gwybodus a theg lle bo hynny'n berthnasol i'r rôl a'r cyfrifoldebau y bydd unigolyn yn ceisio'u cyflawni. Bydd yr holl wybodaeth a rennir yn cael ei thrin yn gyfrinachol a chaiff unigolion y dewis i atal eu cais os na fyddant yn dymuno bod yn destun y mesurau recriwtio diogel hyn. Mae templed o Ffurflen Hunanddatganiad ar gael yn Atodiad X.

## 1.4. Tynnu rhestr fer (ar gyfer swyddi staff yn y CFfI)

Dylai'r broses o lunio rhestr fer o ymgeiswyr gael ei chyflawni gan o leiaf ddau unigolyn a ddylai hefyd fod yn aelodau o'r panel cyfweld. Dylid ystyried unrhyw anghysonderau neu fylchau mewn cyflogaeth a nodir wrth ystyried a ddylid cynnwys ymgeisydd yn y rhestr fer. Mae angen cwestiynu hefyd unrhyw hanes o newid cyflogaeth dro ar ôl tro heb unrhyw welliant o ran gyrfa neu gyflog, neu unrhyw symud ar ganol gyrfa o swydd barhaol i waith asiantaeth, llawrydd neu dros dro.

Yn dilyn y gwiriadau uchod, dylech asesu pob cais i sicrhau eu bod yn bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd. Dylai pob ymgeisydd gael eu hasesu'n gyfartal gan ddefnyddio'r un meini prawf a dylai eich panel llunio rhestr fer ddod i gytundeb ynghylch pa ymgeiswyr y dylid eu gwahodd i gael cyfweliad. Dylai'r panel

gofnodi ei broses benderfynu a’r rhesymeg sy’n ategu’r dewisiadau, rhag ofn y bydd angen ymateb i ymholiadau yn ddiweddarach.

## 1.5. Cyfweliadau (am swyddi staff yn y CFfI)

Dylai'r cyfweliad asesu pob ymgeisydd gan ddefnyddio'r meini prawf dethol sy'n deillio o'r disgrifiad swydd a manyleb yr unigolyn ar gyfer y rôl ac archwilio eu haddasrwydd i weithio gyda grwpiau agored i niwed. Mae cyfweliadau yn gyfle i'r ymgeiswyr ddangos sut maent yn bodloni'r fanyleb ar gyfer y rôl. Ni ddylid ystyried bod hynny’n brawf lle na ellir darparu cymorth neu lle bydd ymgeiswyr yn pryderu y gallent gael eu ‘baglu’ gan gwestiynau sydd fel be baent wedi’u dewis i’w baglu. Dylai'r broses i ddethol pobl a fydd yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion sydd mewn perygl gynnwys cyfweliad wyneb yn wyneb bob tro. hyd yn oed os mai dim ond un unigolyn fydd yn ymgeisio am y swydd.

Mae'n arfer da i'ch panel cyfweld gynnwys o leiaf ddau gyfwelydd, fel y gall un aelod arsylwi ac asesu'r ymgeisydd a llunio nodiadau, tra bydd yr ymgeisydd yn siarad â'r llall. Gellir newid y rolau hyn a chytuno arnynt yn ystod y gwaith paratoi cyn i gyfweliadau ddechrau. Mae hyn hefyd yn lleihau'r posibilrwydd o duedd a’r posibilrwydd o unrhyw anghydfod ynghylch yr hyn a ddwedwyd neu a ofynnwyd yn ystod y cyfweliad. Dylai holl aelodau'r panel ymgyfarwyddo â ffurflen gais yr ymgeiswyr cyn i'r cyfweliadau ddechrau. Ystyriwch y materion i'w trafod â phob ymgeisydd a phwy fydd yn holi am y materion hynny. Cytunwch ar eich meini prawf dethol yn unol â manyleb yr unigolyn, y dull asesu y byddwch yn ei ddefnyddio a'r safonau y byddwch yn eu cymhwyso. Bydd angen i aelodau’r panel gytuno ar set o gwestiynau y byddant yn eu gofyn i bob ymgeisydd sy'n ymwneud â gofynion y swydd a'r materion y byddant yn eu harchwilio gyda phob ymgeisydd yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarperir yn y ffurflenni a'r tystlythyrau (os byddant ar gael ar yr adeg honno). Dylid osgoi cwestiynau damcaniaethol, a dylid geirio cwestiynau i sicrhau bod ymgeiswyr yn gallu siarad o safbwynt eu profiad o weithio, gwirfoddoli a bywyd (e.e. “A allech chi ddisgrifio adeg pan wnaethoch …?”.

Os bydd yr ymgeisydd wedi datgan unrhyw euogfarnau troseddol neu bryderon/ymchwiliadau yn y gorffennol, bydd angen i’r panel hefyd ystyried a yw’r rheiny’n berthnasol ac a fydd angen eu trafod ymhellach yn ystod y cyfweliad. I’r rhai sy’n cynnal cyfweliadau rheolaidd ar gyfer swyddi gyda Ffermwyr Ifanc, efallai y byddai’n fuddiol cwblhau modiwl E-ddysgu recriwtio diogel ar-lein yr NSPCC neu fynychu hyfforddiant gan yr awdurdod lleol ynghylch recriwtio diogel.

## 1.6. Gwiriadau Datgelu a Gwahardd (gwiriadau DBS)

Mae gwiriadau DBS yn helpu sefydliadau i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion a allai fod yn fwy agored i niwed. Disodlodd y DBS y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) a’r Awdurdod Diogelu Annibynnol (ISA) yn 2012 fel yr asiantaeth sy’n gyfrifol am wirio cofnodion troseddol pobl sy’n ymgeisio am waith cyflogedig a gwirfoddol gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion sy’n agored i niwed. Mae'r wybodaeth a gesglir o wiriadau cofnodion troseddol yn rhan bwysig o’r gwaith o ofalu bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei hystyried a'i hasesu i sicrhau bod ein gweithlu'n addas ac yn briodol i weithio gyda defnyddwyr gwasanaethau sy'n agored i niwed. Mae gwiriadau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn rhan fechan ond pwysig serch hynny o ymrwymiad y Ffermwyr Ifanc i atal unigolion sydd â bwriadau amhriodol neu sydd efallai’n bobl anaddas rhag gweithio yn ein gweithgareddau a hefyd yn galluogi’r sefydliad i ymateb mewn ffordd sy’n seiliedig ar wybodaeth i honiadau neu bryderon am ein gwirfoddolwyr. Mae gwiriadau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd hefyd yn ein helpu i nodi’r unigolion hynny sydd wedi’u heuogfarnu oherwydd troseddau anonestrwydd ac yn ein helpu i ddiogelu ein cronfeydd elusennol.

Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi bod angen defnyddio gwiriadau DBS yn achos rhai swyddi a ystyrir yn rhai 'rheoledig' yn y CFfI. Diffinnir gweithgarwch rheoledig fel gwaith na ddylai gael ei wneud gan unigolyn sydd wedi'i wahardd rhag gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion a allai fod yn fwy agored i niwed, Yn gryno, mae hyn yn cynnwys:

- Gweithgareddau heb oruchwyliaeth: addysgu, hyfforddi, cyfarwyddo, gofalu am neu oruchwylio plant, neu gynnig cyngor/arweiniad ynghylch lles, neu yrru cerbyd gan gludo plant yn unig.
- Gwaith sy'n digwydd yn rheolaidd (o leiaf yn wythnosol), yn aml (pedair gwaith y mis neu'n amlach) neu dros nos (rhwng 2am a 6am) neu waith mewn ystod gyfyngedig o sefydliadau ('lleoedd penodedig'), â chyfleoedd i gael cyswllt â phlant: e.e. ysgolion, cartrefi plant, a mannau gofal plant.

Mae'n drosedd i unigolyn sydd wedi'i wahardd geisio gwaith yn ymwneud â gweithgarwch rheoledig, ac i gyflogwr fynd ati'n fwriadol i gyflogi unigolyn sydd wedi'i wahardd i ymgymryd â gweithgarwch o'r fath. (Yn dilyn cyflwyno'r Ddeddf Diogelu Rhyddidau (PoFA) ym mis Medi 2012, diddymwyd rhai swyddi penodol yr oedd Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 yn ystyried eu bod yn ymwneud â gweithgarwch rheoledig).

Y Comisiwn Elusennau yw rheolydd y sector elusennol yng Nghymru a Lloegr ac un o'i swyddogaethau yw cynnig argymhellion ynghylch diogelu ar gyfer ei elusennau cofrestredig. Rhan allweddol o hyn yw'r arweiniad y bydd yn ei gyhoeddi ynghylch recriwtio a fetio ymddiriedolwyr elusennau. Dylid nodi nad yw'r Comisiwn Elusennau yn ei gwneud hi'n ofynnol i elusennau plant gynnal gwiriadau cofnodion troseddol drwy'r DBS ynghylch eu hymddiriedolwyr, ond mae'r Comisiwn yn datgan y bydd yn disgwyl i wiriadau gael eu cynnal os oes gan elusen hawl cyfreithlon i wneud hynny. Dylid nodi bod ymddiriedolwyr elusen yn gymwys i gael gwiriad DBS:

- Os yw'r elusen wedi'i sefydlu'n benodol ar gyfer plant neu oedolion a allai fod yn fwy agored i niwed; neu
- Bydd yr unigolyn yn cyflawni gweithgarwch penodol (rheoledig) sy'n golygu eu bod gymwys er gwaethaf y ffaith eu bod yn ymddiriedolwr elusen.

Nid yw swydd ymddiriedolwr elusen wedi'i henwi yn y diffiniad o waith gyda phlant yn rheoliad 5C(1) Rheoliadau (Cofnodion Troseddol) 2002 Deddf yr Heddlu 1997. Fodd bynnag, yn y rheoliad hwn, mae'n datgan: '*ystyried addasrwydd yr ymgeisydd i gyfranogi mewn unrhyw weithgarwch sy'n weithgarwch rheoledig sy'n ymwneud â phlant yn unol ag ystyr Rhan 1 Atodlen 4 Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 fel yr oedd yn weithredol yn union cyn i adran 64 Deddf Amddiffyn Rhyddidau 2012 ddod i rym'*

Mae hyn yn golygu bod ymddiriedolwyr elusennau plant megis FfCCFfI yn cael eu hystyried yn rhan o'r gweithlu plant oherwydd maent yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn y diffiniad o weithgarwch rheoledig gyda phlant cyn gweithredu'r newidiadau ym mis Medi 2012, ac felly, maent yn gymwys i gyflwyno cais am dystysgrif datgeliad manylach y DBS a bydd gofyn iddynt wneud hynny, ond nid ydynt yn gymwys i gael gwiriad ar y rhestr o bobl sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant. Yn y diffiniad gwreiddiol o weithgarwch rheoledig gyda phlant, nodir y meini prawf ychwanegol ar gyfer ymddiriedolwr elusen sy'n elusen plant, sef:

- Mae elusen yn elusen plant os yw'r unigolion sy'n weithwyr i'r elusen fel arfer yn cynnwys unigolion sy'n cyfranogi mewn gweithgarwch rheoledig sy'n ymwneud â phlant.

- Mae ystyron "elusen" ac "ymddiriedolwr elusen" yr un fath ag ystyron yr un termau yn Neddf Elusennau 1993.

Dylai pob lefel o'r sefydliad asesu eu rolau presennol mewn clybiau a ffederasiynau sirol gan gymharu â lefelau'r gwiriadau sydd ar gael a phenderfynu pa un sy'n fwyaf priodol. Mae Atodiad 5 ar gael i gynnig arweiniad i chi ynghylch hyn, ond gallai rolau penodol yn eich clybiau a'ch ffederasiynau sirol amrywio.

## 1.7. Mathau o wiriadau DBS

Gall sefydliadau sydd â hawl i ddefnyddio gwasanaeth gwirio'r DBS ofyn i ymgeiswyr llwyddiannus gyflwyno cais am un o'r mathau canlynol o wiriad yn dibynnu ar rôl y swydd. Bydd darparwyr gwiriadau DBS yn ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad gyfiawnhau'r gofyniad am wiriad cyn prosesu. Mae'n bosibl y bydd angen i'ch clwb neu'ch ffederasiwn sirrol ddatgan sut mae rôl y gwirfoddolwr neu'r aelod o'r staff yr ydych yn ei recriwtio yn bodloni'r diffiniad o weithgarwch rheoledig.

| Lefel y Gwiriad | Beth mae'n ei gynnwys |
|---|---|
| **Gwiriad Sylfaenol** | Gellir defnyddio gwiriad sylfaenol ar gyfer unrhyw swydd neu at unrhyw ddiben. Bydd tystysgrif gwiriad sylfaenol yn cynnwys manylion euogfarnau a rhybuddiadau o Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC) na ystyrir eu bod wedi disbyddu yn unol â thelerau Deddf Adsefydlu Troseddwyr (ROA) 1974. |
| **Gwiriad safonol** | Manylion euogfarnau, rhybuddiadau, ceryddon neu rybuddion unigolyn a gofnodwyd ar gofnodion canolog yr heddlu ac yn cynnwys euogfarnau 'wedi disbyddu' a 'heb ddisbyddu'. |
| **Gwiriad manylach**<br>Ceir darpariaeth yn y **Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr** sy'n galluogi cyflogwr i benderfynu gofyn i rywun nad yw'n ymgymryd â Gweithgarwch Rheoledig (heb wirio'r rhestr o bobl sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant) gael gwiriad datgelu gan y DBS.<br><br>'Unrhyw swydd sydd fel arall yn golygu gofalu'n rheolaidd am blant, eu hyfforddi, eu goruchwylio neu fod â chyfrifoldeb llwyr am blant.'<br><br>Nid yw'r geiriau 'yn rheolaidd' yn y cod cymhwysedd hwn yn gysylltiedig â'r gofynion yn y diffiniad o 'Weithgarwch Rheoledig'. Felly, mae modd i'r sefydliad ddiffinio hynny. | • Mae'r rhain ar gyfer swyddi sy'n cynnwys llawer mwy o gysylltiad â grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant Yn gyffredinol, bydd hyn yn golygu gofalu'n rheolaidd am bobl o'r fath, eu goruchwylio, eu hyfforddi neu fod â chyfrifoldeb llwyr amdanynt.<br>• Mae datgeliadau manylach yn cynnwys gwybodaeth a gedwir ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC) am euogfarnau, rhybuddiadau, ceryddon neu rybuddion unigolyn ac mae'n cynnwys euogfarnau 'wedi disbyddu' a 'heb ddisbyddu', ynghyd ag unrhyw gofnodion gan heddlu lleol yr ystyrir yn rhesymol eu bod yn berthnasol i y swydd yr ymgeisir amdani. |
| **Gwiriad datgelu manylach a gwirio'r rhestr o bobl sydd wedi'u gwahardd**<br><br>Rhaid i staff a gwirfoddolwyr fod yn gweithio mewn rôl 'reoledig' i fod yn gymwys i gael gwiriad ar y lefel hon. | • Dim ond ynghylch yr unigolion hynny sy'n ymgymryd â gweithgarwch rheoledig gyda phlant a nifer fechan o swyddi sydd wedi'u rhestru yn rheoliadau Deddf yr Heddlu (e.e. darpar rieni mabwysiadol) y gellir gwirio gwybodaeth yn y rhestr o bobl sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant.<br>• Dim ond ynghylch yr unigolion hynny sy'n ymwneud â gweithgarwch rheoledig gydag oedolion a nifer fechan o swyddi a restrir yn rheoliadau Deddf yr Heddlu y gellir gwirio gwybodaeth yn y rhestr o bobl sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gydag oedolion sy'n agored i niwed.<br>• Dim ond ynghylch yr unigolion hynny'n sy'n ymwneud â gweithgarwch rheoledig gyda'r ddau grŵp sy'n agored i niwed gan gynnwys plant a nifer fechan o swyddi a restrir yn rheoliadau Deddf yr Heddlu y gellir gwybodaeth yn deillio o'r rhestrau o bobl sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant a gydag oedolion sy'n agored i niwed. |
| **Gwirio'r rhestr o bobl sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gydag oedolion yn gyntaf** | Gellir gwirio unigolyn trwy archwilio rhestr y DBS o enwau pobl sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gydag oedolion sy'n agored i niwed tra'n disgwyl i'r gwiriad llawn o gofnodion troseddol gael ei gwblhau - gwneir hyn yn bennaf yn achos pobl sy'n gweithio gydag oedolion sydd mewn perygl mewn cyfleusterau megis cartrefi gofal. |

## 1.8. Ffioedd a godir am wiriadau DBS

Mae'r DBS yn codi ffi i brosesu ceisiadau am wiriadau cofnodion troseddol ar gyfer swyddi cyflogedig. Codir ffi am wiriadau sylfaenol, ac mae gwiriadau safonol a manylach am ddim yn achos gwirfoddolwyr. Fel arfer, bydd angen talu ffi gweinyddu yn achos pob gwiriad. Efallai bydd y ffioedd hyn yn llai os defnyddir darparwyr ar-lein. Ar hyn o bryd, gellir cael manylion y ffioedd a godir am brosesu gwiriadau cofnodion troseddol ar gyfer staff cyflogedig trwy droi at y dudalen ganlynol ar wefan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd: nhttps://www.gov.uk/dbs-check-applicant-criminal-record/get-a-standard-or-enhanced-dbs-check-for-an-employee**.** Er mwyn cynnal y gwiriadau recriwtio diogel priodol, bydd angen gweld y dogfennau **gwreiddiol** (e.e. pasbort, tystysgrif geni, trwydded yrru lawn y DU a bil cyfleustodau) sy'n darparu'r wybodaeth bersonol ganlynol amdanoch, a bydd y rhain yn cael eu casglu yn ystod proses gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS):

- Manylion yr enw llawn a'r cyfeiriad
- Cyfeiriad(au) os ydych yn byw yn y cyfeiriad presennol ers llai na 5 mlynedd
- Dyddiad geni
- Delwedd ffotograffig i gadarnhau pwy ydych chi

## 1.9. Gwiriadau DBS ar gyfer gwirfoddolwyr

Yn ôl diffiniad y DBS, mae gwirfoddolwr yn unigolyn sy'n ymwneud â gweithgarwch sy'n cynnwys treulio amser, yn ddi-dâl (ac eithrio costau teithio a mân dreuliau cymeradwy eraill), yn gwneud rhywbeth â'r nod o gynnig bydd i ryw drydydd parti ac eithrio (neu'n ogystal â) perthynas agos. .Mae'n rhaid i chi fod yn 16 mlwydd oed o leiaf cyn y gellir gofyn i chi ymgeisio am wiriad o'ch cofnodion troseddol. Ni ddylai'r rhai sydd â rolau swyddog/arweinydd CFfI o dan 18 oed fod yn gyfrifol am ofalu am a goruchwylio plant, pobl ifanc ac oedolion eraill a allai fod yn fwy agored i niwed ac ni chânt eu cyfrif mewn cymarebau oedolion/plant. Gallant ymgymryd â rôl 'mewn enw' yn y CFfI ond rhaid iddynt gael eu cysgodi/goruchwylio bob amser gan oedolyn sydd wedi bod yn destun gwiriadau recriwtio diogel priodol. Ar ôl llenwi ffurflen gais am ddatgeliad ar bapur neu gan ddefnyddio system wybodaeth ar-lein ac ar ôl i'ch cyd-lofnodwr yn y ffederasiwn sirol wirio eich dogfennau adnabod, bydd eich siec yn cael ei hanfon yn uniongyrchol at y DBS o'ch ffederasiwn sirol/rhanbarth neu drwy law corff ymbarél neu system ar-lein.

## 1.10. Cyfyngiadau amser yn achos ceisiadau

Efallai bydd rhai unigolion sydd ag euogfarnau yn ceisio oedi neu'n osgoi ymgymryd â gwiriad DBS er mwyn celu troseddau yn y gorffennol. Dylid hysbysu holl Swyddogion y Clwb a'r Ffederasiwn Sirol y bydd gwybodaeth a geir gan y DBS yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol. Nid yw euogfarnau, rhybuddion neu geryddon blaenorol o reidrwydd yn rhwystr rhag bod â rôl. Mae'n bwysig bod unigolion o'r fath yn cael eu hannog i gwblhau hunanddatganiad i ddarparu rhagor o wybodaeth a chyd-destun, a chaiff hynny ei ystyried ochr yn ochr â'r holl wybodaeth recriwtio diogel arall. Dylai'r penderfyniad recriwtio fod yn seiliedig ar asesiad risg wedi'i gofnodi sy'n cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol i bennu addasrwydd cyffredinol ar gyfer y rôl.

Rhaid i unrhyw unigolyn y mae angen iddynt gael gwiriad DBS gyflwyno'u gais o fewn 28 diwrnod ar ôl ei benodi i'w rôl. Ystyrir bod unrhyw unigolyn sy'n methu â chydymffurfio â'r terfyn amser hwn wedi rhoi'r gorau i'w swydd a rhaid eu hatal o'u rôl cyn gynted â phosibl. Diben hyn yw sicrhau na chaniateir i unrhyw un anaddas weithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed.

## 1.11. Gwirio dogfennau adnabod

Rhaid i'r ymgeisydd ddarparu ystod o ddogfennau adnabod fel rhan o'r broses o ymgeisio am wiriad DBS. Bydd yn rhaid i'r unigolyn sy'n prosesu eu cais:

- ddilyn y broses wirio dogfennau adnabod tri llwybr a nodir [yng Nghanllawiau DBS]
- gwirio a dilysu'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd ar y ffurflen gais/dalen barhad
- cadarnhau pwy yn union yw'r ymgeisydd trwy archwilio amrywiaeth o ddogfennau fel y nodir yn y canllawiau
- sicrhau bod yr ymgeisydd yn darparu manylion eu holl enwau blaenorol
- sicrhau bod yr ymgeisydd yn darparu manylion yr holl gyfeiriadau lle maent wedi byw yn ystod y pum mlynedd diwethaf
- sicrhau bod holl rannau'r ffurflen gais wedi'u llenwi a bod y wybodaeth sydd ynddi yn gywir

Wrth wirio dilysrwydd y dogfennau, mae'n arfer gorau cynnal yr archwiliad hwn wyneb yn wyneb. Mae dulliau eraill yn cynnwys trwy gyswllt fideo byw, er enghraifft, Zoom, Skype, FaceTime ac ati. Rhaid i unrhyw risgiau a nodir wrth ddefnyddio fideo byw gael eu hasesu a'u lliniaru wrth weithredu'r arfer hwn.

Yn y ddau achos, rhaid i'r ymgeisydd fod â'r dogfennau gwreiddiol. **Ni chaniateir gofyn am na derbyn llungopïau a sganiau.** Os bydd unrhyw anghysonderau o ran y wybodaeth a ddarperir gan yr ymgeisydd a/neu'r dogfennau adnabod a ddarperir, ac os na amheuir twyll, dylid gofyn i'r ymgeisydd gynnig esboniad. Gallai methu â gwneud hyn beryglu uniondeb y gwasanaeth DBS ac achosi risg yn y broses recriwtio.

**Beth sy'n rhaid i chi ei wneud fel rhan o'r broses gwirio dogfennau adnabod**

- gellir derbyn dogfennaeth ddilys, gyfredol a gwreiddiol yn unig
- ni chaniateir derbyn llungopïau neu sganiau (na gofyn amdanynt)
- Os bydd ymgeisydd yn mynd ati'n fwriadol i ddarparu copïau o ddogfennaeth, ni ddylid eu derbyn a dylid eu dychwelyd ar unwaith i'r ymgeisydd neu eu dinistrio'n ddiogel. Ni ddylid fyth eu storio mewn ffeil.
- Ni chaniateir derbyn dogfennaeth a argraffwyd oddi ar y rhyngrwyd (e.e. cyfriflenni banc rhyngrwyd).
- Rhaid dilysu gwybodaeth ar ddogfennau adnabod i gadarnhau enw, dyddiad geni, a chyfeiriad yr ymgeisydd a gofnodwyd yn adran A ac yn adran B ar ffurflen gais y DBS.
- Dylid cymharu'r ffotograffau mewn dogfennau adnabod (e.e. pasbort, math newydd o drwydded yrru, ac ati) â'r ymgeisydd i gadarnhau eu bod yn ymdebygu.
- Rhaid i bob dogfen fod yn enw presennol yr ymgeisydd fel y'i cofnodwyd yn adran A.
- Rhaid i un ddogfen gadarnhau dyddiad geni'r ymgeisydd fel y'i cofnodwyd yn Adran A.
- Sicrhewch bod yr ymgeisydd yn datgan pob newid enw blaenorol, ac yn darparu tystiolaeth ddogfennol i gadarnhau'r newid enw; os nad yw'r ymgeisydd yn gallu darparu tystiolaeth i gadarnhau'r newid enw, dylid cynnal trafodaeth dreiddgar â'r ymgeisydd ynghylch y rhesymau dros hynny, cyn ystyried cadarnhau pwy ydynt.
- Dylid gweld o leiaf un ddogfen i gadarnhau cyfeiriad presennol yr ymgeisydd fel y'i cofnodwyd yn adran B, yn unol â'r canllawiau
- Rhaid darparu hanes cyfeiriadau llawn a pharhaus ar gyfer y pum mlynedd diwethaf, ac os gellir, dylid gwirio'r hanes hwnnw.
- Dylid croes-gyfateb hanes cyfeiriadau'r ymgeisydd ag unrhyw wybodaeth arall a ddarperir fel rhan o'r recriwtio, er enghraifft, eu CV; gall hyn amlygu bod cyfeiriad heb ei nodi e.e. os yw CV yr ymgeisydd yn dangos ei fod wedi gweithio yn Lerpwl yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, ond ceir cyfeiriadau yn Llundain yn unig ar y ffurflen gais, dylid holi'r ymgeisydd ymhellach am hyn
- Dim ond un ddogfen y dylid ei chynnwys o blith pob un o'r grwpiau yng nghyfanswm y dogfennau, er enghraifft, ni ddylid derbyn dau gyfriflen banc o'r un banc fel dwy o'r dogfennau gofynnol.
- Ni ddylid derbyn dogfen o wlad dramor sy'n cyfateb i ddogfen adnabod os nodir '(UK)' yn achos y ddogfen honno ar y rhestr o ddogfennau adnabod dilys

Ar hyn o bryd, ceir man gwan yn y gyfraith sy'n caniatáu i droseddwyr rhyw cofrestredig newid eu henw trwy weithred newid enw, gan ganiatáu iddynt arddel hunaniaeth newydd. Argymhellir felly y dylid gwirio tystysgrif geni wrth wirio dogfennau adnabod i gadarnhau bod yr ymgeisydd wedi darparu manylion unrhyw newid i'w henw ers eu geni ac wedi darparu tystiolaeth i gadarnhau hynny. Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cynnig gwasanaeth gwirio cyfrinachol ar gyfer ymgeiswyr trawsryweddol yn unol â Deddf Cydnabod Rhyw 2004; gelwir hynny yn llwybr ceisiadau sensitif, ac mae ar gael yn achos gwiriadau DBS ar bob lefel. Mae'r llwybr ceisiadau sensitif yn rhoi'r dewis i ymgeiswyr trawsryweddol i beidio â chael unrhyw wybodaeth am ryw neu enw wedi'i datgelu ar eu tystysgrif DBS a allai ddatgelu beth oedd eu hunaniaeth o ran rhywedd yn flaenorol.

Os na fydd unrhyw aelod yn dymuno i hunaniaeth flaenorol gael ei datgelu i'r CFfI, dylent ffonio neu e-bostio'r tîm penodol sy'n ymdrin â cheisiadau sensitif cyn cyflwyno eu cais. Mae gan y tîm brofiad helaeth o ymdrin ag achosion sensitif a bydd yn cynnig cyngor ynghylch y broses a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud. I gysylltu â'r tîm ceisiadau sensitif, ffoniwch 0300 106 1452 neu e-bostiwch sensitive@dbs.gov.uk. Sylwch, bydd ymgeisydd sy'n defnyddio'r gwasanaeth gwirio cyfrinachol yn dal yn gorfod llenwi'r un ffurflen gais ag unrhyw ymgeisydd arall.

Os bydd yr aelod yn fodlon i'w hunaniaeth flaenorol gael ei datgelu ar eu tystysgrif, ni fydd angen iddynt gysylltu â'r tîm ceisiadau sensitif a gallant gyflwyno'r wybodaeth hon o dan yr adran 'unrhyw enwau eraill' yn eu cais.

## 1.12. Camau proses gwiriadau DBS

Bydd angen cwblhau sawl cam gwahanol ym mhroses gwiriadau'r DBS cyn caiff yr ymgeisydd eu tystysgrif. Dangosir y broses yn y tabl isod.

- **Cam 1 - Derbyn a dilysu'r ffurflen gais**
- **Cam 2 - Chwilio Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu**
- **Cam 3 - Chwilio'r rhestrau o bobl sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed -** *wrth ymgeisio am wiriadau yn achos swyddi rheoledig yn unig*
- **Cam 4 - Chwilio cofnodion sydd gan yr heddlu -** *Anfonir gwiriadau manwl trwy ddulliau electronig diogel at yr heddlu at ddibenion gwiriad manylach o gofnodion lleol cyn anfon y wybodaeth yn ôl i'r DBS.*
- **Cam 5 - argraffu tystysgrif DBS**

*Bydd yr holl wybodaeth sydd i'w datgelu yn cael ei hargraffu dan weithdrefnau hynod ddiogel a'i hanfon at yr ymgeisydd.*

Ers 2013, anfonir datgeliadau DBS at yr ymgeisydd unigol yn unig. Bellach, nid yw sefydliadau yn cael i'w gadw. Diben hyn yw rhoi cyfle i'r ymgeisydd apelio yn erbyn unrhyw gynnwys sy'n amherthnasol yn eu tyb hwy yn achos swydd y byddant yn ymgeisio amdani cyn i'r gwiriad gael ei weld gan y cyflogwr neu'r sefydliad. Felly mae'n rhaid sefydlu trefniadau i sicrhau bod ymgeiswyr yn rhoi mynediad i'r datgeliad at ddibenion swyddi a rolau cymwys. Gall hyn achosi oedi o ran yr amser y bydd yn ei gymryd cyn gall swyddfa'r CFfI weld y datgeliad. Mae angen i dystysgrifau gwreiddiol gael eu gweld yn y fan a'r lle gan y sawl sy'n gyfrifol am benderfyniadau recriwtio diogel yn y ffederasiwn er mwyn i fanylion tystysgrifau ac unrhyw gynnwys gael eu cofnodi.

Os na ellir ymweld â swyddfa'r ffederasiwn sirol, gellir postio tystysgrifau (danfoniad wedi'i gofnodi) a'u dychwelyd. Argymhellir na ddylid caniatáu sganio na thynnu lluniau o'r dogfennau hyn oherwydd mae tystiolaeth yn awgrymu y gellir eu ffugio'n rhwydd i gelu gwybodaeth. Fel arall, gellid rhoi'r rôl i swyddog diogelu'r clwb neu aelod enwebedig o'r tîm swyddogion i weld y dystysgrif wreiddiol â'u llygaid eu hunain a

chael eu briffio am y broses o wirio a chofnodi rhifau a dyddiadau tystysgrifau DBS. Gellir cofnodi'r rhain yng nghofnodion diogelu'r clwb neu eu trosglwyddo i'r ffederasiwn sirol os mai dyma lle cedwir cofnodion y clwb. Mae rhai gwasanaethau ar-lein gan y DBS yn cadarnhau nad yw'r gwiriad yn cynnwys unrhyw wybodaeth sy'n rhoi amddiffyniadau ychwanegol i'r clwb neu'r ffederasiwn nes bydd rhywun wedi gweld y gwiriad â'u llygaid eu hunain. Os bydd gwybodaeth wedi'i chynnwys ar dystysgrif gwiriad DBS, bydd angen archwilio hynny gyda'r sawl sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau recriwtio diogel ar lefel clwb neu ffederasiwn sirol.

## 1.13. Sicrhau hygludedd gwiriadau DBS

Mae'r defnydd o system diweddaru ar-lein wedi sicrhau bod hygludedd gwiriadau DBS yn bosibl. Efallai bydd rhai pobl eisoes wedi cael tystysgrif gwiriad datgelu DBS mewn perthynas â chlwb, ffederasiwn sirol neu sefydliad arall, e.e. os ydynt yn athro neu'n athrawes yn eu swydd amser llawn. Mae **gwasanaeth diweddaru'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)** (www.gov.uk/dbs-update-service) yn caniatáu i ymgeiswyr ddiweddaru eu tystysgrifau DBS ar-lein ac yn caniatáu i gyflogwyr a sefydliadau wirio statws eu gwiriad DBS. Os yw unigolyn wedi tanysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddaru, gellir trosglwyddo eu gwiriad DBS o'r naill rôl i rôl arall os bydd angen gwiriad **ar yr un lefel**.

Dylid gweld copi o'r dystysgrif wreiddiol a'i chynnwys, unrhyw wybodaeth berthnasol sydd wedi'i chofnodi a chadarnhau mai honno yw'r dystysgrif a gofrestrwyd ar-lein. Â chaniatâd yr unigolyn, gall y sefydliad sy'n cyflogi fynd ar-lein i wirio'n ddi-oed a yw tystysgrif DBS yr unigolyn yn dal yn gyfredol (gelwir hyn yn wirio statws). Mae Atodiad 6 yn dempled i ofyn am ganiatâd i wirio statws gwirfoddolwr neu weithiwr, cofnodi'r canlyniad a chwblhau hunanddatganiad.

Gall y sefydliad fewnbynnu manylion adnabod yr ymgeisydd ar y system sy'n cynnwys rhif eu tystysgrif DBS. Bydd hyn yn cadarnhau a yw'r gwiriad yn dal yn gyfredol. Os yw'r system yn nodi nad oes unrhyw wybodaeth newydd wedi'i hychwanegu, gellir argraffu'r wybodaeth honno a'i hychwanegu at ffeil gwybodaeth recriwtio diogel yr unigolyn.

Os bydd gwybodaeth newydd wedi'i hychwanegu ers cynnal y gwiriad, bydd yn rhaid i'r CFfI gynnal gwiriad newydd. Trwy ddefnyddio'r system diweddaru ar-lein, gellir cynnal gwiriadau'n amlach, a bydd hyn yn golygu bod gweithdrefnau diogelu lleol yn fwy cadarn oherwydd gallwch wirio bod tystysgrifau staff a gwirfoddolwyr yn union fel yr oeddent pan gawsant eu recriwtio'n ddiogel i'w rôl.

Wrth ddefnyddio'r system hygludedd, mae'n bwysig sicrhau bod lefel y gwiriad presennol yn briodol ar gyfer y swydd yr ymgeisir amdani yn y CFfI. Mae'n bosibl bod y gwiriad presennol wedi'i brosesu ar lefel uwch ond bydd y swydd yn y CFfI yr ymgeisiwyd amdani yn gofyn am wiriad manylach a gwirio'r rhestr o bobl sydd wedi'u gwahardd oherwydd natur y rôl. Os felly, byddai angen gwiriad newydd ar y lefel berthnasol.

Dylai ffederasiynau sirol a chlybiau annog ymgeiswyr i gofrestru i ddefnyddio'r gwasanaeth diweddaru. Mae'n costio £13 y flwyddyn ar gyfer staff cyflogedig ond gallwch gofrestru am ddim os ydych yn wirfoddolwr. Gallwch gofrestru i ddefnyddio'r gwasanaeth diweddaru trwy droi at *DBS CRSC (crbonline.gov.uk)*

Bydd ymgeiswyr yn gallu cofrestru i ddefnyddio'r Gwasanaeth Diweddaru cyn pen 30 diwrnod ar ôl dyddiad dyroddi eu tystysgrif. Nid yw gwirio statws yn bosibl yn achos gwiriadau DBS ar y lefel sylfaenol.

## 1.14. Amlder gwiriadau DBS

Rhaid ailwirio'r gwirfoddolwyr neu'r aelodau staff hynny sydd â swyddi o ymddiriedaeth **o leiaf bob tair blynedd** er mwyn cadarnhau bod yr unigolyn yn dal yn addas i'w swydd ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd wedi'i hychwanegu at y gwiriad cofnodion troseddol (DBS) ers y gwiriad blaenorol. Os yw staff a

gwirfoddolwyr wedi'u cofrestru i ddefnyddio'r gwasanaeth diweddaru ar-lein, gellir eu gwirio'n flynyddol gan fod y system yn gyflym ac yn effeithlon. Byddai hyn yn cryfhau gweithdrefnau diogelu yn sylweddol. Dylid cynnal gwiriadau DBS newydd os bydd rolau'n newid neu'n cael eu hymestyn. Enghraifft o hyn yw unigolyn sydd wedi bod â rôl ategol yn dod yn gadeirydd clwb oherwydd mae'r rôl a'r cyfrifoldebau yn llawer ehangach, ac efallai y bydd gweithgareddau bellach yn cael eu hystyried yn weithgarwch rheoledig. Mae gwasanaeth diweddaru ar-lein y DBS sy'n rhoi'r cyfle i gyflogwyr gofrestru eu hunain i ailwirio gwirfoddolwyr a gweithwyr ar-lein yn dileu'r angen i gwblhau cais ar bapur neu ar-lein newydd yn ystod y cyfnod ailwirio wedi tair blynedd.

Cyn diweddaru neu wirio'r gwiriad DBS, dylid gofyn i'r gwirfoddolwr neu'r aelod o'r staff lenwi ffurflen hunanddatganiad i nodi a ydynt wedi bod yn destun camau disgyblu, pryderon diogelu neu wedi cyflawni unrhyw droseddau (ers cynnal y gwiriad diwethaf) nad yw'r cyflogwr neu'r sefydliad yn ymwybodol ohonynt (dylid gweithredu hyn yn achos gweithwyr presennol yn ogystal ag ymgeiswyr newydd fel rhan o'r broses o geisio caniatâd i gael mynediad at gofnodion y gwasanaeth diweddaru ar gyfer eu tystysgrif). Mae templed o ffurflen gwirio statws gwiriad DBS ar-lein (gan gynnwys hunanddatganiad) ar gael yn Atodiad 6. Gall unigolyn rannu eu tystysgrif â chaniatâd oherwydd mae'n cynnwys eu gwybodaeth, a gallant roi caniatâd i gyflogwr weld eu statws ar y Gwasanaeth Diweddaru. Â chaniatâd y gwirfoddolwr neu'r gweithiwr, gall y sefydliad neu'r cyflogwr fewngofnodi i'r system a defnyddio'r cyfeirnod o wiriad cofnodion troseddol yr unigolyn i gadarnhau a yw'r gwiriad gwreiddiol yn dal yn gyfredol.

Bydd y system diweddaru ar-lein yn hysbysu'r sefydliad neu'r cyflogwr a fydd gwiriad yn dal yn gyfredol, sy'n golygu na fydd unrhyw wybodaeth newydd wedi'i hychwanegu, neu fod gwybodaeth wedi'i hychwanegu a bod angen gwiriad newydd. Os ceir yr ail ymateb, dylid ailwirio'r unigolyn a siarad â'r unigolyn ynghylch cynnwys newydd y gwiriad ac effaith bosibl hynny ar eu swydd a'u cyfrifoldebau. Ni fydd Gwasanaeth Diweddaru'r DBS yn hysbysu cyflogwyr am newid yn statws rhywun. Mae'n rhaid i Glybiau Ffermwyr Ifanc/Ffederasiynau Sirol gynnal 'gwiriadau statws' ynghylch tystysgrif o bryd i'w gilydd â chaniatâd yr unigolyn er mwyn cael y wybodaeth hon. Bydd gwiriadau rheolaidd yn sicrhau bod y gweithdrefnau diogelu yn fwy cadarn.

Os bydd gwirfoddolwr neu aelod o'r staff yn destun unrhyw ymchwiliadau neu euogfarnau newydd, rhaid iddynt hysbysu'r clwb neu'r ffederasiwn sirol ar unwaith. Os bydd unigolyn yn rhan o ymchwiliad gan yr heddlu neu sefydliadau allanol eraill, efallai caiff y CFfI ei hysbysu os byddant yn datgan eu gweithgarwch gyda'r sefydliad i'r heddlu. Gall ddod yn amlwg bod gwirfoddolwr neu gyflogai wedi methu â rhoi gwybod i chi am drosedd yn y cyfnod interim hwn sy'n effeithio ar eu swydd. Byddai methu â datgelu gwybodaeth o'r fath yn arwain at bryderon ynghylch addasrwydd, ac yn achos gwirfoddolwyr a staff presennol, at gymryd camau disgyblu. Dylid argraffu'r caniatâd i wirio gan gynnwys hunanddatganiad a chanlyniadau'r gwiriad statws a'i ychwanegu at wybodaeth recriwtio ddiogel y gwirfoddolwr/aelod o'r staff.

## 1.15. Asesu Gwiriadau DBS

Yn ystod y broses recriwtio diogel, os dychwelir gwiriad â manylion rhybudd neu gollfarn, dylai'r gwiriad gael ei asesu gan y sawl sy'n gyfrifol am recriwtio diogel yn y clwb neu'r ffederasiwn sirol, â chymorth gan FfCCFfI os bydd angen hynny **Dylid ceisio cyngor gan FfCCFfI cyn gynted â phosibl os nad yw'r wybodaeth a'r annibyniaeth sy'n angenrheidiol i sicrhau bod penderfyniadau cadarn ac amddiffynadwy ar gael ar lefel leol.** Ni fydd cael rhybuddiad neu euogfarn o reidrwydd yn golygu na all unigolyn wirfoddoli na gweithio yn y CFfI. Dylid nodi bod rhybudd yn gofyn am gyfaddefiad o euogrwydd ac felly nid yw'n llai arwyddocaol nag euogfarn. Mae'n anghyfreithlon i unigolyn sydd ar y rhestr o bobl waharddedig gyflwyno cais am waith gyda phlant a phobl ifanc; mae hefyd yn drosedd i sefydliad fynd ati'n fwriadol i recriwtio unigolyn sydd wedi'i wahardd i weithio yn y sefydliad hwnnw. Yn unol â deddfwriaeth a basiwyd ym mis Hydref 2023, bydd

manylion rhai euogfarnau sydd dibennu yn cael eu tynnu o wiriad cofnodion troseddol (DBS) os ystyrir nad ydynt bellach yn berthnasol i'r swydd yr ymgeisir amdani.

Bydd y cyfnod adsefydlu yn dibynnu ar:

- y ddedfryd a roddwyd neu'r datrysiad a weithredwyd o ganlyniad i euogfarn
- oedran yr unigolyn ar ddyddiad eu heuogfarnu

Hyd yn oed wedyn, ni chaiff ei dileu os bydd ymddangos ar y rhestr o droseddau sy'n berthnasol yng nghyd-destun diogelu.

Dylid ystyried gwybodaeth o ddatgeliad DBS ochr yn ochr â'r holl wybodaeth berthnasol arall wrth wneud penderfyniad am addasrwydd unigolyn i weithio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion sydd mewn perygl. Gall hyn gynnwys geirdaon, gwybodaeth a gynhwysir yn y cais, cymwysterau, profiad perthnasol a hyfforddiant blaenorol. Gellir defnyddio gwybodaeth a geir gan yr ymgeisydd a chyflogwyr neu sefydliadau blaenorol i wneud penderfyniad recriwtio cadarn.

I gael arweiniad ynghylch Cyfnodau Adsefydlu, trowch at https://www.gov.uk/guidance/rehabilitation-periods.

Mae angen asesiad risg ynghylch unrhyw wybodaeth ar dystysgrif DBS, yn cynnwys:

- Esboniad ynghylch natur ac arwyddocâd rhybuddiadau/euogfarnau neu ymddygiad blaenorol a gofnodwyd (yn ddelfrydol, gwybodaeth gan yr ymgeisydd a gan drydydd parti dibynadwy h.y. cyflogwr neu sefydliad)
- Penderfyniad ynghylch arwyddocâd hyn a gwybodaeth arall mewn perthynas ag addasrwydd yr unigolyn i weithio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion a allai fod yn fwy agored i niwed.
- Ystyried y rôl yr ymgeisir amdani a chyfrifoldebau'r rôl honno
- Eglurhad gyda'r ymgeisydd am gyd-destun y rhybudd, euogfarn neu bryderon sy'n codi i nodi ffactorau gwaethygu a lliniaru mewn perthynas â risg bosibl; yn yr amgylchiadau hyn, gellir defnyddio ffynhonnell allanol o wybodaeth megis cyflogwyr blaenorol, yr heddlu a'r gwasanaeth carchardai.
- Os/sut y gellir rheoli unrhyw risgiau posibl yng ngweithgareddau'r CFfI. Os na ellir rheoli'r risgiau yn effeithiol, ni ddylid mynd ati i benodi'r unigolyn.

Mae'n hanfodol bod yr asesiad risg ynghylch y wybodaeth ar y datgeliad yn cael ei gynnal ar y cyd â rhywun sydd â'r wybodaeth briodol o ran rheoli achosion diogelu a phrofiad o hynny, ac yn ddelfrydol, rhywun sydd wedi'i hyfforddi i sicrhau bod hynny'n wirioneddol hysbysadwy ac amddiffynadwy cyn i unrhyw benderfyniadau ynghylch penodi neu gyflogi gael eu gwneud. Ceisiwch gymorth gan FfCCFfI os oes angen a chyfeiriwch at y wybodaeth am y broses rheoli achos sydd ar gael yn Atodiad 10. Rhaid cadw cofnodion ynghylch wybodaeth a gafwyd a nodiadau o'r broses rheoli achos er mwyn dangos tystiolaeth i gadarnhau unrhyw benderfyniadau a wneir.

## 1.16. Diogelu cofnodion DBS

Mae'r dystysgrif DBS yn parhau i fod yn eiddo i'r ymgeisydd, ac fel rhan o benderfyniad recriwtio, gellir cofnodi cofnod o gyfeirnod y gwiriad DBS a dyddiad y gwiriad ynghyd ag unrhyw rybuddion neu euogfarnau o'r dystysgrif. Dylai cofnodion o wiriadau DBS gael eu storio'n ddiogel bob amser ynghyd â gwybodaeth recriwtio diogel arall ac yn unol â deddfwriaeth diogelu data a'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Gall hyn fod yn heriol os yw cofnodion diogelu yn cael eu cadw gan glwb yn hytrach nag yn swyddfa'r ffederasiwn sirol. Os cedwir cofnodion diogelu (ffeiliau recriwtio diogel ac adroddiadau digwyddiadau

diogelu) gan y clwb, rhaid iddynt gadw’r wybodaeth hon yn ddiogel a rhaid trosglwyddo’r cofnodion hyn i’r garfan nesaf o ymddiriedolwyr y clwb a dal gafael ynddynt.

Ystyrir bod unrhyw wybodaeth a gesglir i lywio gweithdrefnau recriwtio diogel yn wybodaeth bersonol sensitif a dylai’r sawl sy’n gyfrifol amdanynt:

- Lunio a labelu ffeiliau a chofnodion yn ofalus
- Cadw ffeiliau sy'n cynnwys gwybodaeth sensitif neu ddata cyfrinachol yn ddiogel
- Caniatáu mynediad ar sail ‘angen gwybod’ a sicrhau bod mynediad wedi'i gyfyngu (Allwedd i gloi cypyrddau ffeilio neu ddiogelu â chyfrinair / ffeiliau cyfyngedig os cânt eu storio'n electronig) - gellid storio gwybodaeth DBS fel cofnod ar Silo yn achos aelod sy’n destun y wybodaeth honno.
- Cad cofnod o’r sawl sydd â mynediad at ffeiliau cyfrinachol trwy gofnodi enwau’r sawl sydd â mynediad atynt a'r rheswm dros y caniatâd hwn.
- Sicrhau bod dyddiad adolygu neu ddinistrio wedi’i nodi ar ddogfennau.

## 1.17. Geirdaon

Defnyddir geirdaon i gael gwybodaeth am addasrwydd ymgeisydd ar gyfer swyddi penodol yn y CFfI. Ynghyd â gwiriad y DBS ynghylch hanes troseddu, mae geirda yn cynnig darlun cyfannol o ymgeisydd a gall hefyd nodi ymddygiadau sydd wedi achosi pryder ond nad ydynt wedi bod yn destun camau gweithredu gan asiantaethau statudol nac achosion troseddol. Gelwir hyn yn wybodaeth feddal. Gall hefyd nodi a chadarnhau cryfderau, ac os bydd pryderon, ffactorau lliniarol sy'n ymdrin â risgiau posibl. Mae geirdaon yn rhan hanfodol o unrhyw broses recriwtio diogel, ac os bydd pryderon am wirfoddolwr yn codi, byddai peidio â gofyn am eirdaon gan ganolwyr enwebedig a’u dilysu’n briodol yn cael ei ystyried yn fethiant difrifol o ran dyletswydd y Ffermwyr Ifanc i ofalu am aelodau.

Dylid gofyn am eirdaon newydd pan fydd unigolyn yn newid rôl neu os bydd yn ymgymryd â swydd arweinydd neu swydd uwch yn y sefydliad, oherwydd dylai camau ystyrlon i sicrhau gweithlu diogel a phriodol fod yn ymrwymiad parhaus. Dylai'r rhai sy'n ymrwymo i gamu ymlaen i rolau arwain amlygu’r ymrwymiad hwn i ddiogelu trwy fod yn ddelfryd ymddwyn o ran arferion gorau a chydymffurfio â’r arferion hynny. Dylid gofyn am fanylion dau ganolwr a gofyn iddynt am eirdaon, a dylid adolygu a chofnodi’r geirdaon hynny fel y bo’n briodol.

Yn achos staff, dylid cael geirdaon gan ganolwyr annibynnol. Yn achos gwirfoddolwyr, dylid cael dau eirda hefyd. Dylai un fod yn ganolwr allanol sy'n gallu cynnig safbwynt proffesiynol neu academaidd ynghylch yr ymgeisydd a'i allu, ei gymhelliant a'i ddawn ar gyfer y swydd a'i addasrwydd i weithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion a allai fod yn agored i niwed ychwanegol. Gall yr ail ganolwr fod yn un unigolyn ac yn ddelfrydol dylai fod yn rhywun sydd wedi cael y cyfle i arsylwi ymddygiad ac arferion yr ymgeisydd dros gyfnod (ond nid perthynas o waed coch cyfan na pherthynas trwy briodas/perthnasoedd) er mwyn cynnig barn seiliedig ar wybodaeth am addasrwydd ymgeisydd ar gyfer rôl gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion a allai fod yn fwy agored i niwed a chynnig cipolwg ar agweddau eraill ar eu hymddygiad, eu profiad a'u rhinweddau.

Ar gyfer rolau enwebedig neu etholedig yn y CFfI, gallai'r sawl sy'n cynnig yr unigolyn am y swydd lenwi ffurflen geirda. Rhaid ymchwilio i unrhyw bryderon sy'n codi drwy'r broses hon a gweithredu mewn ymateb iddynt yn briodol. Dylid dychwelyd geirdaon cyn pen pedair wythnos, ac wedi’r terfyn amser hwnnw, cysylltir â’r ymgeisydd i ofyn am enw canolwr newydd. Dylid mynd ati’n ofalus i storio gwaith papur recriwtio diogel ac unrhyw gofnodion electronig yn ddiogel â mynediad cyfyngedig ac wedi’i recordio at unrhyw wybodaeth. Dylid cadw cofnodion recriwtio diogel i sicrhau bod y clwb/ffederasiwn sirol yn gallu dangos bod gweithdrefnau wedi'u cyflawni. Os bydd gwirfoddolwr neu aelod o'r staff yn cael eu diarddel/diswyddo, eu hatal o’u rôl reoledig, neu’n gadael cyn y gellir eu diswyddo oherwydd pryder diogelu, rhaid cyfeirio hynny at

Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol (LADO), y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) cenedlaethol a'r Comisiwn Elusennau er mwyn iddynt gofnodi bod pryderon diogelu sy'n eu gwneud yn anaddas i fod yn rhan o'r gweithlu plant. www.gov.uk/guidance/how-to-report-a-serious-incident-in-your-charity

## 1.18. Rhestr Wirio Recriwtio Diogel

**Ar gyfer holl swyddi newydd staff y Ffermwyr Ifanc**

- Dylid rhoi disgrifiad swydd neu rôl clir i bob aelod newydd neu ddarpar aelod o'r staff sy'n disgrifio'u cyfrifoldebau ac yn amlygu strwythurau adrodd o ran y rheolwyr llinell.
- Dylid gofyn i bob ymgeisydd lenwi ffurflen gais a darparu dau eirda diweddar, a dylai un ohonynt fod gan eu cyflogwr diweddaraf. Nid yw'n ddoeth gofyn am CV yn ystod proses recriwtio oherwydd gallant ganiatáu i'r ymgeisydd gelu gwybodaeth os byddant yn dymuno gwneud hynny. Dylid defnyddio ffurflen gais yn ystod recriwtio oherwydd bydd hynny'n sicrhau dull mwy unffurf o asesu ymgeiswyr. Mae ffurflen gais enghreifftiol ar gael yn Atodiad 3.
- Gan fod yn rhaid datgelu pob euogfarn sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc (hyd yn oed rhai 'wedi disbyddu'), dylai pob aelod newydd o'r staff gael y ffurflen hunanddatganiad (i'w llenwi a'i llofnodi) a'r llythyr esboniadol cysylltiedig. Ystyrir fod y CFfI yn amgylchedd ble gellir gofyn y 'cwestiwn eithriedig' oherwydd rydym yn sefydliad sy'n canolbwyntio ar ieuenctid ac sy'n darparu gweithgareddau a chyfleoedd helaeth i blant a phobl ifanc. Mae'r eithriadau hyn wedi'u cynnwys yng Ngorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975.
- Rhaid i bob aelod o'r staff sydd â chysylltiad 'rheoledig' â phlant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl gael gwiriad gan y DBS ar y lefel sy'n briodol i'w rôl, i'w gynnal drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- Dylid cysylltu â'r Canolwyr a Enwir i gael geirdaon ar gyfer yr ymgeisydd, a dylid trafod unrhyw eirdaon negyddol a geir gyda'r darparwr (a'r ymgeisydd lle bo'n briodol). Ni ddylid derbyn geirda cyffredinol sy'n cychwyn â'r geiriau 'at bwy bynnag a fynno wybod'.
- Er mwyn i brofiad blaenorol gael ei asesu ac i benderfyniad gael ei wneud am addasrwydd yr ymgeisydd i ymgymryd â rôl y swydd, dylai o leiaf ddau unigolyn gyfweld â'r ymgeisydd. Dylid gofyn i ymgeiswyr esbonio'r rheswm dros unrhyw fylchau o ran eu cyflogaeth neu newid yn eu hardal breswylio. Dylid sgorio ymgeiswyr trwy gydol y cyfweliad ar eu hymateb i gwestiynau; bydd hyn yn caniatáu ar gyfer cymariaethau a dewis teg.
- Dylai pob ymgeisydd llwyddiannus ddarparu tystiolaeth i gadarnhau pwy ydynt, a dylid archwilio o leiaf tair dogfen wreiddiol, gan gynnwys gwirio dogfen adnabod sy'n cynnwys llun. Er enghraifft, pasbort, trwydded yrru lawn y DU neu dystysgrif geni a bil cyfleustodau diweddar y nodir cyfeiriad yr unigolyn arno.

- Dylai'r cynnig o gyflogaeth gyda'r CFfI fod yn amodol ar ddychwelyd dogfennaeth recriwtio diogel dderbyniol yn brydlon a chwblhau cyfnod prawf (tri mis fel arfer) yn llwyddiannus.
- Dylid trosglwyddo gwybodaeth am y rôl i bob aelod newydd o'r staff a dylent gael hyfforddiant sefydlu ynghylch y rôl honno.
- Dylid cynnal adolygiad ar ganol ac ar ddiwedd y cyfnod prawf i gynorthwyo'r aelod newydd o'r staff.
- Dylai staff amser llawn gael cymorth a goruchwyliaeth yn fisol gan eu rheolwr llinell neu unigolyn enwebedig cytunedig. Dylai staff rhan amser hefyd gael cymorth a goruchwyliaeth yn unol â phatrwm a gytunir â'u rheolwr llinell.

## 1.19. Swyddi cyfrifol gwirfoddol

Bydd yn ofynnol i'r sawl sydd â swydd gyfrifol wirfoddol mewn clybiau a ffederasiynau sirol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i swyddogion, arweinwyr, cynghorwyr, cynorthwywyr rhieni, hyfforddwyr/cynhyrchwyr, llywyddion, is-lywyddion ac ymddiriedolwyr gydymffurfio â gweithdrefnau recriwtio diogel. Bydd rolau a chyfrifoldebau yn amrywio rhwng yr holl glybiau a ffederasiynau sirol oherwydd

y strwythurau gwahanol sy'n bodoli ledled y sefydliad; dylai rolau unigol gael eu hasesu gan y clwb/ffederasiwn sirol gan eu cymharu â'r diffiniad o gyswllt rheoledig a hefyd yn seiliedig ar eu rôl benodol yn y CFfI er mwyn dilyn y gweithdrefnau recriwtio diogel priodol. Wrth ystyried y rolau y mae'n rhaid eu recriwtio'n ddiogel fel yr amlinellir yn y polisi hwn, ystyriwch natur y sefydliad a'r tebygolrwydd y bydd y CFfI fel arfer yn ceisio cymorth ychwanegol gan gymuned ehangach y CFfI. Mae siart wedi'i pharatoi sy'n rhestru rhai o rolau mwyaf cyffredin y CFfI a lefel y gwiriad a argymhellir, ac mae'r siart hon ar gael yn Atodiad 5.

Rhybudd: *Mae pryderon wedi codi ynghylch unigolion yn symud rhwng rolau gwirfoddol yn y CFfI heb asesiad o'r angen i gynnal gwiriadau recriwtio diogel. Gallai hyn alluogi unigolion anaddas i osgoi mesurau diogelu pan fyddant wedi ennyn ymddiriedaeth y sawl sydd o'u cwmpas ar lefel ffederasiwn sirol neu glwb. Pryd bynnag y bydd unigolyn yn ceisio ymuno â'r sefydliad neu ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau newydd, rhaid ystyried yr angen am wiriadau recriwtio diogel.*

Os oes angen i wirfoddolwr gael gwiriad cofnodion troseddol (DBS), dylai fod yn ofynnol iddynt gydymffurfio â'r gweithdrefnau canlynol hefyd -

- Dylid rhoi disgrifiad swydd neu rôl eglur i bob gwirfoddolwr newydd neu ddarpar wirfoddolwr sy'n disgrifio eu cyfrifoldebau ac yn amlygu strwythurau cymorth. Mae samplau ar gael yn adnodd *The Source.*
- Dylid gofyn i bob ymgeisydd lenwi ffurflen gais syml, gan gynnwys hunanddatganiad ac enwebu dau ganolwr. Yn achos swyddi etholedig, gellir enwebu'r cynigydd neu'r eilydd yn y cyfarfod i fod yn un o'r canolwyr oherwydd byddant yn cymeradwyo'n ffurfiol bod yr unigolyn yn addas ar gyfer y rôl honno a dylid pwysleisio hyn. Dylai enwau cynigydd ac eilydd unigolyn etholedig hefyd gael eu nodi yng nghofnodion y cyfarfod yn unol â'r hyn sy'n arferol.
- Dylid cael yr ail eirda o'r tu allan i gymuned y CFfI e.e. gan gyflogwr, coleg neu diwtor prifysgol. Rhaid i ganolwyr enwebedig lenwi ffurflen geirda er mwyn casglu gwybodaeth am addasrwydd yr ymgeisydd i ymgymryd â'r rôl. Dylid cadw copi o'r ffurflen gais a geirdaon gyda chofnodion recriwtio diogel y clwb/ffederasiwn sirol tra bydd unigolyn yn y swydd oni bai bod honiad yn cael ei gofnodi ynglŷn â'r unigolyn hwnnw.
- Bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd lenwi ffurflen hunanddatganiad er mwyn amlygu unrhyw faterion a all godi o'r gwiriad cofnodion troseddol a hefyd os byddant wedi bod yn destun unrhyw ymchwiliadau neu gamau disgyblu sy'n berthnasol i'r rôl hon.
- Rhaid i bawb a benodir i bob rôl a ystyrir yn un â chyswllt 'rheoledig' â phlant a phobl ifanc gael gwiriad DBS ar y lefel briodol, i'w gyflawni gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd drwy'r broses a ddefnyddir gan eich clwb neu'ch ffederasiwn sirol, er enghraifft, corff ymbarél cofrestredig neu ddarparwr ar-lein.
- Dylai holl ragflaenwyr swyddogion clybiau drosglwyddo gwybodaeth i swyddogion newydd y clybiau a'u cynefino â'u rôl, a dylai'r swyddogion newydd fynychu hyfforddiant ar gyfer swyddogion clybiau pan fydd y clwb neu'r ffederasiwn sirol yn cynnig hynny oherwydd bydd hynny'n sicrhau y cânt y wybodaeth sy'n ofynnol i ymgymryd yn llwyddiannus â'u rôl. Ynghyd â chymorth parhaus gan swyddfa'r sir, gellir defnyddio canllawiau yn The Source hefyd fel canllaw cyfeirio defnyddiol at ddibenion rhedeg clwb.

Cyn i aelodau ymgeisio am swyddi yn y CFfI, dylid sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gyfraith sy'n ymwneud â pherthnasoedd priodol tra bydd unigolion â swyddi o ymddiriedaeth. Bydd hynny'n eu helpu i wneud penderfyniadau seiliedig ar wybodaeth ynghylch eu cais. Ni ddylid penodi neb i rôl/swydd â chyfrifoldeb llwyr am blant, pobl ifanc neu oedolion a allai fod yn fwy agored i niwed ac ni ddylai neb dderbyn rôl o'r fath nes bydd y gwiriadau diogelu priodol wedi'u cwblhau. Bydd recriwtio yn y sefydliad fel arfer yn digwydd ar ôl eu penodi, felly dylai clybiau a ffederasiynau sirol ganiatáu gorgyffwrdd â swyddogion blaenorol yn parhau â'u swyddi nes bydd y swyddogion newydd wedi cwblhau eu gwiriad recriwtio diogel.

## 1.20. Deddf Troseddau Rhywiol 2003 – Camfanteisio ar Ymddiriedaeth

Mae’r Ddeddf Troseddau Rhywiol yn cyfeirio at weithredoedd sy’n gyfystyr â gweithgarwch rhywiol; os bydd unigolyn sydd dros 18 oed sydd â Swydd o Ymddiriedaeth yn cyfranogi mewn gweithgarwch rhywiol megis ‘cyffwrdd’ trwy gyswllt corfforol, achosi neu annog plentyn i gyfranogi mewn perthynas rywiol/gweithgarwch rhywiol, cyfranogi mewn gweithgaredd rhywiol o flaen plentyn neu achosi plentyn i wylio gweithred rywiol, bydd hynny’n drosedd o dan y Ddeddf.

Mae Swydd o Ymddiriedaeth yn cyfeirio at aelod (dros 18 oed) yn gweithredu ‘in loco parentis’ dros aelodau eraill, neu â chyfrifoldeb neu awdurdod mewn perthynas â hwy fel rhan o’u dyletswyddau fel arweinwyr Clwb Ffermwyr Ifanc/Ffederasiwn Sirol. Cafodd Deddf Troseddau Rhywiol 2003 ei hymestyn ar 28 Mehefin 2022 (A.22A newydd) i gynnwys hyfforddwyr chwaraeon ac eraill â swyddi grymus/swyddi o ymddiriedaeth, boed yn gyflogedig neu’n wirfoddol, mewn ystod eang o leoliadau ble bydd unigolion yn hyfforddi, addysgu, cyfarwyddo, hyfforddi neu oruchwylio plant a phobl ifanc yn rheolaidd.

Os yw unigolyn hŷn mewn sefyllfa o awdurdod, dylanwad neu ymddiriedaeth mewn perthynas â phlant a phobl ifanc, mae’n amhriodol iddynt ymhél â pherthynas rywiol ag unigolyn ifanc o dan 18 oed, hyd yn oed os yw’r ddau dros oedran cydsynio. Yng nghyd-destun y Ffermwyr Ifanc, mae hyn yn golygu bod holl rolau arweinwyr, swyddogion ac aelodau pwyllgorau, gan gynnwys llywyddion ac is-lywyddion, yn cael eu hystyried yn Swyddi o Ymddiriedaeth ac mae angen i unrhyw un sy’n ymgeisio y rolau hyn neu’n cael eu hethol iddynt fod yn gwbl ymwybodol o’u cyfrifoldebau cyfreithiol a’r angen i gynnal ffiniau proffesiynol bob amser.

Mae polisi FfCCFfI yn ymestyn yr amddiffyniad hwn i bawb sy’n cyfranogi, beth bynnag fo’u hoedran. Gall unrhyw unigolyn sydd â swydd o ymddiriedaeth sy’n cychwyn perthynas agos ag aelod fod yn destun camau disgyblu, ac os bydd pryderon yn codi, gofynnir am gymorth a chyngor gan yr asiantaethau statudol perthnasol, gan gynnwys Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol (LADO). Mae'r safbwynt polisi hwn yn cyd-fynd ag arfer gorau a derbyniol ledled y sectorau chwaraeon a gwirfoddol.

Fel arfer, bydd pobl â rolau arwain y CFfI (neu’n gweithio mewn Clybiau Ffermwyr Ifanc) mewn swyddi o ymddiriedaeth yn meddu bŵer ac awdurdod ym mywydau ein haelodau ifanc neu fwy agored i niwed, bydd ganddynt gysylltiad rheolaidd â’r plentyn neu’r unigolyn ifanc ac efallai y bydd ganddynt ddylanwad allweddol ar eu dyfodol. Mae FfCCFfI yn ystyried bod gan sawl sydd â chyfrifoldeb am (ac awdurdod neu ddylanwad dros), grwpiau agored i niwed berthnasoedd o ymddiriedaeth yng nghyd-destun aelodau bregus sydd yn eu clybiau neu y maent yn gyfrifol amdanynt.

Gellir disgrifio perthynas o ymddiriedaeth fel un ble mae gan un parti bŵer a dylanwad dros y llall yn rhinwedd eu gwaith neu natur y gweithgaredd, pa un ai a fydd hynny’n swydd gyflogedig neu wirfoddol. Mae’n hanfodol i bawb sydd â swydd gyfrifol o’r fath ddeall y pŵer posibl sydd ganddynt dros y rhai y maent yn gyfrifol amdanynt, a’r cyfrifoldeb y mae’n rhaid iddynt ei arfer o ganlyniad i hynny.

Mae hyn yn golygu na ddylai pobl sydd mewn perthnasoedd o ymddiriedaeth:

- Ddefnyddio eu swydd i gael mynediad at wybodaeth yn ymwneud â grwpiau agored i niwed er eu budd eu hunain neu er budd eraill. Dim ond i ddiwallu anghenion grwpiau agored i niwed y dylid defnyddio neu rannu gwybodaeth o'r fath.
- Defnyddio eu dylanwad neu bŵer i ddychryn, bygwth, gorfodi, arwahanu neu danseilio unigolion bregus.
- Defnyddio eu statws a'u swydd i sefydlu neu hyrwyddo perthnasoedd amhriodol.

*Yn y Deyrnas Unedig, ni chaiff unigolyn sydd â swydd o ymddiriedaeth dros rywun arall ymhél â pherthnasoedd rhywiol â'r unigolyn hwnnw, oherwydd ystyrir hynny'n gamfanteisio ar ymddiriedaeth, fel y'i diffinnir gan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003. Gall camfanteisio ar swydd o ymddiriedaeth at ddibenion perthnasoedd rhywiol hefyd arwain at godi cyhuddiadau troseddol yn erbyn y camdriniwr, yn enwedig pan fo plentyn dan oed yn gysylltiedig (treisio statudol).*

**Eithriadau:**

1. Pan fo'r ddau aelod yn briod â'i gilydd neu
2. Pan fo'r aelodau mewn perthynas cyn i un o'r aelodau gael swydd o ymddiriedaeth yn y Clwb (wedi'i ethol mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol), yna, ar yr amod bod y berthynas yn gyfreithlon, byddant wedi'u heithrio o'r Ddeddf.

Dylai'r Clwb neu'r sir gymryd y camau canlynol (beth bynnag fo unrhyw atebolrwydd troseddol a all godi):

1. Dylid sicrhau bod swyddogion y clwb/ffederasiwn sirol yn ymwybodol o'r Ddeddf Troseddau Rhywiol cyn derbyn swydd o ymddiriedaeth a phenderfynu a ydynt yn dymuno derbyn y swydd honno ai peidio. Gellir gwneud hyn trwy gyhoeddiad yn y CCB cyn i aelod dderbyn rôl, a chrybwyllir hynny hefyd ar y templed ffurflen gais. Gall aelodau hefyd ddod yn ymwybodol o'r ddeddf trwy ddarllen y wybodaeth yn y polisi hwn. Rhaid i swyddogion y clwb sy'n derbyn swydd gyfrifol sicrhau nad ydynt yn dechrau perthynas ag aelod y maent yn gyfrifol amdanynt o dan 18 oed tra bydd ganddynt swydd gyfrifol.

2. Os caiff perthynas amhriodol ei hadrodd yn fewnol yn y CFfI neu os amheuir hynny, bydd gan y Clwb ddyletswydd gofal i weithredu ac ymchwilio i berthnasoedd amhriodol sy'n ymddangos eu bod yn groes i'r Ddeddf.

**Diffiniadau:**

- **Perthynas broffesiynol:** Perthynas rhwng dau unigolyn at ddibenion cyflawni rolau dynodedig penodol neu i gyflawni nod cyffredin, boed yn gyflogedig neu'n wirfoddol. Mae'n golygu cadw o fewn ffiniau proffesiynol a nodir mewn perthynas â'r rolau; bydd yn aml yn gysylltiedig â lleoliadau a gweithgareddau penodol (Cyflogedig/Gwirfoddol; asesir hynny trwy gymharu ag ymddygiadau ac agweddau a nodir mewn Cod Ymddygiad).

- **Perthynas Bersonol:** Perthynas sy'n cynnwys cysylltiadau agos rhwng dau unigolyn a sefydlir ar y cyfan trwy fondiau emosiynol a rhyngweithiadau, diddordebau a phrofiadau a rennir. Bydd yn aml yn cynnwys cyfeillgarwch, cysylltiad, cefnogaeth ac ymwneud ag agweddau ar fywyd rhywun y tu hwnt i gylch gorchwyl perthynas broffesiynol.

- **Perthynas agos:** Perthynas bersonol sydd wedi datblygu y tu hwnt i gyfeillgarwch ac sy'n cynnwys cysylltiad neu weithgarwch rhamantus, corfforol neu rywiol rhwng dau unigolyn a all ddigwydd ar un achlysur neu ragor (Sylwer y bydd unrhyw weithred/ymdrechion gan yr unigolyn sydd â swydd o ymddiriedaeth/rôl arwain i ysgogi neu gyfranogi yn y perthnasoedd hyn yn amhriodol).

Byddai **perthynas amhriodol** yn cysylltu ag unrhyw 'berthynas bersonol' neu 'agos' neu ymdrech i ddatblygu un os bydd gan unigolyn swydd o ymddiriedaeth fel y nodir uchod. Byddai hynny hefyd yn cynnwys y canlynol:

- Perthnasoedd rhwng unigolion mewn swyddi sy'n anghyfartal yn eu hanfod os bydd gan un parti awdurdod, dylanwad, neu bŵer **gwirioneddol neu ganfyddadwy** dros y llall (e.e. â swydd o ymddiriedaeth neu rôl arwain) hyd yn oed os bydd unigolion dros yr oedran cydsynio (16) neu dros 18 oed.

- Perthnasoedd lle bydd gan un unigolyn y gallu i effeithio’n uniongyrchol ar gynnydd y llall yn y sefydliad (gwirioneddol, canfyddadwy neu bosibl).

- Unrhyw berthynas lle ceir tystiolaeth o orfodi a/neu rheoli neu os ystyrir bod un unigolyn yn fwy agored i niwed/mewn perygl (e.e. dan ddylanwad alcohol, yn cael trafferth â’u hiechyd meddwl neu hunaniaeth o ran rhywedd, yn dibynnu i ryw raddau ar y gwirfoddolwr ac ati) ac felly’n methu â chydsynio’n ddiffuant i’r berthynas neu atal cydsyniad heb brofi canlyniadau anffafriol.

Mae ymdrechion gan y naill barti neu’r llall i ddechrau neu gyfranogi yn y perthnasoedd hyn yn amhriodol. Gall y perthnasoedd hyn, hyd yn oed os ydynt yn gydsyniol, arwain yn y pen draw at wrthdaro neu anawsterau yn y CFfI. Bydd unrhyw unigolyn sydd â swydd o ymddiriedaeth sy’n cychwyn perthynas amhriodol ag aelod yn destun camau disgyblu, ac os bydd pryderon yn codi, gofynnir am gymorth a chyngor yr asiantaethau statudol perthnasol, gan gynnwys Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol.

3. Nodwch:
   a. Os bydd aelod sy’n oedolyn (dros 18 oed) mewn perthynas (boed yn rhywiol neu beidio) ag aelod sy’n 16 neu 17 oed, os bydd y ddau barti’n cydsynio o’u gwirfodd i’r berthynas honno, ac na fydd unrhyw bryderon ynghylch cam-drin neu gamfanteisio ar bŵer, rhaid i’r aelod sy'n oedolyn roi'r gorau i'w swydd gyfrifol ac ni fydd y Clwb yn cymryd unrhyw gamau yn erbyn yr aelodau dan sylw.

   b. Os na fydd yr aelod dan 18 mlwydd oed wedi cydsynio o’u gwirfodd â’r berthynas ag oedolyn sy’n wirfoddolwr neu’n aelod o’r staff, gellir atal yr aelod sy’n oedolyn dros dro neu eu diarddel (os bydd y clwb yn amau fod yr aelod sy’n oedolyn wedi dylanwadu ar y plentyn i’w cymell i fod mewn perthynas â hwy). Dylid anfon cyfeiriad ar unwaith at Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol (LADO) i ofyn am gyngor a chymorth.

   c. Os bydd aelod sy’n oedolyn/arweinydd yn dechrau perthynas ag aelod sydd dan 16 oed, pa un ai a fyddant yn gwybod beth yw oedran go iawn yr aelod sydd dan 16 ai peidio, dylid hysbysu’r heddlu, bydd aelodaeth yr aelod sy’n oedolyn/arweinydd yn cael ei hatal dros dro ac efallai cânt eu diarddel o’r Clwb os bydd trosedd wedi digwydd. Mae’r gyfraith yn ystyried na all neb sydd dan 16 mlwydd oed gydsynio i berthynas.

Mae gan y Clwb ddyletswydd i ofalu am ei holl aelodau a’i swyddogion/arweinwyr. Mae gan y Clwb ddyletswydd bob amser i weithredu i ddiogelu lles pennaf ei aelodau. Er bod gan y Clwb ryddid cyffredinol i ddehongli’r Ddeddf a rheoli aelodau fel y maent yn ei ystyried yn briodol, dylent bob amser ofyn am gyngor pan fo pryderon yn codi gan y Ffederasiwn Sirol a/neu FfCCFfI ynghyd â Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol (LADO), sydd oll yn gallu cynorthwyo a chynghori i sicrhau nad ydynt yn agored i niwed a’u bod yn cyflawni eu dyletswydd i ofalu am aelodau yn y cyd-destun hwn.

Mae'r LADO yn cynnig cymorth ynghylch materion diogelu pan fydd un parti mewn sefyllfa o ymddiriedaeth mewn sefydliad. Rhaid i unrhyw honiad sy'n ymwneud ag unigolyn sy'n gweithio gyda phlant sydd

a) wedi ymddwyn mewn modd sydd wedi niweidio plentyn, neu sydd efallai wedi niweidiol plentyn
b) efallai wedi cyflawni trosedd yn erbyn y plentyn neu’n gysylltiedig â’r plentyn neu
c) wedi ymddwyn tuag at blentyn neu blant mewn modd sy’n awgrymu eu bod yn peri risg o niwed i blant

gael ei gyfeirio at Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol LADO), a gall staff diogelu FfCCFfI gynorthwyo â’r broses hon. Bydd y LADO yn cynnig arweiniad ynghylch y camau gweithredu gorau y dylai’r Ffermwyr Ifanc

eu cymryd yn fewnol a rheoli unrhyw gyfeiriad y dylid ei wneud at asiantaethau allanol megis yr heddlu neu wasanaethau cymdeithasol.

Mae’r wybodaeth a’r canllawiau yn adran 1 y polisi yn ymdrin â’r gweithdrefnau y dylai Ffermwyr Ifanc eu dilyn er mwyn recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel. Mae’r adran yn esbonio pam mae’r camau hyn yn bwysig er mwyn gwneud penderfyniadau recriwtio cyfannol a chadarn sy’n amddiffynadwy. Er mwyn diogelu aelodau, gwirfoddolwyr, staff a’r mudiad ar bob lefel, dylai recriwtio staff a gwirfoddolwyr fod yn fater hollbwysig. Bydd gweithdrefnau recriwtio cryf yn atal y sawl sydd â bwriadau amhriodol rhag ymgeisio i wirfoddoli neu weithio i’r Ffermwyr Ifanc a bydd sicrhau bod y gwiriadau priodol yn eu lle yn cyfrannu at leihau digwyddiadau diogelu yn y sefydliad.

## 2. Rhedeg yn Ddiogel - Adran 2

Mae’r adran hon yn ystyried sut y dylai’r Ffermwyr Ifanc sicrhau bod diogelu’n fusnes craidd a bod mesurau ac arferion diogelu cadarn a chyson sy’n hyrwyddo profiadau diogel a phleserus i blant a phobl ifanc yn cael eu gwreiddio yn y gwaith o redeg clybiau a ffederasiynau sirol y Ffermwyr Ifanc o ddydd i ddydd. .  Bwriad yr argymhellion hyn yw hyrwyddo profiad cadarnhaol a diogel i bob aelod gan sicrhau y bydd pawb yn deall yn glir ac yn hyderus ynglŷn â beth i'w ddisgwyl, sut y gallant fynegi pryderon a ble y gallant gael cymorth os bydd angen.  Nid yw’r mesurau hyn wedi’u bwriadu i greu awyrgylch o ddrwgdybiaeth yn eich CFfI ond maent yn hanfodol i sicrhau y ceir lefelau uwch o ymwybyddiaeth a gwyliadwriaeth mewn perthynas â materion a allai achosi pryder.  Bydd hyn yn helpu i greu amgylchedd mwy diogel i'n holl aelodau.

Mae’r canlynol yn god ymddygiad ar gyfer y CFfI er mwyn sicrhau bod ymddygiad priodol yn cael ei ddeall ac yn cael ei amlygu wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc yn y CFfI. Mae’r cod hwn wedi’i ddatblygu i ddarparu canllawiau a fydd yn helpu i amddiffyn plant ac yn helpu staff a gwirfoddolwyr i nodi unrhyw ymddygiadau ac arferion sy’n debygol o godi pryderon ac y bydd angen mynd i’r afael â hwy. Os bydd disgwyliadau ynghylch ymddygiad yn eglur, bydd hynny’n lleihau'r tebygolrwydd na wnaiff neb sylwi ar bobl sydd â bwriadau amhriodol yn ein gweithgareddau ac yn lleihau'r posibilrwydd o gael honiadau di-sail.  Bydd FfCCFfI yn cymryd pob pryder a honiad o ddifri os na fydd ymddygiad yn cyd-fynd â’r cod ymddygiad hwn. Dylai’r cod ymddygiad lywio gweithredoedd staff a gwirfoddolwyr y CFfI.

1. Cofiwch ymateb o ddifri i bob pryder. Peidiwch fyth â gadael i faterion sy’n peri pryder (am blentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn a allai fod yn fwy agored i niwed) neu honiadau beidio â chael eu hadrodd, gan gynnwys unrhyw rai a wneir yn eich erbyn chi neu’ch ffrindiau. Peidiwch fyth â bychanu neu wfftio at bryderon neu eu heffaith ar y dioddefwr/dioddefwyr.
2. Gwrandewch ar blant a phobl ifanc a’u parchu bob amser. Gwnewch hyn beth bynnag fo'u hoedran, hunaniaeth o ran rhywedd, ethnigrwydd, ffydd neu gredoau, anabledd neu gyfeiriadedd rhywiol. Peidiwch â gwahaniaethu nac amlygu arwyddion o ffafriaeth neu ragfarn. Dylech bob amser osgoi dwyn sylw penodol at ‘aelodau trafferthus’ a hel clecs am aelodau. Dylai gwirfoddolwyr/staff herio cellwair/clecs rhwng aelodau a allai fod yn sarhaus neu'n niweidiol neu achosion o dorri cyfrinachedd.
3. Dylai unrhyw berthynas â phlentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn a allai fod yn fwy agored i niwed yr ydych wedi cwrdd â hwy drwy’r CFfI fod â ffiniau clir, yn enwedig yn achos plant iau, pan ddylai pob cysylltiad ddigwydd trwy rieni neu warcheidwaid cyfreithiol y plentyn.
4. Cofiwch y gall plant, pobl ifanc ac oedolion a all fod yn fwy agored i niwed ddatblygu lefelau amhriodol o ymlyniad, dibyniaeth a gwirioni tuag at oedolion sy'n gweithio gyda hwy. Os dowch yn ymwybodol bod hyn yn digwydd tuag atoch chi eich hun, dylech roi gwybod i swyddog diogelu eich clwb/Ffederasiwn Sirol a fydd yn eich cynghori ac yn cynnig cymorth ynghylch sut i reoli'r sefyllfa yn unol â hynny.

5. Peidiwch â chyfranogi mewn (na goddef) unrhyw weithgarwch anghyfreithlon gyda neu o flaen plant, pobl ifanc neu oedolion a allai fod yn fwy agored i niwed.
6. Osgowch fod ar wahân a heb eich arsylwi gydag un plentyn dan unrhyw amgylchiadau. Dan amgylchiadau eithriadol, pan na ellir osgoi hyn, cofiwch sicrhau y bydd oedolyn arall yn gwybod ble byddwch chi, gyda phwy a pham.
7. Os bydd angen i chi gysuro plentyn neu unigolyn ifanc sy'n ofidus, bydd yn bwysig i chi wneud hynny mewn ffordd sy'n lleihau cyswllt corfforol. Dylai unrhyw gyffwrdd corfforol â phlentyn neu unigolyn ifanc (cwtsh, er enghraifft) ddigwydd o dan amgylchiadau eithriadol ac ni ddylid normaleiddio'r arfer hwnnw. Dylai'r cyswllt hwnnw:
    - gael ei ysgogi gan yr unigolyn ifanc
    - bod yn gydsyniol e.e. byddant yn amlwg wedi cynhyrfu ac yn ymateb yn gadarnhaol ar ôl i rywun ofyn iddynt "a fyddai cwtsh yn helpu?"
    - bod yn briodol o ran cam datblygiad a/neu oedran yr unigolyn
    - digwydd mewn amgylchedd agored
    - digwydd mewn modd sy'n parchu eu gofod unigol. Peidiwch fyth â gweithredu mewn ffordd y gellir ei dehongli'n fygythiol neu'n ymwthiol neu a fydd yn gwneud iddynt deimlo'n anghyfforddus.
    - Dylid ei gofnodi a'i adrodd i'r arweinydd diogelu lleol (clwb/ffederasiwn) fel rhan o'r broses ddiogelu cyn gynted â phosibl, fel y gellir archwilio unrhyw bryderon posibl lle bo'n briodol.
8. Peidiwch fyth â chytuno i gadw unrhyw wybodaeth yn gyfrinachol os bydd yn ymwneud â niwed/risg o niwed i blentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn sydd efallai'n fwy agored i niwed. Dilynwch y gweithdrefnau ar gyfer adrodd am bryderon bob amser.
9. Peidiwch fyth â gwneud sylwadau sy'n awgrymog o safbwynt rhywiol neu sylwadau gwahaniaethol i neu o flaen aelod.
10. Peidiwch â chyfranogi mewn na chaniatáu unrhyw gemau neu sgyrsiau rhywiol bryfoclyd sy'n cynnwys neu'n cael eu harsylwi gan blant a phobl ifanc, boed yn seiliedig ar ensyniadau, siarad neu gyffwrdd.
11. Peidiwch â goddef nac ymgymryd ag unrhyw weithgarwch corfforol amhriodol rhwng aelodau, nac unrhyw ymddygiad bwlïaidd gan oedolyn at blentyn neu unigolyn ifanc, ymddygiad bwlïaidd at oedolyn gan blentyn neu unigolyn ifanc neu fwlio rhwng cyfoedion (bwlio ymhlith plant a phobl ifanc)
12. Er y gall defnyddio hiwmor helpu i leddfu sefyllfa, nid yw defnyddio tynnu coes, coegni, sylwadau diraddiol neu sylwadau ansensitif at blentyn, unigolyn ifanc neu aelodau hŷn fyth yn dderbyniol.
13. Cofiwch gynnwys plant a phobl ifanc yn y gwaith o gynllunio gweithgareddau lle bynnag y bo modd, gan sicrhau bod yr aelodau yn cyfrannu at arwain y rhaglenni â lefelau priodol o oruchwyliaeth a chymorth.
14. Wrth redeg gweithgareddau neu deithiau gyda grwpiau cymysgryw (yn enwedig rhai preswyl), dylech bob amser geisio sicrhau bod dynion a menywod ymhlith yr arweinwyr.
15. Peidiwch fyth â mentro â diogelwch pobl ifanc. Treuliwch amser bob tro yn cynllunio gweithgareddau i sicrhau bod y rhagofalon cywir wedi'u cymryd a bod y cofnodion gofynnol o ran asesiadau risg a mesurau cynllunio lles yn eu lle i ddangos bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i amddiffyn plant ac aelodau a'r clwb/ffederasiwn sirol.
16. Dylid defnyddio rhifau ffôn symudol, cyfeiriadau e-bost a safleoedd rhwydweithio cymdeithasol at ddefnydd y CFfI yn briodol bob amser gan ystyried y gynulleidfa. Os ydych chi wedi cael manylion aelodau drwy'r CFfI, dylai hyn fod wedi digwydd â'u cydsyniad gwybodus a dylid eu defnyddio at ddibenion busnes y CFfI yn unig.

Wrth gysylltu'n uniongyrchol ag aelodau, mae'n arfer da cyfeirio’r neges at ail unigolyn i sicrhau goruchwyliaeth briodol a thrwy hynny leihau'r risg y gwnaiff pryderon godi.

17. Wrth gludo plant a phobl ifanc ar ran y CFfI, dylid cynllunio hynny ac asesu risg yn briodol, dylai rhieni gael eu hysbysu'n llawn am y trefniadau cludiant a dylent fod wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig.
18. Wrth drefnu digwyddiadau sy'n gofyn i aelodau CFfI newid dillad (chwaraeon, celfyddydau perfformio ac ati) rhaid darparu cyfleusterau newid/cawodydd ar wahân i ddynion a merched. Nid yw'n briodol i swyddogion/arweinwyr newid gyda'r plant a'r bobl ifanc hynny y maent yn gyfrifol amdanynt; dylid defnyddio ciwbiclau ar wahân.

Bydd arfer da yn lleihau’r posibilrwydd y bydd unrhyw un yn defnyddio ei rôl yn y CFfI i gael mynediad at blant, pobl ifanc neu oedolion a allai fod yn fwy agored i niwed er mwyn camfanteisio arnynt neu eu niweidio. Dylai pob aelod o'r staff a gwirfoddolwr roi gwybod am unrhyw achosion o dorri’r cod hwn y byddant wedi sylwi arnynt neu wedi cael gwybod amdanynt. Disgwylir safonau ymddygiad eglur gan y sawl a gyflogir gan y CFfI neu’r sawl sy'n gwirfoddoli i'r CFfI ac yr ystyrir fod ganddynt swydd o ymddiriedaeth. Dylai staff a gwirfoddolwyr gofio eu bod yn ddelfrydau ymddwyn a rhaid iddynt ymddwyn yn briodol bob amser.

**Os byddwch yn ansicr, dylech bob amser ystyried sut y gallai eraill *ddirnad* gweithred neu weithgaredd neu sut y gallai’r *effaith* ar gyfranogwr fod yn wahanol i’r hyn a *fwriedir*.**

## 2.1. Hyfforddiant

Mae’n hanfodol sicrhau y caiff staff a gwirfoddolwyr y CFfI gyfleoedd i ddysgu a hyfforddi ynghylch diogelu er mwyn deall yr angen am ddiogelu a’u cyfrifoldebau i gadw plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl yn ddiogel. Mae canllawiau'r llywodraeth yn egluro cyfrifoldebau statudol pob sefydliad sy'n darparu gweithgareddau neu wasanaethau i blant, gan gynnwys y sectorau elusennol a gwirfoddol. Mae hyn yn cynnwys gofynion ynghylch goruchwyliaeth a chymorth priodol i staff, gan gynnwys ymgymryd â hyfforddiant ynghylch diogelu:

- mae cyflogwyr/sefydliadau yn gyfrifol am sicrhau bod eu staff/gwirfoddolwyr yn gymwys i gyflawni eu cyfrifoldebau o ran diogelu a hybu lles plant a chreu amgylchedd lle bydd staff/gwirfoddolwyr yn teimlo eu bod yn gallu mynegi pryderon a’u bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl diogelu
- dylid rhoi sesiwn gynefino i staff/gwirfoddolwyr sy’n cynnwys ymgyfarwyddo â chyfrifoldebau diogelu a’r gweithdrefnau i’w dilyn os bydd gan unrhyw un unrhyw bryderon am ddiogelwch neu les plentyn, unigolyn ifanc neu oedolion sy’n fwy agored i niwed.

Dylai’r holl staff a gwirfoddolwyr newydd sy’n gweithio mewn mudiad ieuenctid fel y CFfI gael hyfforddiant diogelu priodol fel rhan o’u rôl. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r rhai sydd â rolau wyneb yn wyneb ag aelodau neu sy'n trin a thrafod gwybodaeth am blant a phobl ifanc.

Mae'n ofynnol i'r sawl sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli i gyflawni rolau mewn clybiau a ffederasiynau sirol gwblhau hyfforddiant diogelu e-Ddysgu ar-lein FfCCFfI o fewn 28 diwrnod ar ôl eu penodi. Pwrpas yr hyfforddiant yw sicrhau bod swyddogion a gwirfoddolwyr yn deall eu cyfrifoldebau ac yn gwybod pa weithdrefnau a phrosesau i’w rhoi ar waith yn ogystal â sut i adnabod camdriniaeth a all ddigwydd i aelodau allan allan i’r CFfI (mae ganddynt ddyletswydd gofal ynghylch hynny). Ar ôl eu penodi, bydd Trefnydd y Ffederasiwn Sirol yn cofrestru manylion swyddogion/gwirfoddolwyr pob clwb a rhai’r ffederasiwn sirol ar y platfform hyfforddi. Anfonir dolen a gynhyrchir yn awtomatig at bob swyddog i ddarparu mynediad i'r hyfforddiant. Bydd y system yn anfon e-byst atgoffa yn awtomatig i annog cwblhau'r hyfforddiant o fewn y terfyn amser. Ystyrir bod unrhyw swyddog sy'n methu â chwblhau'r hyfforddiant o fewn y cyfnod penodedig wedi rhoi'r gorau i'w swydd a dylid eu hatal o'u rôl.

Mae'n ofynnol i Bartneriaid Diogelu Lleol ym mhob sir ystyried anghenion hyfforddi a dysgu'r gweithlu plant, gan gynnwys gwirfoddolwyr, a hefyd darparu cyfleoedd hyfforddi aml-asiantaeth. Os na fydd hyn ar gael, gellir cael mynediad at hyfforddiant trwy gynghorau lleol y gwasanaethau ieuenctid gwirfoddol neu sefydliadau ieuenctid gwirfoddol lleol. Mae FfCCFfI hefyd yn cynnig hyfforddiant 'Tŷ Diogel' fel rhan o raglen Curve i aelodau ac mae hynny'n cynnig cyflwyniadau i drefniadau diogelu'r CFfI i aelodau a gwirfoddolwyr.

Mae ar y gwirfoddolwyr neu'r staff hynny sydd â chyfrifoldebau diogelu dynodedig angen lefel uwch o hyfforddiant (lefel 3) yn ogystal â hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol. Bydd FfCCFfI yn darparu o leiaf un cwrs Lefel 3 bob blwyddyn. Dylid ymgymryd â hyfforddiant rheolaidd a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) bob blwyddyn i sicrhau bod gwybodaeth a sgiliau yn dal yn gyfoes. Gallwch fynegi diddordeb mewn hyfforddiant diogelu trwy lenwi'r ffurflen hon.

## 2.2. Cynllunio rhaglenni yn y CFfI

Mae cynllunio rhaglenni gan aelodau a swyddogion clwb neu ffederasiwn sirol yn sicrhau bod gweithgareddau clybiau yn diwallu anghenion ac yn bodloni dymuniadau aelodau'r clwb hwnnw. Gall cynllunio rhaglen effeithiol ar ddechrau'r flwyddyn neu'r tymor leihau'r pwysau ar y swyddogion/arweinwyr gwirfoddol sy'n gorfod cynllunio gweithgareddau bob wythnos. Mae hefyd yn caniatáu i'r rhaglen gael ei dosbarthu a'i hargraffu fel y bydd rhieni, clybiau eraill a chefnogwyr y CFfI yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd yn y clwb ac yn gallu rhoi caniatâd gwybodus ar gyfer y gweithgareddau y bydd eu plentyn yn cyfranogi ynddynt. Mae neilltuo amser i gynllunio ar ddechrau'r flwyddyn neu'r tymor yn caniatáu cyfle i drefnu a chyfathrebu ynghylch mesurau diogelu, gan sicrhau y caiff aelodau sydd â rolau swyddogion fwy o amser i sicrhau cydbwysedd rhwng eu gweithgarwch yn y CFfI a'u diddordebau eraill.
Mae templedi rhaglenni clwb ar gael gan eich ffederasiwn sirol a hefyd yn The Source i'ch cynorthwyo â'r broses hon. Mae cynllunio ac asesu risg yn ffactor pwysig wrth ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion a allai fod yn agored i fwy o niwed. Mae Polisïau Iechyd a Diogelwch FfCCFfI yn darparu canllawiau ynghylch asesu risgiau posibl yn ymwneud â phob gweithgaredd.

## 2.3. Y gymhareb oedolion/pobl ifanc

Wrth gynllunio gweithgareddau, ystyriwch y trefniadau cynorthwyo sydd eu hangen. Bydd nifer y staff/gwirfoddolwyr sydd eu hangen i ofalu am nifer benodol o blant a phobl ifanc yn amrywio yn dibynnu ar y gweithgaredd a wneir. Mae'r Adran Addysg yn argymell y dylai fod o leiaf un oedolyn am bob wyth plentyn/unigolyn ifanc 10 - 12 oed, ac un oedolyn am bob deg plentyn/unigolyn ifanc 13 - 18 oed mewn sefyllfa grŵp prif ffrwd. Caiff y gymhareb ei gostwng i 1:6, neu'n is dan rai amgylchiadau, yn achos plant a phobl ifanc ag anghenion cymorth ychwanegol a allai fod yn fwy agored i niwed neu ag anableddau. Dylai cymarebau gael eu llywio gan asesiad o anghenion y grŵp o ran gweithgareddau, ymweliadau ac arosiadau preswyl. Rhaid i o leiaf dau oedolyn sydd wedi'u recriwtio'n ddiogel (un dyn ac un fenyw yn ddelfrydol) fod yn bresennol ym mhob un o weithgareddau'r CFfI. Dylid cynllunio pob gweithgaredd ac asesu pob risg yn ffurfiol, gan gofnodi unrhyw drefniadau neu gamau lliniaru a chytuno ar y gymhareb staff/gwirfoddolwr yn unol â hynny, yn seiliedig ar y grŵp penodol dan sylw cyn y digwyddiad.

## 2.4. Cofnodion clybiau

Mae'n hanfodol bod clybiau'n cadw cofnod o'u haelodau a dylai fod ar gael bob amser yn ystod cyfarfodydd clwb rhag ofn i bryder neu ddigwyddiad diogelu yn codi. Gallai hon fod yn ffeil manylion clwb, gan gynnwys cyfansoddiad clwb, agendâu a chofnodion blaenorol, cofrestrau a ffurflenni caniatâd rhieni ar gyfer yr aelodau hynny sydd o dan 18 oed a gellid enwebu aelod o dîm swyddogion/arweinwyr y clwb i sicrhau bod y ffolder yn cael ei gludo i bob cyfarfod neu ddigwyddiad. . Os na fydd yr aelod enwebedig yn gallu bod yn bresennol, dylid gwneud trefniadau i sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i arweinydd y

digwyddiad/gweithgaredd/swyddog diogelu. Os gellir storio'r wybodaeth hon yn ddiogel yn lleoliad eich cyfarfod, gallai hyn fod yn ddewis arall.

Rhaid i swyddogion y clwb gadw manylion pob aelod yn ddiogel. Rhaid i gofnodion diogelu a gedwir gan glybiau gael eu trosglwyddo i'r tîm swyddogion newydd a'u cadw. Gall y ffederasiwn sirol hefyd gadw cofnodion diogelu clybiau yn ddiogel. Mae'n bosibl y bydd angen rhannu gwybodaeth am aelodau os bydd pryder ynghylch diogelu'n codi. Ni fydd manylion unrhyw aelodau o dan 18 oed yn cael eu rhannu ag unrhyw sefydliadau allanol heb ganiatâd rhiant/gofalwr ac eithrio yn achos y canlynol:

- pan fydd y rhiant/rhieni neu'r gofalwr/gofalwyr yn destun y pryder/datgeliad neu
- os bydd pryderon ynghylch niwed sylweddol go iawn/posibl (yn yr achos hwnnw, dylid cyfeirio at asiantaeth statudol a cheisio cymorth)
- os bydd y plentyn dros 12 oed ac ni fydd yn dymuno i'r rhiant gael ei hysbysu (rhaid ceisio arweiniad gan FfCCFfI, NSPCC neu wasanaethau plant lleol dan amgylchiadau o'r fath – gweler T44 **Galluedd a chydsynio**)

Rhaid rhannu gwybodaeth ar lefel Clwb/Ffederasiwn Sirol ar sail 'angen gwybod' yn unig, yn dibynnu ar natur/difrifoldeb y pryder/honiad. Bydd FfCCFfI yn ymdrin â phob pryder/honiad yn gyfrinachol os cysylltir â ni i ofyn am gymorth i reoli pryderon.

Dylai pob Clwb a Ffederasiwn Sirol allu cyrchu a darparu cofnodion diogelu blynyddoedd diweddar os bydd unrhyw adolygiad allanol o drefniadau diogelu a dulliau hanesyddol o reoli pryderon (gweler gwybodaeth ynghylch yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol yn yr adran cadw cofnodion isod ac Atodiad 16 ynghylch Cadw a Storion Cofnodion Diogelu). Byddai FfCCFfI yn argymell yn gryf bod clybiau a ffederasiynau sirol yn cynnal adolygiad o'r cofnodion sydd ganddynt ar hyn o bryd. Ni ddylid dinistrio unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud mewn unrhyw ffordd â phryderon diogelu a threfniadau neu ddarpariaeth ynghylch gweithgareddau'r Ffermwyr Ifanc. Gall FfCCFfI gynghori a chynorthwyo ffederasiynau sirol ynghylch y broses hon.

## 2.5. Cydsyniad ar sail gwybodaeth gan rieni

Mae ffurflenni caniatâd rhieni yn darparu gwybodaeth hanfodol am y plant a phobl ifanc sydd yng ngofal y CFfI a manylion cyswllt eu rhieni/gwarcheidwaid pe bai digwyddiad yn codi. Mae gan y CFfI hefyd ddyletswydd gofal i sicrhau bod rhieni/gwarcheidwaid cyfreithlon yn cael yr holl wybodaeth am y gweithgareddau y bydd eu plentyn yn cyfranogi ynddynt.

*Y rheol allweddol yn achos ffurflenni caniatâd yw sicrhau bod gan drefnwyr digwyddiadau y wybodaeth ddiweddaraf am y plant a'r bobl ifanc y byddant yn gyfrifol amdanynt a bod rhieni yn gwybod am yr holl weithgareddau ac wedi cydsynio iddynt.*

- Diben y ffurflen ganiatâd yw sicrhau bod y rhiant wedi cydsynio ar ôl cael gwybodaeth lawn ynghylch cyfranogiad eu plentyn mewn unrhyw ddigwyddiad neu weithgaredd. Dylent wybod amseroedd, lleoliad a chost y digwyddiad a arfaethedig. Dylai hefyd ddwyn sylw rhieni at unrhyw risgiau posibl ac at y trefniadau i liniaru neu reoli'r risgiau hyn.
- Bydd yn eu hysbysu am fanylion goruchwylwyr y digwyddiad ac yn cynnwys manylion enw cyswllt a rhif ffôn i'w ddefnyddio os bydd argyfwng. Yn achos pob digwyddiad, dylai trefnydd digwyddiad enwebedig neu swyddog ysgwyddo cyfrifoldeb am hynny. Dylid rhannu manylion cyswllt arweinydd diogelu'r digwyddiad hefyd â rhieni a chyfranogwyr rhag ofn i unrhyw bryderon godi.
- Mae'r ffurflen yn rhoi cyfle i'r rhiant hysbysu arweinydd y digwyddiad am unrhyw anawsterau o ran lles, iechyd neu ddiet sy'n effeithio ar eu plentyn.

- Mae'r ffurflen yn hysbysu'r rhieni nad oes gan arweinydd y digwyddiad unrhyw bŵer i awdurdodi neu atal mynediad at gyngor a gofal meddygol i'r plentyn neu'r unigolyn ifanc os bydd argyfwng. Bydd y gwasanaethau brys yn gwneud y penderfyniad hwn os na ellir cysylltu â'r enwau cyswllt. Mae'n bwysig felly bod y ffurflenni caniatâd yn cael eu diweddaru trwy gynnwys y wybodaeth bersonol hon a'r manylion cyswllt.
- Mae'n hanfodol i arweinwyr gweithgaredd fod â ffurflenni caniatâd ar gyfer aelodau sy'n 18 oed neu'n iau, ac mae'n arfer da darparu rhestr o'r enwau cyswllt y dylid eu ffonio mewn perthynas â'r sawl sy'n 18 mlwydd oed neu'n hŷn os bydd argyfwng.

Caniateir i unigolion sydd â diddordeb mewn ymuno â'r CFfI fynychu **hyd at dri chyfarfod neu ddigwyddiad** cyn bod gofyn iddynt ymaelodi'n ffurfiol. **Yn ystod yr ymweliad cyntaf**, rhaid cofnodi manylion cyswllt llawn, gan gynnwys manylion cyswllt "rhag ofn y bydd argyfwng" (ICE) ac ystyriaethau meddygol a'u rhoi i drefnydd y ffederasiwn sirol. Mae'n rhaid i rieni unrhyw unigolyn sydd o dan 18 oed lenwi ffurflen caniatâd rhieni. Bydd trefnydd y sir yn gyfrifol am wirio'r manylion trwy eu cymharu â'r Rhestr o Aelodau sydd wedi'u Gwahardd a'u Hatal i sicrhau na fydd enw'r unigolyn ar y rhestr.

Wedi hynny, bydd gofyn i'r unigolyn ymaelodi'n ffurfiol. Ni ddylid caniatáu i unigolion fynychu digwyddiadau'r CFfI heb fod wedi ymaelodi oherwydd amrywiaeth o resymau, gan gynnwys sicrhau yswiriant priodol, at ddibenion diogelu ac i sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau. Wrth ymaelodi â'r CFfI, bydd gofyn i'r aelod lenwi ffurflen aelodaeth ar-lein a bydd rhieni/gofalwyr aelodau sydd o dan 18 oed yn llenwi ffurflen caniatâd flynyddol (fersiwn papur - Atodiad 11). Mae'n hanfodol i'r clwb yn sicrhau bod yr adran caniatâd blynyddol rhieni yn y ffurflen aelodaeth ar-lein yn cael ei llenwi ar gyfer pob plentyn ac unigolyn ifanc. Rhaid i'r clwb hefyd sicrhau pan fydd unrhyw aelod yn mynychu digwyddiadau'r CFfI bod eu ffurflen aelodaeth ar-lein wedi'i llenwi'n briodol ac nad yw wedi'i nodi fel un sydd "yn yr arfaeth" ar Silo.

**Gweithgareddau rhaglenni'r CFfI (gweithdai, sgyrsiau, cyfarfodydd busnes)**
Mae'n dderbyniol defnyddio'r ffurflen ganiatâd flynyddol ar gyfer cyfarfodydd wythnosol y CFfI ar adeg benodedig mewn lle penodedig. Dylid rhestru'r rhain yn rhaglen y CFfI, a roddir i'r rhiant/gwarcheidwad ar adeg llenwi'r ffurflen ganiatâd. Mae'r ffurflen ganiatâd flynyddol yn cwmpasu tymor cynlluniedig neu flwyddyn rhaglen clwb. Dylid llenwi'r ffurflen ganiatâd flynyddol ar ddechrau'r flwyddyn a'i diweddaru bob tymor i nodi unrhyw newidiadau o ran y manylion. Cyfrifoldeb y rhieni/gofalwyr yw sicrhau bod y clwb yn cael gwybod am unrhyw newidiadau yn ddi-oed.

**Ymweliadau, cyfarfodydd nas cynhelir ym man cyfarfod y clwb, cystadlaethau a digwyddiadau cymdeithasol**
Mae'r ffurflen caniatâd rhieni flynyddol yn cwmpasu cyfarfodydd wythnosol arferol yr aelodau a rhaglen y clwb. Nid yw'n cwmpasu digwyddiadau ychwanegol megis digwyddiadau cymdeithasol, newidiadau i'r rhaglen, teithiau maes, teithiau i fannau ac eithrio'r man cyfarfod arferol, gweithgareddau preswyl, ymweliadau ac ati. Bydd angen proses gadarn ar gyfer casglu ffurflenni caniatâd ychwanegol gan rieni a rhai wedi'u diweddaru dan amgylchiadau o'r fath. Mae bonyn caniatâd wedi'i ddatblygu gan FfCCFfI y gellir ei ddefnyddio ar gyfer pob digwyddiad penodol i ategu'r ffurflen ganiatâd flynyddol (Atodiad 12). Fel arall, dylai pob ffederasiwn sirol ddatblygu fersiwn digidol cyfatebol gan ddefnyddio JotForm neu rywbeth cyffelyb. Mae hyn yn caniatáu i drefniadau penodol teithiau gael eu manylu, gan sicrhau bod caniatâd yn seiliedig ar wybodaeth lawn yn achos pob digwyddiad a sicrhau bod trefnwyr digwyddiadau yn cael gwybodaeth am unrhyw bryderon neu newidiadau cyfredol. Mae diogelu plant a phobl ifanc yn gyfrifoldeb partneriaeth rhwng rhieni a'r CFfI ac mae cyfathrebiadau ynghylch caniatâd yn pwysleisio cyfrifoldeb rhieni am hysbysu'r sefydliad.

**Ymweliadau Preswyl**

Dylid llenwi ffurflenni caniatâd lawn ar gyfer pob taith breswyl os bydd yr unigolyn ifanc yn aros oddi cartref. Rhaid anfon llythyr neu gynnal cyfarfod briffio rhieni yn ogystal â defnyddio'r ffurflenni caniatâd hyn sy'n disgrifio manylion y daith gan gynnwys trefniadau llety a diogelu – yn ymwneud â goruchwylio, gwahanu aelodau dan 18 oed a chyfranogwyr gwrywaidd/benywaidd.. Mae'n arfer da i arweinwyr gynnal noson wybodaeth i rieni i sicrhau bod rhieni'n cael y wybodaeth ac i roi cyfle iddynt ofyn unrhyw gwestiynau. Mae'n arfer gorau i'r holl aelodau a gwirfoddolwyr/cynorthwywyr gan gynnwys swyddogion clwb neu arweinwyr clwb roi manylion i gysylltu â yn achos argyfwng i drefnydd y digwyddiad a gwybodaeth am unrhyw gyflyrau meddygol sy'n bwysig eu rhannu yn eu tyb hwy.

**Cyfrinachedd ffurflenni caniatâd**

Ym mhob achos, dylai'r wybodaeth a ddarperir gan riant/gwarcheidwad barhau'n gyfrinachol a dim ond â'r bobl hynny yn y clwb/ffederasiwn sirol sy'n gyfrifol am gynllunio gweithgareddau a digwyddiadau y dylid ei rhannu. Os defnyddir copïau papur o ffurflenni caniatâd, dylai arweinydd y gweithgaredd gadw'r rhain yn ystod digwyddiad ac ni ddylid eu gadael yn unrhyw le heb eu goruchwylio. Rhaid ystyried pwy ddylai gael mynediad at gofnodion caniatâd sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol a sensitif am aelodau. Dylid cadw gwybodaeth cyhyd ag y bod angen a dim mwy na hynny er mwyn sicrhau lles y plentyn, yr unigolyn ifanc neu'r oedolyn a allai fod yn fwy agored i niwed, oni bydd pryderon diogelu parhaus, ac os felly, dylid cadw'r wybodaeth hon gyda'r cofnod diogelu (gweler adran Cofnodion Clwb uchod i gael rhagor o wybodaeth). Wedi digwyddiad neu ar ddiwedd y flwyddyn aelodaeth, dylid rhwygo copïau o ffurflenni caniatâd. Gellir defnyddio taflenni mewngofnodi a chofnodion cynllunio digwyddiadau i gofnodi bod caniatâd wedi'i sicrhau cyn cyfranogi.

## 2.6. Tynnu Lluniau

Mae FfCCFfI wedi ymrwymo i sicrhau bod unrhyw gyhoeddiad a chynnwys cyfryngol yn cyfleu aelodau yn briodol, â pharch dyledus a gan ofalu bod y caniatâd cywir wedi'i sicrhau cyn defnyddio unrhyw ddelweddau. Gellir defnyddio'r ffurflen caniatâd rhieni i gasglu gwybodaeth am eu dewisiadau o ran tynnu lluniau aelodau. Os bydd rhiant yn nodi ar ffurflen ganiatâd eu bod yn dymuno trafod y gofynion o ran tynnu lluniau o'u plentyn, mae FfCCFfI wedi datblygu arweiniad ar gyfer swyddogion diogelu ynghylch cael caniatâd i dynnu llun, ac mae'r wybodaeth ar gael ar gais. Mae'r arweiniad hwn yn cynnwys taflen gofnodi i ategu'r sgwrs hon ac yn manylu ar ofynion y plentyn/unigolyn ifanc/rhieni (gweler Atodiad 15). Dylid cadw hyn gyda'r manylion am yr aelod yng nghofnodion y clwb neu'r ffederasiwn sirol. At ddibenion y polisi hwn, mae'r term 'tynnu lluniau' yn golygu delweddau llonydd a rhai sy'n symud a dynnir neu a recordir gan ddefnyddio camerâu, ffonau symudol, cyfrifiaduron llechen ac unrhyw declynnau digidol eraill.

**Beth yw'r pryderon posibl?**

Mae pryderon ynghylch y risgiau uniongyrchol ac anuniongyrchol i blant a phobl ifanc drwy ddefnyddio delweddau (ffotograffau a fideos) ar wefannau, rhwydweithiau cymdeithasol a chyhoeddiadau eraill. Gellir defnyddio delweddau fel modd o adnabod plant a phobl ifanc pan fyddant yn gysylltiedig â gwybodaeth bersonol e.e. dyma X sy'n byw yn Y; Mae X yn aelod o Glwb Ffermwyr Ifanc Z ac yn hoffi math penodol o gerddoriaeth.

Gall y wybodaeth hon olygu bod plant a phobl ifanc yn agored i unigolyn a allai ddymuno cysylltu a dechrau "paratoi" plentyn neu unigolyn ifanc at bwrpas eu cam-drin – naill ai ar-lein (e.e. trwy wefannau neu rwydweithiau cymdeithasol) neu drwy gyswllt wyneb yn wyneb oddi ar lein/yn y byd 'go iawn'. Mae gwybodaeth a roddir ar y rhyngrwyd hefyd wedi cael ei defnyddio gan rieni sydd wedi ymddieithrio (e.e. dan amgylchiadau mabwysiadu neu drais domestig) i nodi, olrhain ac achosi risgiau neu anawsterau sylweddol i blant. Yn ail, gellir defnyddio neu addasu cynnwys ffotograffau at defnydd amhriodol. Mae tystiolaeth o ddeunydd amhriodol neu wedi'i addasu yn ymddangos ar wefannau sy'n dangos delweddau o gam-drin plant, ac o ddelweddau amhriodol yn cael eu rhannu rhwng grwpiau o droseddwyr.

Mae FfCCFfI yn cynghori clybiau a ffederasiynau sirol i fabwysiadu’r egwyddorion canlynol:

- mae buddiannau a lles yr aelodau sy'n cyfranogi yng ngweithgareddau'r CFfI yn hollbwysig
- mae gan blant, pobl ifanc, oedolion sydd mewn perygl a’u rhieni/gofalwyr yr hawl i benderfynu a gaiff eu delweddau eu tynnu/recordio, a sut y gellir eu defnyddio.
- Mae’n rhaid i blant, pobl ifanc, oedolion sydd mewn perygl a’u rhieni/gofalwyr roi caniatâd i’w delweddau gael eu tynnu/recordio a’u defnyddio a rhaid i glybiau/siroedd fod yn ymwybodol o ddewisiadau’r aelodau o ran tynnu lluniau.

Mae’r arferion diogel ystyrlon argymelledig yn cynnwys y canlynol:

- Mae FfCCFfI yn argymell, lle bo’n bosibl, na ddylid defnyddio teclynnau clyfar, cyfrifiaduron llechen na gliniaduron personol i ffilmio a thynnu lluniau ffotograffig at ddibenion busnes y CFfI. Os na ellir osgoi hyn, dylai aelodau sicrhau nad yw’r lluniau/fideos hyn yn cael eu rhannu heb ganiatâd priodol, y cânt eu storio’n ddiogel a’u dileu ar ôl cael eu defnyddio at y diben a fwriadwyd. Cofiwch eu dileu o unrhyw systemau storio cwmwl yn ogystal â theclynnau. Nid ydym yn dymuno i’n haelodau fod â lluniau sy’n gysylltiedig â’r CFfI o blant ar eu teclyn personol, oherwydd gellid ystyried hynny’n rhywbeth amheus.
- Dylid defnyddio cyfrinair i ddiogelu teclynnau a chyfrifiaduron sy’n cynnwys ffotograffau o aelodau. Peidiwch â storio delweddau ar liniaduron sy’n cael eu cludo o’r swyddfa yn rheolaidd.
- Ni ddylid cyhoeddi llun neu fideo o blentyn neu unigolyn ifanc (ar bapur neu ar-lein) heb gael caniatâd y rhiant/gwarcheidwad (a’r plentyn os yw dros 12 oed). Mae caniatâd blynyddol yn dderbyniol, ac mae'n rhaid hysbysu rhieni/gwarcheidwaid a phlant yn eglur mai eu cyfrifoldeb hwy yw hysbysu'r CFfI yn ddi-oed os byddant, oherwydd unrhyw reswm, yn dymuno ailfeddwl ynghylch eu caniatâd,
- Defnyddiwch ddelweddau o aelodau â gwisg/cit addas yn unig i leihau'r risg o ddefnydd amhriodol. Os bydd cyfranogwyr yn gwisgo llai o ddillad na’r arfer (e.e. nofio, dawnsio) dylid sicrhau bod unrhyw ddelweddau’n briodol. Ceisiwch osgoi delweddau agos a lleihau amlygiad unigolion. Dylai delweddau fod yn ddull cadarnhaol o gyfleu cyfranogiad pobl ifanc yn y gweithgaredd a hyrwyddo’r agweddau gorau ar y CFfI.
- Peidiwch â chynnwys enw plentyn y bydd ei ddelwedd yn cael ei defnyddio heb ganiatâd penodol y rhieni (a chaniatâd penodol y plentyn os yw dros 12 oed).
- Os ydych chi'n enwi plentyn neu grŵp o blant mewn delwedd, **defnyddiwch eu henwau cyntaf yn unig**, oherwydd bydd hyn yn lleihau'r risg o sylw amhriodol, digymell gan bobl o fewn a thu allan i'r CFfI.
- Ar gyfer plant sy’n destun gorchymyn llys, siaradwch â rhieni/gwarcheidwaid am y ffordd orau o reoli’r sefyllfa hon yn ystod cyfleoedd i dynnu lluniau gyda’r plentyn neu’r unigolyn ifanc a chofnodwch yr hyn a gytunir gan ddefnyddio Atodiad 14.
- Os na ddylai aelod gael ei enwi ochr yn ochr â delwedd ffotograffig, dylech geisio annog yr aelodau i beidio â ‘thagio’ neb mewn postiadau cyfryngau cymdeithasol. Ni ellir rheoli hyn ond dylai gweinyddwr/gweinyddwyr y dudalen/grŵp cyfryngau cymdeithasol ddileu tagiau lle bo modd pan fyddant yn ymwybodol na roddwyd caniatâd.
- Dylid esbonio’n eglur wrth rieni sy’n llenwi’r ffurflen aelodaeth bod gan y CFfI system ar gyfer rheoli lluniau sy’n debygol o gael eu tynnu yn ystod gweithgareddau’r CFfI. Er bod hyn yn debygol o fod yn gyfyngedig i bostiadau cyfryngau cymdeithasol yn eu rhwydwaith ar lefel clwb, cofiwch fod ganddynt y potensial i gael eu rhannu ymhellach ac o bosibl eu cyhoeddi ar lefel sirol neu genedlaethol.
- Yn nigwyddiadau mwy y CFfI neu sioeau cyhoeddus lle bydd aelodau’r CFfI yn bresennol, mae’n bwysig arddangos hysbysiad tynnu lluniau (enghraifft yn Atodiad 14 Canllaw cymorth ynghylch tynnu lluniau) sy’n cynnig arweiniad eglur ynghylch recordio delweddau i’w defnyddio gan y sefydliad. Dim ond yn achos luniau swyddogol a dynnir gan ffotograffwyr penodedig (proffesiynol neu wirfoddol) y gall CFfI gymryd cyfrifoldeb.

- Os bydd gan unrhyw un bryderon am weithgarwch recordio gan unigolyn mewn digwyddiadau, dylid hysbysu stiward neu drefnydd digwyddiad am hyn.
- Dylid osgoi ffrydio delweddau/fideos i lwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn gydamserol. (*Byddai hyn yn lleihau'r risg o uwchlwytho lluniau yn uniongyrchol heb dreulio amser yn gwirio addasrwydd pob llun).* Mae oedi wrth ffrydio yn cynnig cyfle i olygu delweddau amhriodol a sicrhau bod gennych y gwaith papur/caniatâd priodol ar gyfer pob ffotograff. Rhaid i'r sawl sy'n postio ystyried yr effaith bosibl ar yr unigolyn ac ar y sefydliad yn gyffredinol cyn postio. Os bydd unrhyw amheuon, peidiwch â'i bostio.
- Dylai gwefannau a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddiwch ar gyfer busnes y CFfI (er enghraifft Facebook, X/Twitter, Instagram a YouTube) gael eu monitro'n rheolaidd gan unigolion penodol sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb am hynny, er mwyn rheoli delweddau neu destun amhriodol. Dylid rhoi gwybod am unrhyw achos o ddefnyddio delweddau amhriodol i'r clwb neu'r ffederasiwn sirol a fydd yn gweithredu ynghylch hynny, ac mewn rhai achosion, efallai y bydd yn ofynnol iddynt hysbysu'r awdurdodau priodol.

## 2.7. Cyfathrebu ag aelodau (ffonau symudol, e-byst a rhwydweithiau cyfryngau cymdeithasol)

Mae'r rhyngrwyd yn adnodd gwych i'r CFfI at ddibenion cyfathrebu gwybodaeth yn syml ac yn gyflym rhwng pobl ifanc cefn gwlad, ond bydd yn cynnwys lefel o risg pan fydd systemau'n cael eu camddefnyddio neu eu defnyddio'n amhriodol. Cofiwch fod yn ofalus ynglŷn â'r wybodaeth a'r lluniau a rennir ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn enwedig pan fo'r wybodaeth honno'n bersonol. Anogwch amgylchedd rhannu diogel yn eich clwb. Os bydd aelodau wedi dioddef ymddygiad seibrfwlio neu os byddant yn cael negeseuon amhriodol, dylent hysbysu swyddog diogelu neu arweinydd yn y clwb neu'r ffederasiwn sirol am hynny. Dylai cyfathrebu ag aelodau eraill y CFfI fod yn agored bob amser, gan barchu ffiniau'r berthynas rhwng aelod 'cyffredin' ac aelod â swydd o ymddiriedaeth. Dylai cyfathrebu â phlant a phobl ifanc gynnwys y rhieni oherwydd bydd angen iddynt fod yn ymwybodol o drefniadau'r clwb y bydd eu plentyn yn cyfranogi ynddynt. Mae'n arfer da anfon e-byst a negeseuon testun at grwpiau er mwyn cyfleu gwybodaeth am weithgareddau'r clwb. Gellid defnyddio cyfeiriad e-bost clwb generig neu ffôn symudol clwb a gedwir gan aelod o'r tîm swyddogion/arweinydd i osgoi defnyddio cyfrifon personol. Wrth ddefnyddio cyfleusterau sgwrsio mewn grŵp neu grwpiau cyfryngau cymdeithasol, bydd angen rheoli'r rhain i sicrhau bod y cynnwys yn briodol i'r gynulleidfa ac mai dim ond busnes CFfI sy'n cael ei gyfathrebu a'i drafod.

Weithiau, gall fod yn anodd gwahanu cyfathrebiadau'r CFfI oddi wrth rai personol oherwydd natur ac ystod oedran y sefydliad. Dylai'r rhai sydd â swyddi o ymddiriedaeth anfon copi at arweinydd/swyddog arall wrth ddefnyddio gwefannau cyfryngau cymdeithasol ar gyfer busnes y CFfI gan ddefnyddio systemau negeseuon preifat megis Facebook Messenger, negeseuon uniongyrchol X/Twitter (DM), WhatsApp, negeseuon uniongyrchol ar Instagram a Snapchat i gyfathrebu ag aelodau. Os ydych yn cysylltu â phlentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn sydd mewn perygl, bydd hyn yn bwysig er mwyn diogelu pob parti a bydd yn lleihau'r risg y gwnaiff pryderon neu honiadau godi trwy sicrhau bod cyfathrebiadau'n cael eu goruchwylio a'u bod yn briodol. Gall fod yn ddefnyddiol defnyddio waliau a grwpiau at ddibenion busnes y CFfI oherwydd mae hyn yn dryloyw ac yn weladwy i bawb. Wrth ddefnyddio tudalennau/grwpiau CFfI, dylech asesu oedran ac anghenion aelodau'r clwb a defnyddio llwyfan sy'n caniatáu cyfathrebu i bawb sy'n ymwneud â'r clwb.

Mae FfCCFfI wedi datblygu polisi a chanllawiau ynghylch e-ddiogelwch ar aelodau a gwirfoddolwyr. Mae'r Polisi E-Ddiogelwch ar gael ar gais gan eich ffederasiwn sirol neu FfCCFfI. Cyfeiriwch at y polisi hwn i gael gwybodaeth a chyngor manylach.

## 2.8. Cludo

Oherwydd natur wledig y CFfI, gall cludo plant ar ran y CFfI achosi anawsterau i glybiau. Ni allai llawer o Glybiau Ffermwyr Ifanc weithredu heb ewyllys da aelodau a rhieni/gofalwyr i sicrhau bod plant yn cael eu cludo i'r digwyddiadau ac yn dychwelyd adref. Mae trefniadau cludiant a wneir rhwng rhieni ac aelodau y oddi allan i'r CFfI (pan na fydd y CFfI yn darparu cludiant fel rhan o weithgaredd) yn drefniant preifat na all y sefydliad ei reoli a bydd hynny'n gyfrifoldeb y rhiant a'r sawl sy'n trefnu'r cludiant ar y cyd â hwy (boed yn aelod o'r CFfI neu beidio). Mae'n rhesymol i glybiau a threfnwyr gweithgareddau osod cyfrifoldeb llawn ar rieni i sicrhau trefniadau cludiant priodol i fynd i ddigwyddiadau a dod oddi yno. Pan fydd rhieni/gofalwyr yn cludo eu plant eu hunain neu'n gwneud trefniadau preifat gyda rhieni/gofalwyr eraill i ddanfon neu gasglu eu plant, hwy eu hunain sy'n gyfrifol am ddiogelwch eu plant ac am addasrwydd unrhyw drefniadau teithio. Os bydd y CFfI yn trefnu i gludo ei aelodau i weithgaredd ac yn gofyn neu'n ei gwneud yn ofynnol i aelodau, staff neu rieni gludo plant pobl eraill ar ran y clwb, bydd gan y trefnydd gyfrifoldeb i gymryd camau rhesymol i ddiogelu'r bobl ifanc hyn y maent yn gyfrifol amdanynt drwy sicrhau caniatâd ar sail gwybodaeth a bod mesurau diogelu yn eu lle ac wedi'u cofnodi.

**Beth yw'r Anawsterau?**

Bydd mwyafrif helaeth y staff a'r gwirfoddolwyr yn helpu trwy eu hymrwymiad diffuant i bobl ifanc ac i'r Ffermwyr Ifanc. Yn anffodus, mae'n rhaid i ni gydnabod y bydd lleiafrif yn ymuno â'r CFfI i gael mynediad at blant er mwyn eu niweidio. Mae cludiant yn faes sy'n peri risg gynyddol o ran diogelu oherwydd mae'n caniatáu i blant/pobl ifanc gael eu harwahanu. Gall trefniadau cludiant amhriodol olygu bod plant mewn perygl o gael eu cam-drin.

Yn amlwg, yr arfer gorau fyddai osgoi cludo plentyn ar ei ben ei hun, ond rydym yn cydnabod y bydd hynny, o dan rai amgylchiadau, yn hanfodol i alluogi plentyn neu unigolyn ifanc i gyfranogi yng ngweithgareddau a digwyddiadau'r CFfI. Os bydd yr holl ddewisiadau eraill wedi'u hystyried ond yn ofer a bydd yn rhaid i aelod sy'n oedolyn gludo plentyn, dylid sefydlu nifer o fesurau diogelu ychwanegol i leihau'r risg.

- Sicrhau bod rhieni'n cael eu hysbysu'n llawn* am y trefniadau a'u bod wedi rhoi eu caniatâd

  (Sylwer: *mae 'cael eu hysbysu'n llawn' yn golygu y dylent wybod pwy yw'r gyrrwr a fydd yn cludo, pwy arall fydd yn teithio yn y car, faint fydd hyd y daith, ble bydd y mannau codi a gollwng cytunedig, bod y gyrrwr wedi sicrhau bod y trefniadau'n addas, e.e. o ran MOT, yswiriant, euogfarnau, peidio â bod dan ddylanwad alcohol neu unrhyw sylweddau eraill ac ati). Dylid cofnodi dyddiad, amser a manylion y sgyrsiau hyn a'r cytundeb a dylid llofnodi'r cofnod hwnnw.

- Sicrhewch fod arweinydd diogelu'r clwb/ffederasiwn sirol/digwyddiad yn cadw ffurflenni caniatâd wedi'u llenwi a manylion cyswllt yr aelodau sy'n cael eu cludo. Dylai'r gyrrwr fod wedi cael manylion enw cyswllt a dylai fod ganddynt ffôn symudol rhag ofn y bydd y car yn torri neu rhag ofn y bydd unrhyw ddigwyddiadau neu bryderon eraill yn codi. Ar sail 'angen gwybod', ac â chaniatâd, dylai'r gyrrwr fod yn ymwybodol o unrhyw anghenion cymorth ychwanegol, gan gynnwys cyflyrau meddygol a allai fod yn berthnasol yn y cyd-destun hwn.
- Dylai unigolyn arall (nid y gyrrwr arfaethedig) sgwrsio â'r plentyn am drefniadau cludiant i sicrhau eu bod yn fodlon â'r trefniadau hynny.
- Os gellir, mae'n arfer da sicrhau bod dau oedolyn yn y car pan fydd aelodau iau yn cael eu cludo. Os na fydd hyn yn bosibl, dylai'r aelodau iau eistedd yn y sedd gefn.
- Dylech geisio sicrhau bod mwy nag un plentyn yn y car, ac os bydd yn drefniant rheolaidd, dylech geisio sicrhau bod pob plentyn yn cael ei ollwng am yn ail. Yn ddelfrydol, dylai dau blentyn gael eu gollwng yn y lleoliad cytunedig, e.e. cartref un ohonynt. Dylid newid/cylchdroi'r unigolion sy'n

dychwelyd y plant i'r lleoliad cytunedig (e.e. cartref y teulu); byddai hyn yn lleihau'r risg y byddai unrhyw un unigolyn ar ei ben ei hun yn aml â phlentyn neu grŵp penodol.

- Dylai aelodau a gwirfoddolwyr sy'n gyfrifol am yrru aelodau ifanc yn rheolaidd ar ran y CFfI gael gwiriad cofnod troseddol (DBS) i sicrhau eu bod yn addas ac yn briodol. Byddai'n ddoeth pe bai'r sawl sydd eisoes wedi cael eu recriwtio trwy'r gweithdrefnau recriwtio diogel yn ymgymryd â dwy rôl i osgoi gorfod cynnal rhagor o wiriadau. Os na all y clwb gludo'r aelodau yn ddiogel, dylid gofyn i rieni gludo'u plant eu hunain i ddigwyddiad i osgoi'r risgiau a allai ddeillio o hynny.
- Sicrhewch fod plant yn gwybod am eu hawliau i fod yn ddiogel ac y gallant droi at rywun i gael cymorth neu i roi gwybod am unrhyw bryderon y bydd ganddynt. Os caiff diwylliant sy'n rhoi pwyslais ar fod yn ddiogel ei feithrin yn y clwb, bydd y plentyn yn fwy tebygol o sgwrsio â rhywun arall os bydd unrhyw sefyllfa yn gwneud iddynt deimlo'n anghyfforddus.
- Pan fydd rhywun yn dod i gasglu'r aelodau yn hwyr, gall hynny beri anawsterau i glybiau. Dylid hysbysu rhieni/gofalwyr am eu cyfrifoldeb ac ynghylch effeithiau casglu aelodau yn hwyr. Dylai clybiau fod â manylion rhifau cyswllt rhieni/gofalwyr, ac os yn bosibl, dylid rhoi manylion rhif cyswllt arall y gellir ei ddefnyddio mewn argyfwng i'r clwb. Dylai rhieni/gofalwyr fod â manylion rhif cyswllt y clwb/gwirfoddolwr fel y gallant eu hysbysu am unrhyw argyfyngau a'r posibilrwydd y gallent gyrraedd yn hwyr i gasglu eu plentyn.
- Nid yw'n ddoeth caniatáu i yrwyr sydd newydd gymhwyso gludo aelodau eraill o'r grŵp ar ran y CFfI yn ystod y chwe mis cyntaf ar ôl cael eu trwydded.
- Rhaid i yrwyr ddangos tystiolaeth i gadarnhau bod ganddynt yswiriant car dilys, tystysgrif MOT gyfredol a thrwydded yrru lawn cyn cludo unrhyw deithwyr. Rydym yn cynghori'r unigolyn/gyrrwr i holi eu cwmni yswiriant eu hunain os ydynt yn bwriadu defnyddio eu car fel rhan o'u rôl gyflogedig neu wirfoddol. Ar lefel Clwb, dylid cytuno sut ddylai'r wybodaeth hon gael ei gwirio a'i chofnodi ar gyfer unrhyw aelodau a allai gludo aelodau eraill a allai fod yn fwy agored i niwed.
- Ar brydiau, efallai y gofynnir i aelodau yrru bws mini ar ran y CFfI. Bydd angen i deithwyr sy'n cael eu cludo mewn bws mini wisgo gwregysau diogelwch a bydd y gyrrwr yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl aelodau yn eu defnyddio. Os oes gwregysau diogelwch wedi'u gosod mewn bws, mae'n rhaid i deithwyr eu defnyddio.
- Bydd y gyrrwr yn gyfrifol am hysbysu pawb bod yn rhaid iddynt ddefnyddio gwregysau diogelwch.

Dylid cynnwys y canlynol o leiaf ar y ffurflen ganiatâd: rhestr o enwau'r gyrwyr, esbonio na fydd yr aelodau'n cael eu cludo ar eu pen eu hunain os gellir osgoi hynny, y bydd y mannau gollwng a ddewisir yn cael eu cylchdroi yn eu trefn, os bydd hynny'n bosibl, a chadarnhau bod yr holl yrwyr wedi cael eu gwirio at ddibenion diogelu. Yn ddelfrydol, dylai'r unigolyn ifanc hefyd lofnodi'r ffurflen i ddangos eu bod yn deall y trefniadau ac yn fodlon â hwy.

Wrth ddefnyddio cwmni cludo allanol, cofiwch ddefnyddio cwmni cludo dibynadwy bob amser, ac aseswch y risg yn llawn. Os byddwch yn llogi cerbydau, sicrhewch fod eich trwydded yn cyd-fynd â'r gofynion i'w gyrru'n gyfreithlon ac yn ddiogel. Dylai clybiau adolygu eu trefniadau cludo yn rheolaidd i sicrhau bod unrhyw risgiau posibl i'r aelodau a'r swyddogion/arweinwyr yn cael eu lleihau.

Bydd angen sicrhau caniatâd priodol gan rieni dan yr amgylchiadau canlynol:

- pan fydd yn rhaid i blentyn wneud eu trefniadau eu hunain i deithio i weithgareddau'r CFfI (cerdded ar eu pen eu hunain neu ddefnyddio cludiant cyhoeddus)
- pan fydd aelodau dan 18 oed yn dymuno gyrru adref eu hunain neu gludo eu ffrindiau dan 18 oed adref gan ddefnyddio eu cerbydau eu hunain

## 2.9. Clwb diogel, clwb hapus

Yr hyn sy'n allweddol i allu rhedeg clwb llwyddiannus a diogel yw parchu ein gilydd, cydweithio a sicrhau bod ymddygiad annerbyniol yn cael ei herio. Rhan bwysig o hyn yw sicrhau y ceir polisïau a gweithdrefnau sy'n ategu ymddygiad diogel a theg, a bod pob aelod yn gwybod sut i gyflwyno cwyn os byddant yn pryderu am sefyllfa. Ein nod yw creu amgylchedd hwyliog, diogel a hamddenol sy'n gweithio mewn partneriaeth â diogelu plant, pobl ifanc ac unrhyw oedolion a allai fod yn fwy agored i niwed.

Mae cam-drin plant neu oedolion sy'n agored i niwed yn hawdd ei guddio, ac felly, bydd parhau os oes diffyg eglurder ymhlith oedolion a phlant a phobl ifanc ynghylch rolau, cyfrifoldebau, atebolrwydd ac ymddygiad derbyniol. Caiff risgiau eu lleihau os oes gan holl swyddogion ac arweinwyr y clwb rolau a chyfrifoldebau clir ac os yw disgwyliadau o ran ymddygiad yn cael eu hyrwyddo, eu cytuno a'u derbyn trwy godau ymddygiad. Mae gan arweinwyr/swyddogion clwb gyfrifoldeb i oruchwylio pobl ifanc sydd dan eu gofal ac i weithredu er eu lles pennaf. O ran gweithgareddau'r CFfI, disgwylir i swyddogion/arweinwyr clybiau arfer y fath ofal rhesymol ag y byddai rhiant cyfrifol yn ei arfer. Os nodir bod aelodau sy'n oedolion yn fwy agored i niwed neu bod ganddynt anghenion cymorth, bydd gan swyddogion/arweinwyr gyfrifoldeb i gydweithio â hwy i sicrhau bod unrhyw addasiadau a mesurau diogelu ychwanegol yn cael eu hystyried yn ofalus ac yr ymatebir iddynt mewn ffordd sy'n parchu eu hawl i hunanbenderfynu lle bynnag y bo'n bosibl. Gall FfCCFfI ddarparu cyngor a chymorth ynghylch diogelu oedolion a materion yn ymwneud â galluedd a chydsynio.

Mae'n fuddiol i'r sawl sydd â rolau swyddogion diogelu mewn clybiau/ffederasiynau sirol gysylltu â'u Partneriaid Diogelu Lleol a'r cyngor lleol dros wasanaethau ieuenctid gwirfoddol i gael gwybodaeth a chymorth. Dylai arweinwyr clybiau a ffederasiynau sirol y CFfI sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'r gymuned wledig archwilio sut y gallant gael mynediad at hyfforddiant a chyngor a chymorth rheolaidd gan y sefydliadau hyn.

Argymhellir yn gryf y dylai pob clwb/ffederasiwn sirol ddynodi unigolyn arweiniol i gymryd cyfrifoldeb am weithio gyda swyddogion ffederasiynau sirol a chlybiau i sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol â deddfwriaeth ac arfer gorau ac yn unol â'u polisi, gweithdrefnau a chanllawiau diogelu. Mae disgrifiad rôl enghreifftiol ar gyfer rôl y Swyddog Diogelu ar gael yn Atodiad 19. Fel elusen plant a phobl ifanc, mae angen i CFfI sicrhau bod diogelu yn fusnes craidd ac wedi'i wreiddio yn ei holl weithgareddau a digwyddiadau.

## 3. Rhannu Pryderon - Adran 3

Mae'r adran hon o'r polisi yn egluro beth ddylech ei wneud os oes gennych bryderon am blentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn yn y CFfI. Fel gwirfoddolwr neu aelod o'r staff yn y CFfI, ni ddylech ymchwilio i bryderon diogelu difrifol. Cyfrifoldeb yr asiantaethau statudol yw hynny a chyfeirir pryderon yn briodol at yr awdurdodau addas os bydd angen cymorth neu ymchwiliad pellach. Eich rôl chi yw bod yn wyliadwrus mewn perthynas ag unrhyw ymddygiad sy'n peri pryder ynghylch plentyn, swyddog/arweinydd, aelod o'r staff neu aelod o'r pwyllgor a hysbysu eich swyddog diogelu/swyddfa'r ffederasiwn sirol am hyn. Dylech gyfeirio unrhyw bryderon, beth bynnag fo unrhyw berthynas sydd gennych â'r unigolyn dan sylw. Efallai y byddwch hefyd mewn sefyllfa lle byddai plentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn yn dymuno datgelu gwybodaeth am ddigwyddiad i chi a dylech bob amser ymateb yn gadarnhaol. Gwrandewch, casglwch wybodaeth a'i chadarnhau, a chyfeiriwch hyn at yr unigolyn priodol. Mae gweithio ar eich pen eich hun a methiant (neu oedi) wrth rannu gwybodaeth mewn perthynas â phryderon diogelu yn arfer gwael ac yn cynyddu'r risg i bob parti (aelodau, swyddogion a'r sefydliad). Os byddwch yn ansicr, **meiddiwch rannu** a sicrhewch fod gennych fanylion cyswllt ar gyfer arweinwyr diogelu lleol a chenedlaethol a all gynnig cymorth i chi.

### 3.1. Gweithdrefnau adrodd

Ceir siart llif adrodd symlach ar gyfer aelodau ar ddechrau'r ddogfen hon. Os bydd gan aelod, gwirfoddolwr neu aelod o'r staff bryderon ar unrhyw adeg am ddiogelwch neu les plentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn sydd mewn perygl, dylent ymgynghori â'u swyddog diogelu yn y clwb/ffederasiwn sirol neu FfCCFfI. Cyfeiriwch at Atodiadau 21 a 22 i gael rhagor o wybodaeth am y diffiniadau o gam-drin ac adnabod hynny. Gall aelodau, gwirfoddolwyr a staff ddod yn ymwybodol o bryderon neu amau bod mater diogelu trwy sawl dull:

- Gallai plentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn ddweud wrthynt
- Gallai rhywun arall eu hysbysu am bryder
- Gall plentyn neu unigolyn ifanc amlygu arwyddion o drallod neu anaf corfforol heb esboniad boddhaol amdanynt
- Gall ymddygiad plentyn neu unigolyn ifanc ddangos bod rhywbeth o'i le neu eu bod yn cael eu trin yn amhriodol neu eu cam-drin
- Gall ymddygiad aelod, gwirfoddolwr neu aelod o'r staff wneud iddynt deimlo'n anghyfforddus neu fynegi pryderon am eu hymddygiad y bydd angen mynd i'r afael â hwy
- Efallai byddant yn dyst i gamdriniaeth (gan rywun sy'n rhan o'r CFfI neu oddi allan i gyd-destun CFfI e.e. gan deulu neu ffrindiau)
- Efallai y byddant yn synhwyro bod aelod yn ofidus ac ar fin dweud rhywbeth arwyddocaol wrthynt ond yna'n stopio (efallai oherwydd y byddant yn teimlo'n bryderus, bod hynny'n tarfu ar breifatrwydd, neu eu bod yn cael gwybod na allwch gadw'r hyn y byddant ei rannu'n gyfrinachol os bydd oblygiadau diogelu yn gysylltiedig â hynny)
- Bydd amgylchiadau eithriadol yn codi sy'n ei gwneud yn ofynnol i staff/gwirfoddolwyr weithredu mewn ffordd sy'n groes i ganllawiau arfer da e.e. cludo aelod, gweithio ar wahân, darparu cysur trwy gyswllt corfforol uniongyrchol

Gallai aelod ddatgelu gwybodaeth i chi, a phan fydd hyn yn digwydd, dylech ddilyn y canllawiau canlynol.

**Os bydd plentyn neu unigolyn ifanc yn dymuno siarad yn gyfrinachol** –
**COFIWCH:**

- Sicrhewch hwy eu bod yn gwneud y peth iawn trwy ddweud wrthych a diolchwch iddynt am ymddiried ynoch.
- Derbyniwch yr hyn y byddant ei ddweud, peidiwch â chynhyrfu a rhowch eich sylw llwyr iddynt.
- Sicrhewch hwy nad ydynt ar fai
- Cydnabyddwch eu hofnau a'u teimladau - efallai y byddant wedi cael eu bygwth ac efallai na fyddant yn dweud popeth y byddant yn ei wybod wrthych
- Ysgrifennwch nodiadau cyn gynted ag y gallwch Cofnodwch ddyddiadau ac amseroedd digwyddiadau a chadwch gofnod mewn llawysgrifen (gellir newid rhai wedi'u teipio)
- Ceisiwch gymorth proffesiynol bob amser yn ddi-oed ac er lles pennaf yr unigolyn sy'n agored i niwed.
- Os bydd y pryderon am blentyn ac ni fydd rhiant yn gysylltiedig â hynny, dylech gynnwys rhiant cyn gynted â phosibl. Os byddwch yn dychwelyd plentyn i ofal rhiant ac yn ofni na chaiff yr honiadau eu hadrodd, ceisiwch gymorth ar unwaith gan swyddog diogelu a/neu gyngor proffesiynol gan eich Adran Gofal Cymdeithasol leol, Hwb Diogelu Amlasiantaethol (MASH), yr NSPCC neu'r heddlu.
- Sicrhewch fod y rhif 'Childline' (800 1111) i'w weld mewn lle amlwg yn eich CFfI fel y gall plentyn pryderus ffonio'r rhif hwn os byddant yn dymuno

**PETHAU NA DDYLECH EU GWNEUD:**

- Peidiwch â mynegi synod na bod yn feirniadol
- Peidiwch ag addo cadw hynny'n gyfrinach – dywedwch wrthynt efallai y bydd angen i chi ddweud wrth rywun arall er mwyn ceisio cymorth a chyngor ac er mwyn i bethau newid
- Peidiwch ag addo y byddwch yn gallu atal y sefyllfa ar unwaith. Trafodwch yr opsiynau â hwy, gofynnwch iddynt beth allai fod o gymorth yn eu tyb hwy, ac os bydd hynny'n briodol, cytunwch ar y camau nesaf e.e. ceisio cyngor gan y swyddog diogelu neu FfCCFfI
- Peidiwch fyth ag archwilio unigolyn ifanc yn gorfforol. Os bydd argyfwng, efallai bydd angen i chi ymateb i anafiadau i'w hatal rhag gwaethygu. Os felly, ceisiwch gymorth meddygol heb oedi. Dylech bob amser gadw cofnod ysgrifenedig o unrhyw gamau y byddwch yn eu cymryd
- Peidiwch byth â chymell unigolyn i gynnig gwybodaeth na fydd yn ei rhannu'n heb orfodaeth, Bydd yn bwysig cadarnhau pryderon trwy ofyn iddynt egluro neu ddisgrifio'r hyn sydd wedi digwydd ond dylai unrhyw ymchwilio pellach gael ei wneud gan ymarferydd sydd â sgiliau priodol i ofyn cwestiynau o'r fath ac sy'n ymwybodol o'r sensitifrwydd sy'n ofynnol wrth gasglu tystiolaeth. **Cofiwch nad chi fydd yr ymchwilydd**
- Peidiwch â cheisio dod drwyddi ar eich pen eich hun, yn enwedig os byddwch yn ansicr ynghylch y camau nesaf. Cysylltwch â DSO y clwb neu'r ffederasiwn sirol neu dîm Diogelu ac Ymddygiad FfCCFfI i gael cymorth ac arweiniad. Os byddwch yn ansicr ac yn dymuno siarad â rhywun oddi allan i'r CFfI, ffoniwch Linell Gymorth yr NSPCC i gael cymorth a chyngor (0808 800 5000).

Mae'n bwysig bod yr holl staff a gwirfoddolwyr yn ymwybodol o'r drefn adrodd a ddangosir ar dudalen 43 ac y byddant yn dilyn y weithdrefn hon yn ddi-oed. Os bydd aelod, gwirfoddolwr neu aelod o'r staff yn ansicr ynghylch pa un ai a ddylid hysbysu gwasanaethau allanol am ddigwyddiad yn ymwneud â phlentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn ai peidio, rhaid iddynt ymgynghori â'u rheolwr llinell, Swyddog Diogelu Plant y Clwb/Ffederasiwn Sirol neu gysylltu â Swyddogion Diogelu FfCCFfI i gael cyngor. Er ei bod yn bosibl na fydd angen ymyrraeth gan wasanaethau allanol megis gofal cymdeithasol neu'r heddlu yn achos pob digwyddiad,

rhaid cofnodi pob pryder oherwydd gallai pryderon sydd yn ôl pob golwg yn rhai ar lefel isel fod yn rhan o ddarlun ehangach o bryderon yn y dyfodol.

## 3.2. Oedolion a allai fod yn fwy agored i niwed yn datgelu camdriniaeth

Dan rai amgylchiadau, efallai bydd gwirfoddolwr neu aelod o’r staff yn amau bod oedolyn yn cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Bydd yn hanfodol i unrhyw un sy’n amau bod oedolyn sy’n agored i niwed yn cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin drafod y sefyllfa ar unwaith â swyddog diogelu’r ffederasiwn sirol neu FfCCFfI.

Cofiwch:

- Peidiwch byth ag oedi wrth weithredu camau brys i amddiffyn oedolyn a allai fod yn fwy agored i niwed.
- Cofiwch gofnodi pryderon a thrafodaethau am les oedolyn yn ysgrifenedig bob amser, pa un ai a fydd camau ychwanegol yn cael eu cymryd ai peidio.
- Ar ddiwedd y drafodaeth, dylech bob amser ddod i gytundeb eglur a phendant ynghylch pwy fydd yn cymryd pa gamau, neu os na fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd a pham. Dylech gofnodi hynny.
- Mae'n bwysig bod gwirfoddolwyr a staff yn llunio cofnodion ysgrifenedig ynghylch unrhyw ddigwyddiadau neu bryderon sydd ganddynt cyn gynted â phosibl. Bydd hefyd yn bwysig llunio cofnod o sgyrsiau â’r unigolyn sy’n agored i niwed gan ddefnyddio'r un iaith ag y defnyddiwyd gan yr unigolyn sy’n agored i niwed, yn enwedig enwau a ddefnyddir i enwi rhannau o'r corff neu weithredoedd rhywiol.
- Rhaid cadw cofnodion ysgrifenedig llawn ynghylch pob datgeliad a’r camau gweithredu ar ôl bob datgeliad. Mae’r ffurflen adrodd ar gael yn Atodiad 18.
- Rhaid gweithredu yn ddi-oed bob amser.
- Peidiwch fyth â chymryd yn ganiataol fod rhywun arall wedi mynegi pryderon
- Dylai gwirfoddolwyr a staff ymgynghori â’u swyddog diogelu lleol neu FfCCFfI cyn cymryd unrhyw gamau, oni bai bod hynny’n achosi oedi sylweddol a fyddai’n gwaethygu risgiau posibl.
- Fel sefydliad, mae’r CFfI yn gweld gwerth mewn amrywiaeth a gwahaniaeth. Mae’r CFfI yn croesawu’r ffaith fod pobl a ffyrdd o fyw yn amrywiol ac mae wedi ymrwymo i gynhwysiant a chydraddoldeb. Mae'n bwysig fodd bynnag nad yw'r athroniaeth hon yn rhwystro cyfrifoldeb y sefydliad i amddiffyn pobl sy’n agored i niwed rhag cael eu niweidio.
- Gall unrhyw wirfoddolwr neu aelod o’r staff roi gwybod am bryderon diogelu a chyfeirio amheuon o gam-drin at sylw gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion **beth bynnag fo barn staff neu wirfoddolwyr eraill**.

Dylai aelod, gwirfoddolwr neu aelod o'r staff sy’n cael gwybod am gamdriniaeth atgoffa’r defnyddiwr gwasanaeth na allant warantu y byddant yn cadw unrhyw wybodaeth yn gyfrinachol pan fo unigolyn mewn perygl o gamdriniaeth neu niwed pellach. Dylent ymgynghori â swyddog diogelu'r sir cyn cymryd unrhyw gamau - ac eithrio os byddai gwneud hynny yn achosi oedi gormodol - a dilyn y pwyntiau a restrir uchod.

O dan amgylchiadau pan fo aelod yn gwrthod cyfeiriad i gael cymorth ac amddiffyniad, efallai y bydd angen adrodd am y cam-drin honedig heb gytundeb yr aelod. O dan yr amgylchiadau hyn, dylid hysbysu aelod ymlaen llaw am y penderfyniad i hysbysu’r gwasanaethau cymdeithasol oni bai yr ofnir y byddai hynny’n cynyddu’r risgiau i’r unigolyn neu eraill (e.e. yn achos pryderon iechyd meddwl).

Gall unrhyw wirfoddolwr neu aelod o'r staff roi gwybod i'r gwasanaethau cymdeithasol am ddatgeliad o gamdriniaeth, beth bynnag fo barn staff eraill. Bydd yn bwysig i wirfoddolwyr ac aelodau o’r staff lunio cofnodion ysgrifenedig ynghylch unrhyw ddigwyddiadau neu bryderon sydd ganddynt cyn gynted â phosibl. Bydd yn bwysig hefyd llunio cofnod o sgyrsiau â’r unigolyn sy’n rhannu pryder gan ddefnyddio’r un iaith ag y

byddant wedi'i ei defnyddio os gellir gwneud hynny. Rhaid llunio cofnodion ysgrifenedig llawn ynghylch yr holl bryderon diogelu sut bynnag y byddant yn codi ac ynghylch unrhyw gamau a gaiff eu cymryd.

## 3.3. Galluedd a chydsynio

Wrth i aelodaeth y Ffermwyr Ifanc ehangu cyfranogiad i gynnwys grwpiau ac unigolion cynyddol amrywiol, mae'n gynyddol bwysig bod yn wyliadwrus ynghylch anawsterau o ran gallu gwybyddol a all olygu bod pobl yn fwy agored i niwed os bydd ganddynt lai o allu i wneud penderfyniadau gwybodus yn ddi-oed. Gallai hyn fod yn anhawster dros dro (e.e. oherwydd ofn, trawma, sioc, profedigaeth, anaf, salwch) neu'n hirdymor (e.e. oherwydd gwahaniaethau dysgu, anabledd, problemau iechyd meddwl). Er bod hwn yn fater cymhleth, ni ddylai rywstro staff a gwirfoddolwyr rhag ymdrechu'n ddiffuant i geisio sicrhau yr ymgynghorir yn barchus â phob aelod mewn perthynas â chyfranogiad mewn gweithgareddau a/neu rannu gwybodaeth amdanynt. Mae'r hawliau hyn wedi'u hymgorffori yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005 a Chanllawiau Statudol Gofal a Chymorth 2014.

Mae'r gyfraith yn rhagdybio bod gan unigolyn ifanc sy'n 16 mlwydd oed neu'n hŷn ddigon o alluedd i gydsynio, oni bai bod tystiolaeth i'r gwrthwyneb. Yn gyffredinol, mae'n bosibl y bydd disgwyl bod gan blant 12 oed neu'n hŷn ddirnadaeth ddigonol, ac efallai y bydd gan blant iau ddirnadaeth ddigonol hefyd ond dim ond mewn sefyllfaoedd eithriadol. Os ystyrir y gallai ceisio cyfranogiad rhieni gynyddu'r risgiau posibl i unigolyn ifanc o dan 18 oed, byddai camau'n cael eu cymryd heb ganiatâd rhiant. Nid yw gallu i gydsynio yn seiliedig ar oedran yn unig, fodd bynnag, yn enwedig os nodwyd gwahaniaethau ac anableddau dysgu a chyfathrebu. Dylech hefyd ystyried gallu unigolyn i ddeall canlyniadau rhoi neu wrthod caniatâd. Ni ddylid ystyried eu bod yn methu â gwneud penderfyniad hyd nes y bydd pob cam ymarferol wedi'i gymryd i'w helpu.

Wrth asesu dirnadaeth unigolyn, dylech esbonio'r materion gan ddefnyddio'r dull cyfathrebu a'r iaith a ffafrir ganddynt. Dylid gwneud hyn mewn ffordd sy'n addas iddynt, gan ystyried popeth y byddwch yn ei wybod amdanynt yn sgil eich cyswllt â hwy, yn enwedig eu hoedran, eu hiaith a'u dirnadaeth debygol. Bydd yn bwysig ceisio sicrhau eu bod yn deall y materion mewn gwirionedd yn hytrach na dim ond cytuno â'r hyn a gynigir. Os byddwch yn ansicr ynghylch eu galluedd i gydsynio, dylech ymgynghori â'ch Swyddog Diogelu, Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion (cyfeiriad 'dim enw' i gael cyngor) neu FfCCFfI. Mae'n bosibl y gall ffrindiau'r unigolyn, gofalwr, gweithiwr proffesiynol arall sy'n gweithio gyda hwy, neu eiriolwr, pan fydd ar gael, ddarparu gwybodaeth neu gyngor perthnasol.

Dylid ystyried y meini prawf canlynol wrth asesu a fydd gan unigolyn ar unrhyw adeg benodol ddirnadaeth ddigonol i gydsynio, neu i wrthod caniatâd, i rannu gwybodaeth amdanynt neu gyfranogi mewn gweithgareddau penodol:

- A all yr unigolyn ddeall y cwestiwn a ofynnir iddynt?
- A ydynt yn cyfranogi'n weithredol yn y drafodaeth?
- A allant aralleirio'r cwestiwn gan ddefnyddio'u geiriau hwy eu hunain?
- Sut fuasent yn egluro hynny i rywun arall?
- A oes ganddynt ddealltwriaeth resymol o risgiau neu fanteision rhoi eu caniatâd neu ddweud na?
- Beth maent yn ei ddweud fyddai'n digwydd, yn eu barn hwy, os byddant yn cytuno â'r camau sy'n cael eu hawgrymu?
- A allant ddirnad ac ystyried y dewisiadau eraill, gan bwyso a mesur un agwedd o gymharu â'r llall a mynegi safbwynt unigol clir a chyson? Anogwch hwy i fynegi (ar lafar neu'n ysgrifenedig) eu barn am y manteision a'r anfanteision. Gallech ailarchwilio'r safbwyntiau hyn yn ddiweddarach neu yn ystod cyfarfod diweddarach.

Os credir bod oedolyn yn gwneud penderfyniad sy'n ymddangos yn annoeth neu a allai fod â chanlyniad negyddol, bydd ganddynt bob hawl i wneud hynny os na fydd hynny'n effeithio ar les cyfranogwyr eraill, staff neu wirfoddolwyr. Dylid cofnodi pryderon ac ymatebion yr unigolyn i'r pryderon hynny sy'n cael eu trafod â hwy, hyd yn oed pan fydd caniatâd yn cael ei atal i'w rhannu ymhellach ag asiantaethau priodol er mwyn cael cyngor a chymorth. Yn ddelfrydol, dylai'r unigolyn hefyd lofnodi'r cofnod hwn, gan nodi ei fod yn gywir.

Mae gan staff, gwirfoddolwyr ac aelodau gyfrifoldeb i fod yn ymwybodol o arwyddion sy'n awgrymu fod rhywbeth o'i le a bod yn wyliadwrus ynghylch hynny, yn achos unrhyw aelod, beth bynnag fo'u hoedran. Dylid nodi bod llawer o oedolion sy'n fwy agored i niwed naill ai ddim yn datgelu hynny neu nid ydynt yn ystyried eu bod yn agored i niwed. Yn yr un modd, mae mwy nag 80% o anableddau yn anweledig (e.e. niwroamrywiaeth, gwahaniaethau dysgu a chyfathrebu). Nid yw staff, gwirfoddolwyr ac aelodau'r CFfI yn gyfrifol am wneud diagnosis neu ymchwilio i gamdriniaeth, na darparu ymateb therapiwtig i hynny. Yn ychwanegol, nid yw pob pryder yn ymwneud â cham-drin, oherwydd mae'n bosibl iawn y bydd esboniadau eraill.

Mae'n bwysig bod yn eangfrydig ac ystyried yr hyn sy'n hysbys am yr unigolyn a allai fod yn agored i niwed a'u hamgylchiadau. Gellir datgan gwybodaeth ar y ffurflen aelodaeth, ac os bydd hynny'n briodol, gellir cael rhagor o wybodaeth o'r asesiad anghenion yn y canllaw cymorth ag anghenion ychwanegol sydd ar gael ar gais gan FfCCFfI. Pan fydd gwybodaeth wedi'i hegluro a'i hasesu am oedolyn sy'n agored i niwed -

Bydd y Ffederasiwn yn:

- sicrhau bod staff, aelodau a gwirfoddolwyr yn ymwybodol o angen yr unigolyn am gymorth ac amddiffyniad
- hysbysu'r asiantaethau priodol os caiff perygl dybryd o niwed neu gamdriniaeth ei nodi neu ei amau
- cefnogi, a lle bo modd, sicrhau diogelwch unigolion a sicrhau y bydd pob cyfeiriad at wasanaethau yn cynnwys gwybodaeth lawn mewn perthynas â risg a gwendidau a nodwyd
- defnyddio'r gweithdrefnau recriwtio diogel sydd wedi'u nodi ym Mholisi Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion sydd mewn Perygl FfCCFfI gan gynnwys gwiriadau o gofnodion troseddol (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) staff a gwirfoddolwyr sydd â mynediad at neu sy'n gweithio gydag Oedolion mewn Perygl, os yw eu rôl yn bodloni y meini prawf cymhwysedd a amlinellwyd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae manylion y cymhwysedd i gael gwiriadau DBS yn y tabl ar dudalen 15.

Mae gan yr Oedolyn sydd mewn Perygl hawl:

- i gael gwybod am y datganiad hwn
- i cael cydnabyddiaeth i unrhyw bryder diogelu / digwyddiad honedig a bod hynny'n cael ei gymryd o ddifri
- i gael eu trin yn deg a pharchus tra byddant yn aelod
- i gyfranogi mewn unrhyw broses briodol yn unol â'r egwyddorion a nodir isod a chael gwybodaeth am y canlyniadau a bod eraill yn ymgynghori â hwy
- os oes ganddynt alluedd, i wrthod asesiad a chymorth os na fydd pryderon am berygl dybryd (o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 a Chanllawiau Statudol Gofal a Chymorth 2018)

Dan amgylchiadau pan fydd ar blentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn angen sylw meddygol brys, rhaid galw'r gwasanaethau brys (999) a dylid eu hysbysu am unrhyw bryderon diogelu fel y gellir rhannu'r wybodaeth hon yn briodol.

Argymhellir y dylid rhestru rhifau ffôn enwau cyswllt y gellir eu ffonio mewn argyfwng yn nogfen bolisi'r clwb/ffederasiwn sirol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- Swyddog diogelu clwb
- Swyddfa/Swyddog Diogelu Ffederasiwn Sirol
- Swyddogion diogelu FfCCFfI (yn ystod oriau gwaith)
- MASH – Hwb Diogelu Amlasiantaethol Sirol Lleol
- Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol (LADO – yr unigolyn allweddol y dylid ceisio cymorth ganddynt os ceir honiadau ynghylch staff a gwirfoddolwyr)
- Rhif cyswllt y gwasanaethau gofal cymdeithasol lleol yn ystod y dydd a'r tîm dyletswydd (y tu allan i oriau) – mae timau plant ac oedolion ar gael yn lleol
- Rhif cyswllt yr heddlu lleol ynghylch materion nad ydynt yn argyfyngau/y Tîm Diogelu yn yr Heddlu
- Rhif llinell gymorth 24 awr yr NSPCC

Dylai'r cysylltiadau hyn gael eu nodi a'u cofnodi ac yna dylid eu cadw yn ffeil y clwb gan y rhai sy'n rhedeg y clwb yn ystod pob cyfarfod, ymweliad ac ymweliad preswyl.

## 3.4. Siart llif rhoi gwybod am bryder

Os ydych yn pryderu am aelod, gwirfoddolwr, aelod o'r staff neu aelod o gymuned y CFfI

Lluniwch nodiadau **ysgrifenedig** cryno ynghylch y pryderon. Nodwch y dyddiad a'r amser a llofnodi'r nodiadau. Cynhwyswch wybodaeth am y cyd-destun y bydd y pryderon wedi codi ynddo a'r sawl sy'n

Cysylltwch â swyddog diogelu/amddiffyn plant eich clwb/ffederasiwn sirol neu FfCCFfI i gael cymorth, cyngor ac arweiniad

Os bydd swyddog/arweinydd yn peri risg uniongyrchol, efallai y bydd angen eu hatal a hysbysu'r LADO (swyddog dynodedig yr awdurdod lleol) a'r heddlu.

Os bydd unigolyn mewn perygl dybryd, ffoniwch yr heddlu

Dylid cofnodi galwadau i ofyn gyngor a chymorth gyda'ch nodiadau ynghylch digwyddiadau ynghyd â chamau gweithredu arfaethedig - gellir defnyddio

Pryderon a reolir yn fewnol yn y CFfI

Sicrhewch bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n briodol ar sail 'angen gwybod' gan gynnal cyfrinachedd (gweler isod). Sicrhewch y caiff pob sgwrs/cyfathrebiad a chamau gweithredu eu cofnodi a bod cofnodion yn cael eu storio'n ddiogel ynghyd ag unrhyw ohebiaeth at y bobl sydd dan sylw. Ewch ymlaen â'r broses rheoli achos.

Gwnewch gyfeiriwch allanol i gael cyngor a chymorth: pryderon a reolir gan ofal cymdeithasol neu'r heddlu at ddibenion ymchwilio

Dilynwch gyngor y LADO (os oes angen), Gofal Cymdeithasol neu'r heddlu wrth iddynt gasglu gwybodaeth i gynorthwyo â'u hymchwiliad

Yn dibynnu ar ganlyniad yr ymchwiliad, efallai y bydd angen cymryd camau i ddiarddel/diswyddo y rhai sy'n ymwneud â'r digwyddiad neu i gynorthwyo'r rhai yr effeithiwyd arnynt

Os caiff gwirfoddolwr/aelod o'r staff ei ddiarddel/diswyddo o'r sefydliad oherwydd pryderon diogelu, rhaid cyfeirio hynny at y DBS a'r Comisiwn Elusennau – gall hyn gynnwys manylion y sefyllfa a chopïau o'r gwaith papur recriwtio diogel ar gyfer yr unigolyn a gafwyd yn ystod y broses recriwtio. Bydd FfCCFfI yn cynorthwyo clybiau a

**Mae diogelu yn gyfrifoldeb i bawb – felly peidiwch â gadael i bryderon fod heb eu hadrodd**

## 3.5. Gweithdrefnau ynghylch rheoli honiadau

Rhaid rhoi gwybod am bob digwyddiad, honiad neu amheuaeth, ni waeth pa mor ddibwys y gallant ymddangos, ni waeth pryd a ble y byddant wedi digwydd. Mae'r CFfI yn gymuned glos a beth bynnag fo'u cyfeillgarwch, perthnasoedd neu swyddi cyfrifol, rhaid cofio bod amddiffyn plant a phobl ifanc, ynghyd ag enw da'r CFfI, yn hollbwysig.

Os bydd honiad am aelod, swyddog, aelod o'r staff neu aelod o gymuned y CFfI, dylid dilyn y gweithdrefnau canlynol:

- Dylid gweithredu heb oedi.
- Ysgrifennwch nodiadau gan gynnwys dyddiadau, amseroedd, ffeithiau, pwy oedd yn gysylltiedig ac unrhyw arsylwadau. Cofnodwch yr union eiriau a ddefnyddiodd unigolyn i ddisgrifio'r hyn a ddwedwyd/digwyddodd os yn bosibl. Ceisiwch gofnodi'r digwyddiad gan ddilyn trefn gronolegol. Llofnodwch a nodwch y dyddiad ar unrhyw nodiadau y byddwch yn eu llunio rhag ofn y bydd eu hangen yn ystod unrhyw ymchwiliad dilynol.
- Lluniwch ffeil gyfrinachol lle gellir cofnodi'r holl nodiadau gwreiddiol, manylion sgyrsiau a chyngor.
- Cysylltwch â swyddfa neu swyddog diogelu eich ffederasiwn sirol i'w hysbysu am y mater. Mewn unrhyw achos o wrthdaro buddiannau rhwng DSO Clwb/Ffederasiwn Sirol a'r unigolyn sy'n destun yr honiad, rhaid i'r DSO neu Gadeirydd y Ffederasiwn Sirol enwebu unigolyn addas arall i ymdrin â'r mater neu ofyn am wasanaethau gan Dîm Diogelu a Rheoli Ymddygiad FfCCFfI.
- Defnyddiwch y ffurflen gofnodi yn Atodiad 18 i greu cofnod cronolegol a rhestr o enwau pawb sy'n ymwneud â'r achos. Ychwanegwch hynny at unrhyw waith papur arall sy'n ymwneud â'r achos.
- Cysylltwch â Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol (LADO) os bydd pryderon diogelu yn codi ynghylch gwirfoddolwr neu swyddog sydd â swydd o ymddiriedaeth neu rôl arwain neu aelod o'r staff. Gall eich ffederasiwn sirol neu FfCCFfI eich cynorthwyo i wneud hyn.
- Os bydd unigolyn yn destun ymchwiliad, efallai y bydd angen atal aelodaeth CFfI'r unigolyn dros dro hyd nes y ceir canlyniad yr achos oni bai y gellir rhoi mesurau ar waith sy'n amlwg yn mynd i'r afael ag unrhyw risgiau posibl neu effaith negyddol ar aelodau eraill. Mae atal aelodaeth yn weithred niwtral ac nid yw'n gyfystyr â barnu ynghylch amgylchiadau'r achos, na'r unigolyn dan sylw. Y cyfan y mae'n ei wneud yw

diogelu pawb sy'n gysylltiedig a diogelu enw da’r CFfI ac amddiffyn ei aelodau rhag unrhyw risg bosibl o niwed. **Ni ddylid derbyn ymddiswyddiadau cyn i ymchwiliad diogelu neu gamau disgyblu gael eu cwblhau.** Rhaid i aelodau gael manylion enw cyswllt enwebedig yn ystod y cyfnod pan fyddant wedi’u hatal.

- Rhaid parchu cyfrinachedd yr holl bartïon sy'n ymwneud ag unrhyw bryder neu ddigwyddiad a chadw'r mater yn breifat i'r rhai y bydd arnynt angen gwybod yn unig. Os asesir bod pryder diogelu yn ddi-sail neu y gellir datrys hynny’n effeithiol, bydd hyn yn helpu i ailintegreiddio aelod a ataliwyd dros dro.
- Os byddwch yn ansicr ar unrhyw adeg ynghylch beth i'w wneud, cysylltwch â FfCCFfI neu wasanaethau cymorth allanol (NSPCC, LADO, Tîm MASH, Gofal Cymdeithasol neu'r Heddlu) ar unwaith.
- Os profir bod honiad yn erbyn aelod o gymuned y CFfI yn un maleisus, bydd y cyhuddwr yn destun gweithdrefnau’r panel ymddygiad ac efallai y diddymir eu haelodaeth.

Mae *Gweithio Gyda’n Gilydd i Ddiogelu Plant* (Llywodraeth EM, 2023) yn darparu’r fframwaith ar gyfer rheoli honiadau a phryderon yn ymwneud â phobl sy’n gweithio gyda phlant. Dylai’r sawl sy’n destun y pryder diogelu, ac os byddant o dan 18 oed, rhieni/gofalwyr y plentyn neu’r blant sydd dan sylw, gael gwybod am yr honiad cyn gynted â phosibl os na fyddant yn gwybod amdano eisoes (oni bai eu bod hwy eu hunain yn destun pryder). Dylid hysbysu'r bobl dan sylw am hynt achos a dylent gael gwybod am y canlyniadau.

Os na fydd erlyniad troseddol, dylai'r broses rhannu gwybodaeth gynnwys canlyniad unrhyw broses rheoli achos fewnol gan y CFfI. Dylai’r sefydliad/cyflogwr hefyd roi gwybod i’r unigolyn sy’n destun yr honiad am hynt yr achos a chyfeirio at gymorth priodol, os bydd angen, tra bydd yr achos yn mynd rhagddo.. Os caiff yr unigolyn ei wahardd dros dro, dylai’r cyflogwr/sefydliad hefyd wneud trefniadau i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r unigolyn am ddatblygiadau yn y gweithle. Dylid ymdrechu i’r eithaf i gynnal cyfrinachedd ac atal unrhyw gyhoeddusrwydd tra bydd ymchwiliad yn cael ei gynnal ynghylch honiad. Os ceir honiadau, dylai'r broses hon ddilyn cyngor y LADO a all ddod yn bwynt cyswllt i'r unigolyn sy'n wynebu'r honiad yn hytrach na'r sefydliad dan rai amgylchiadau.

**Os bydd yr awdurdodau allanol wedi penderfynu na fydd angen cymryd unrhyw gamau pellach**

Bydd asiantaethau statudol yn penderfynu peidio â chymryd unrhyw gamau pellach oherwydd nifer o resymau:

- Ystyrir bod yr honiad yn ddi-sail neu’n faleisus.
- Nid yw’r honiad yn bodloni’r trothwy gofynnol ar gyfer ymyrraeth gan yr asiantaeth honno* (*gofal cymdeithasol, LADO, MASH neu’r Heddlu*)
- Ni fydd y dioddefydd honedig na’u rhieni wedi cyflwyno unrhyw gŵyn ffurfiol
- Ni fydd unrhyw dystiolaeth o gŵyn gan y dioddefydd i gadarnhau’r gŵyn, neu byddant yn gwrthod cydweithredu â’r asiantaethau statudol
- Bydd Llys yn gwrthod yr achos

*Os bydd y rhai sy’n ymwneud â phroses rheoli achos diogelu yn dal i gredu bod y risgiau’n golygu eu bod yn bodloni trothwyon lleol Partner Diogelu neu Fwrdd Diogelu Oedolion at ddibenion ymyrryd, efallai y bydd angen uwchgyfeirio pryderon. Gall FfCCFfI gynorthwyo â’r broses hon.

Dan amgylchiadau o’r fath, ni ellir cymryd unrhyw gamau pellach oherwydd ni ellir dangos bod y trothwyon statudol wedi’u bodloni; fodd bynnag, mae’n bosibl y bydd yr unigolyn sy’n achosi’r pryder wedi gweithredu’n groes i bolisïau, gweithdrefnau neu ganllawiau a chod ymddygiad FfCCFfI serch hynny, a thrwy hynny wedi’u peryglu hwy eu hunain a/neu beryglu aelod sydd mewn perygl o niwed. Serch hynny, bydd

angen asesu llawer o bryderon na ellir eu herlyn ar sail y 'wybodaeth feddal a gasglwyd' o ran risgiau diogelu parhaus posibl a rheoli'r rhain yng nghyd-destun y Ffermwyr Ifanc. Gan amlaf, byddai FfCCFfI yn dymuno sicrhau bod yr unigolyn wedi dangos atebolrwydd/mynegi edifeirwch ac wedi dysgu o'r profiad, ac wedi cael hyfforddiant priodol i atal unrhyw ddigwyddiadau pellach. Mewn rhai achosion, efallai bydd lefel difrifoldeb y digwyddiad yn golygu bod pryderon parhaus ynghylch eu haddasrwydd a'u priodoldeb i ymgymryd â rôl yn y CFfI neu i barhau i fod yn aelod a bydd yr unigolyn yn destun ymchwiliad mewnol. Dylid ymgymryd â phroses o asesu risg a rheoli achosion diogelu i asesu'r sefyllfa, y wybodaeth a gafwyd, a'r risg y bydd yr unigolyn yn ei pheri i aelodau eraill y CFfI..

## 3.6. Ymchwiliad Diogelu Mewnol

Os yn bosibl, dylai'r sawl sy'n ymwneud â'r achos wahodd yr unigolyn i gyfarfod, er enghraifft, gyda swyddog diogelu'r clwb/ffederasiwn sirol, aelodau tîm swyddogion y clwb/ffederasiwn sirol neu aelodau'r pwyllgor/llywyddion. O dan rai amgylchiadau, er enghraifft, pan fo lefel y difrifoldeb neu'r angen am annibyniaeth yn sylweddol, efallai y gofynnir i dîm Diogelu a Rheoli Ymddygiad FfCCFfI gynorthwyo â'r gwaith o reoli pryder neu achos yn uniongyrchol; gall cynrychiolwyr asiantaethau allanol megis y LADO fod yn unigolyn annibynnol addas hefyd.

- Dylid cynnal trafodaeth ynghylch sut y dylid cyfleu natur yr honiad i'r unigolyn a dylid rhoi'r cyfle i'r unigolyn ymateb i'r honiad ar ôl casglu'r wybodaeth angenrheidiol a'i hegluro er mwyn galluogi ymateb llawn a gwybodus. Os bydd pryderon niferus wedi'u rhannu neu os daw pryderon hanesyddol i'r amlwg, efallai y bydd angen eu cydgasglu a chael eglurhad yn eu cylch cyn y gall hyn ddigwydd.
- Dylai enwau'r rhai sy'n rhannu pryderon a dioddefwyr, cyn belled ag y bo modd, fod yn gyfrinachol drwy gydol unrhyw ymchwiliad (mae hyn yn cyferbynnu â phroses gwyno ac mae'n hollbwysig i sicrhau bod aelodau'n teimlo'n ddigon hyderus i rannu pryderon ac i osgoi eu targedu/effaith andwyol ar ddioddefwyr honedig mewn cymuned glos).
- Gellir gofyn rhagor o gwestiynau i ganfod a oedd yr unigolyn wedi gosod ei hun mewn sefyllfa a oedd yn eu gadael yn agored i honiad, neu wedi gweithredu mewn ffordd a oedd yn mynd yn groes i Bolisïau FfCCFfI megis Safonau Ymddygiad.
- Yn dilyn y cyfarfod gyda'r unigolyn, efallai y bydd angen cysylltu ag unrhyw dystion, oedolion eraill neu aelodau a chofnodi eu fersiwn hwy o'r hyn a ddigwyddodd..
- Os bydd gan yr unigolyn rôl yn y CFfI, dylid adolygu eu manylion recriwtio diogel, ac efallai y bydd angen cynnal gwiriad DBS newydd a/neu ofyn i'r unigolyn am eirdaon newydd i gael darlun cyfredol.
- Yna, dylai'r wybodaeth a'r dystiolaeth a gasglwyd gael eu harchwilio gan y swyddog diogelu a phobl enwebedig, eu trafod a gwneud penderfyniad fel panel ynghylch cymryd camau yn erbyn yr unigolyn ai peidio, os byddant yn gallu parhau â'u swydd neufel aelod, ac unrhyw gamau y gallai fod yn ofynnol i'r ffermwyr ifanc eu cymryd i liniaru unrhyw risgiau posibl.
- Bydd yn hanfodol cadw cofnodion cywir a chyfoes o'r holl sgyrsiau, cofnodion, gohebiaeth a chyfathrebiadau sy'n ymwneud â'r honiad. Mae ffurflen cofnodi ar gael yn Atodiad 18
- Dylid cadw copïau o'r cofnodion yn gyfrinachol gyda ffeiliau diogelu perthnasol y clwb neu yn swyddfa'r ffederasiwn sirol. **Dylid hysbysu tîm Diogelu a Rheoli Ymddygiad FfCCFFI pan fydd asiantaethau allanol wedi bod yn gysylltiedig ag achos, oherwydd gallant gynorthwyo ag unrhyw gyfeiriadau cam nesaf neu adroddiadau sydd eu hangen.**
- Dylai'r clwb/ffederasiwn sirol adolygu'r achos, y camau a gymerwyd a gwneud unrhyw newidiadau gofynnol i'w harferion presennol os yn briodol.

Mewn rhai achosion, gall ymchwiliad arwain at gyfnod o atal neu ddiarddel rhywun o'r CFfI. Pan fydd unigolyn yn cael eu diarddel o aelodaeth y CFfI, gellir rhannu'r wybodaeth hon ag asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r ymchwiliad cychwynnol. Pan fydd unigolyn sydd â Swydd o Ymddiriedaeth (e.e. gwirfoddolwr/aelod pwyllgor/swyddog/arweinydd gweithgaredd/llywydd, er enghraifft) yn cael eu diarddel o'r aelodaeth, rhaid

hysbysu Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol (LADO) am hyn. Pan fydd gwirfoddolwr neu aelod o'r staff yn cael eu diswyddo o'r CFfI oherwydd mater ymddygiad yn ymwneud â phryderon diogelu a phryderon posibl ynghylch diogelwch pobl eraill yn y CFfI, bydd yn ofynnol yn gyfreithiol i'r Clwb neu'r Ffederasiwn Sirol gyfeirio'r mater at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. (DBS). Mae hyn yn galluogi'r DBS i greu darlun o wybodaeth feddal am ymddygiad unigolyn i nodi patrymau ymddygiad gwael neu anaddasrwydd i weithio gyda grwpiau penodol. Mae'n ofynnol erbyn hyn hysbysu'r Comisiwn Elusennau yn yr amgylchiadau hyn hefyd. Os ystyrir cyfeirio mater at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu'r Comisiwn Elusennau neu os bydd hynny'n ofynnol, dylid hysbysu tîm Diogelu a Rheoli Ymddygiad FfCCFfI a fydd yn gallu cynnig cymorth.

## 3.7. Cadw cofnodion a Rhannu Gwybodaeth

**Sylwer: Nid yw cyflwyno’r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) ym mis Mai 2018 yn newid y ffordd y dylid rhannu pryderon diogelu na sut y dylid storio a chadw cofnodion.**

Dylid trafod pob pryder ar unwaith â'r swyddog diogelu priodol neu FfCCFfI neu dylid eu hysbysu ar unwaith am unrhyw bryderon. Dylid ategu’r adroddiad llafar trwy gofnodi unrhyw wybodaeth berthnasol cyn gynted â phosibl. Rhaid i'r Clwb a'r Ffederasiwn Sirol gadw cofnodion cyfrinachol ynghylch unrhyw bryderon neu ddigwyddiadau. Rhaid i bob aelod o’r staff a bob gwirfoddolwr gydymffurfio â’r gweithdrefnau canlynol:

- Bydd cofnodi’n gywir yn hanfodol, oherwydd efallai y bydd angen cyfeirio at Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol (LADO), yr Hwb Diogelu Amlasiantaethol (MASH), Gofal Cymdeithasol Plant neu Oedolion (Gwasanaethau Cymdeithasol) neu’r Heddlu. Yn ddelfrydol, os bydd datgeliad wedi’i wneud, dylid llunio cofnod gair am air (cyn belled ag y bo modd) o’r disgrifiad o’r hyn a ddigwyddodd gan ddefnyddio’r union eiriau a ddefnyddir gan yr unigolyn.
- Dylai’r cofnod gynnwys manylion natur yr honiad neu bryder a/neu ddisgrifiad o unrhyw anaf (ni ddylech archwilio na thynnu lluniau o unrhyw anafiadau).
- Dylid cynnwys amseroedd, dyddiadau, lleoedd ac unrhyw gyd-destun arall a manylion perthnasol, gan gynnwys unrhyw dystion neu unigolion eraill sy'n peri pryder.
- Dylid cadarnhau cyfeiriadau at sefydliadau allanol yn ysgrifenedig o fewn 24 awr a chyn gynted â phosibl – mae gan y rhan fwyaf ohonynt ffurflen adrodd ar-lein, a phan gyflwynir y ffurflen honno, bydd hynny’n cynhyrchu e-bost cydnabod y dylid ei gadw yn y ffeil cofnodion achosion diogelu.
- Dylid cadw cofnod o enw a rôl yr aelod o’r staff yn y sefydliad allanol y trosglwyddwyd manylion y pryderon iddynt a chofnodi amser a dyddiad yr alwad rhag ofn y bydd angen unrhyw ymateb dilynol. Gellir gwneud hyn yn llawn ac mewn trefn gronolegol gan ddefnyddio’r ffurflen adrodd yn Atodiad 18 Dylid sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei chynnal yn ddiogel yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data (Atodiad 16).
- Dim ond ar sail ‘angen gwybod’ y dylid rhannu gwybodaeth er mwyn amddiffyn plentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn sy’n fwy agored i niwed. Bydd yn hanfodol, fodd bynnag, bod y sawl a allai orfod sicrhau bod mesurau diogelu a chymorth priodol yn cael eu rhoi ar waith yn cael eu hysbysu'n briodol gan y Clwb neu'r Ffederasiwn Sirol.
- Yn ddelfrydol, er mwyn sicrhau bod cyfrinachedd yn cael ei gynnal yn briodol, dylai’r holl wybodaeth a rennir yn fewnol gael ei rhannu â swyddogion diogelu dynodedig a fydd wedyn yn rheoli unrhyw gyfathrebu allanol yn ôl yr angen.
- Dylid cofnodi’r rhesymau dros rannu gwybodaeth bob amser a dylai hynny ddigwydd bob amser at ddiben amddiffyn/cynorthwyo plentyn, unigolyn ifanc neu eraill a allai fod mewn perygl.

  **Mae tystiolaeth o ymchwil ac o Adolygiadau o Arferion Diogelu, Adolygiadau o Achosion Difrifol ac Adolygiadau yn ymwneud â Diogelu Oedolion (SARs) wedi dangos dro ar ôl tro y gall canlyniadau fod yn wael i bobl sy’n agored i niwed beth bynnag fo’u hoedran os bydd unigolion a sefydliadau yn methu â rhannu gwybodaeth hollbwysig. Oherwydd hynny, mae’r CFfI, fel llawer o sefydliadau eraill, yn hyrwyddo diwylliant ‘meiddio rhannu’ i annog gwirfoddolwyr a staff i ystyried y canlyniadau posibl i unigolion agored i niwed pan fydd ganddynt wybodaeth ac yn peidio â’i* ***rhannu’n briodol*** *â swyddogion diogelu dynodedig yn fewnol a chydag asiantaethau statudol pan fo hynny’n briodol.*

***Sylwch fod rhannu gwybodaeth gyfrinachol yn amhriodol ag aelodau eraill y CFfI neu oddi allan i'r CFfI yn groes i God Ymddygiad y CFfI a bydd unigolion sy'n rhannu gwybodaeth gyfrinachol yn amhriodol yn wynebu ymateb disgyblu.***

## 3.8. Rhannu Gwybodaeth - Saith Rheol Aur

1. *Cofiwch nad yw'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), Deddf Diogelu Data 2018 a chyfraith hawliau dynol yn rhwystrau rhag rhannu gwybodaeth â chyfiawnhad. Yn hytrach na hynny, maent yn darparu fframwaith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol am unigolion byw yn cael ei rhannu'n briodol.*
2. *Byddwch yn ddidwyll ac yn onest â'r unigolyn (a/neu eu teulu lle bo'n briodol) o'r cychwyn cyntaf ynglŷn â pham, beth, sut ac â phwy y bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu, neu sut y gellid ei rhannu, a cheisio'u cytundeb, oni bai ei bod yn anniogel neu'n amhriodol gwneud hynny .*
3. *Ceisiwch gyngor gan ymarferwyr eraill, neu eich arweinydd llywodraethu gwybodaeth, os bydd gennych unrhyw amheuon ynghylch rhannu'r wybodaeth dan sylw, heb ddatgelu pwy yw'r unigolyn os gellir gwneud hynny.*
4. *Os yn bosibl, rhannwch wybodaeth â chaniatâd, ac os yn bosibl, parchwch ddymuniadau'r rhai nad fyddant yn cydsynio y gellir rhannu eu gwybodaeth. Yn unol â GDPR a Deddf Diogelu Data 2018, gallwch rannu gwybodaeth heb ei reoleiddio, os bydd sail gyfreithlon i wneud hynny yn eich tyb chi, e.e. os bydd risg i ddiogelwch rhywun. Bydd angen i chi farnu ar sail ffeithiau'r achos. Pan fyddwch yn rhannu neu'n gofyn am wybodaeth am unigolyn gan rywun, dylech wybod beth yn union yw'r sail sy'n cyfiawnhau gwneud hynny. Os na fyddwch wedi cael caniatâd, cofiwch na fydd unigolyn yn disgwyl i wybodaeth gael ei rhannu efallai.*
5. *Ystyriwch ddiogelwch a llesiant: sicrhewch fod eich penderfyniadau i rannu gwybodaeth yn seiliedig ar ystyriaethau yn ymwneud â diogelwch a llesiant yr unigolyn ac eraill y gallai eu gweithredoedd effeithio arnynt.*
6. *Angenrheidiol, cymesur, perthnasol, digonol, cywir, amserol a diogel: sicrhewch fod y wybodaeth y byddwch yn ei rhannu yn angenrheidiol at ddiben ei rhannu, y caiff ei rhannu â'r unigolion hynny y bydd arnynt ei hangen yn unig, ei bod yn gywir ac yn gyfoes, yn cael ei rhannu ar yr adeg briodol, ac yn cael ei rhannu'n ddiogel (gweler yr egwyddorion).*
7. *Cadwch gofnod o'ch penderfyniad a'r rhesymau drosto – pa un ai a fyddwch yn penderfynu rhannu gwybodaeth ai peidio. Os penderfynwch rannu gwybodaeth, cofnodwch yr hyn y byddwch wedi'i rannu, â phwy ac at ba ddiben.*

Ffynhonnell: Cyngor ynghylch rhannu gwybodaeth ar gyfer ymarferwyr sy'n darparu gwasanaethau diogelu i blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr - Llywodraeth EM, Gorffennaf 2018 (diweddarwyd Gorffennaf 2023): *Information sharing: advice for practitioners (publishing.service.gov.uk)*

## 3.9. Cadw cofnodion

Dylai copïau o'r holl gofnodion o bryderon yn ymwneud â diogelu sy'n codi ac yn cael eu rheoli yn y CFfI gael eu cadw'n gyfrinachol gan y Clwb neu eu storio yn swyddfa'r ffederasiwn sirol perthnasol rhag ofn y bydd yn rhaid cyfeirio atynt yn y dyfodol. Bydd angen rhoi copi o gofnod llawn yr achos i FfCCFfI ar ôl i achosion y bydd FfCCFfI wedi darparu cymorth yn eu cylch ddod i ben, i sicrhau cyflawnder cofnodion FfCCFfI ac at ddibenion adolygu achosion. Gall methu â darparu neu wrthod darparu copïau o gofnodion heb gyfiawnhad

rhesymol arwain at ymateb disgyblu a/neu atal cymorth ynghylch diogelu gan FfCCFfI i'r ffederasiwn sirol sydd dan sylw.

Rhaid cadw ffeiliau Diogelu Clwb/Ffederasiwn Sirol yn ddiogel ac yn gyfrinachol a'u trosglwyddo i'r ymddiriedolwyr dilynol. Mae angen cadw cofnodion Clwb/Ffederasiwn Sirol a gedwir rhag ofn y gofynnir amdanynt fel rhan o ymchwiliad sy'n mynd rhagddo ac i ddangos bod y Clwb/Ffederasiwn yn rheoli pryderon diogelu yn effeithiol. Bydd FfCCFfI hefyd yn cadw cofnod o'r achos os bydd wedi cyfrannu at gynorthwyo Clwb/Ffederasiwn Sirol ynghylch hynny.

Amlygodd yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA) (https://www.iicsa.org.uk/ ) bwysigrwydd hanfodol cadw a storio cofnodion yn ddiogel pryd bynnag y bydd unigolyn wedi bod yn destun pryderon diogelu a chafodd yr ymchwiliad ei sefydlu oherwydd pryderon difrifol bod rhai sefydliadau wedi methu ag amddiffyn plant rhag niwed a'u bod yn parhau i fethu â gwneud hynny.

Ym mis Awst 2015, cyhoeddodd yr ymchwiliad, o dan ofal y Fonesig Lowell Goddard, gyfarwyddiadau yn gofyn am gadw'r holl gofnodion yn ymwneud â gofal plant. Dylai Ffederasiynau Sirol a chlybiau sicrhau bod eu darpariaeth storio a chadw cofnodion diogelu yn sicrhau bod cofnodion yn parhau i fod ar gael ar ôl i aelod o'r staff/gwirfoddolwr adael eu rôl. Mewn achos o ddatgelu cam-drin neu gamfanteisio hanesyddol nifer o flynyddoedd yn ddiweddarach, ac at ddibenion dangos tystiolaeth o batrymau ymddygiad dros amser, mae'n hollbwysig bod unigolion awdurdodedig a FfCCFfI yn gallu cyrchu'r holl gofnodion diogelu bob amser. Gall FfCCFfI ddarparu cymorth i ffederasiynau sirol a chlybiau ar gais.

*I gael arweiniad mwy cynhwysfawr ynghylch diogelu, cadw a storio data, yn cynnwys y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a ddaeth i rym ym Mai 2018, gweler Atodiad 16*

## 3.10. Cyfrinachedd

Dylid parchu preifatrwydd plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl bob amser, ac eithrio pan fydd pryderon ynghylch diogelu/amddiffyn plant sy'n golygu y gallent fod mewn perygl o niwed sylweddol. Mae gwirfoddolwyr a staff yn gyfrifol am sicrhau bod holl aelodau'r CFfI y maent yn gweithio gyda hwy yn y CFfI yn deall y bydd unrhyw wybodaeth sensitif a phersonol amdanynt ond yn cael ei rhannu yn unol â'r egwyddorion a amlinellir uchod ac yn unol â chanllawiau'r llywodraeth er mwyn blaenoriaethu'r gwaith o'u diogelu a'u hamddiffyn a diogelu ac amddiffyn eraill pan fo hynny'n briodol. Dylid datgan hyn cyn gynted ag y bo modd wrth yr unigolyn sy'n datgelu gwybodaeth.

*Rhaid i'r gwirfoddolwr neu'r aelod o'r staff drafod goblygiadau datgelu rhagor o wybodaeth â'r plentyn neu'r unigolyn ifanc, a thrwy hynny, roi cyfle i'r plentyn neu'r unigolyn ifanc benderfynu a fyddant am barhau i ddatgelu gwybodaeth iddynt ai peidio. Os bydd y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn dewis peidio â rhannu rhagor o wybodaeth ar yr adeg honno, peidiwch â'u hannog na'u gorfodi mewn unrhyw ffordd, sicrhewch hwy y byddwch ar gael i siarad ar unrhyw adeg a lluniwch gofnod o'r sgwrs a rhowch wybod i swyddog diogelu/amddiffyn plant y clwb/ffederasiwn sirol.*

### 3.11. Gweithdrefn ymdrin â chwynion

Mae Polisi Ymddygiad a Chyfansoddiad FfCCFfI yn darparu canllawiau ynghylch sut i ymdrin â chwynion am weithredoedd aelodau, gwirfoddolwyr sydd â swyddi o ymddiriedaeth a staff. Mae cyfansoddiadau Clybiau a Ffederasiynau Sirol unigol yn rhoi pwerau i'r sefydliadau hynny ymdrin â chwynion am aelodau. Gall aelodau, gwirfoddolwyr neu staff fod yn destun ymchwiliad os cyflwynir cwyn neu honiad yn eu herbyn; gellir gwneud hyn yn fewnol (yn y CFfI) neu efallai y bydd angen cymorth gan wasanaethau allanol (LADO, MASH, Gofal Cymdeithasol neu'r heddlu).

Pan fydd aelod, gwirfoddolwr neu aelod o'r staff wedi rhoi gwybod am bryder am aelod arall, gwirfoddolwr arall neu aelod arall o'r staff, bydd y Ffederasiwn Sirol a FfCCFfI yn amddiffyn yr unigolyn hwnnw rhag unrhyw aflonyddu neu driniaeth annheg. Yn ystod proses unrhyw ymchwiliad, bydd yr unigolyn dan sylw yn cael manylion pwynt cyswllt ac yn cael eu hysbysu am y weithdrefn ac unrhyw ganlyniadau pan fyddant ar gael. Dylai proses a chanlyniadau unrhyw ymchwiliad gael eu cofnodi a'u storio gan y clwb/ffederasiwn sirol. Bydd y CFfI yn cynnig cymorth i'r unigolyn sy'n destun yr honiad ac yn cydweithio â'r ffederasiwn sirol i gynorthwyo i ddiarddel/diswyddo unigolion neu eu hailintegreiddio yng nghymuned y CFfI yn dibynnu ar ganlyniad y sefyllfa.

### 3.12. Datganiad ynghylch 'chwythu'r chwiban'

Mae chwythu'r chwiban yn golygu datgelu camwedd, camdriniaeth neu ymddygiad anfoesegol gan aelod sydd â swydd o ymddiriedaeth neu aelod o'r staff mewn sefydliad i'r sawl sydd â swyddi awdurdodus. Anogir staff a gwirfoddolwyr i roi gwybod am bryderon i'w rheolwr llinell, swyddfa eu ffederasiwn sirol neu FfCCFfI fel y gellir ymchwilio i'r mater. Mae'r NSPCC wedi sefydlu Llinell Gymorth Chwythu'r Chwiban ar gyfer y rhai nad ydynt yn teimlo'n ddigon hyderus i fynegi pryderon yn fewnol. Fel sefydliad, mae'r Ffederasiwn yn annog rhoi gwybod am bryderon ac yn blaenoriaethu lles a diogelu ein haelodau hyd yn oed os, am ba reswm bynnag, yr ystyrir hysbysu corff allanol.

Llinell Gymorth Chwythu'r Chwiban NSPCC 0800 028 0285
Cyfeiriad e-bost: help@nspcc.org.uk

## 3.13. Cysylltiadau

Swyddog Diogelu Clwb - Manylion cyswllt –*llenwch y manylion yn y copi cyfeirio o'r polisi*

Swyddog Diogelu Ffederasiwn Sirol - Manylion cyswllt – *llenwch y manylion yn y copi cyfeirio o'r polisi*

Hwb Diogelu Amlasiantaethol Sirol (MASH)
Gwefan a manylion cyswllt –*llenwch y manylion yn y copi cyfeirio o'r polisi*

Adran gofal cymdeithasol plant y sir – tîm oriau swyddfa a tîm dyletswydd (tu allan i oriau)
Gwefan a manylion cyswllt –*llenwch y manylion yn y copi cyfeirio o'r polisi*

Adran gofal cymdeithasol oedolion y sir – tîm oriau swyddfa a tîm dyletswydd (tu allan i oriau)
Gwefan a manylion cyswllt - *llenwch y manylion yn y copi cyfeirio o'r polisi*

Adran amddiffyn plant leol heddlu'r sir
Gwefan a manylion cyswllt - *llenwch y manylion yn y copi cyfeirio o'r polisi*

Partneriaid Diogelu Plant Lleol y Sir (Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn flaenorol)
Gwefan a manylion cyswllt - *llenwch y manylion yn y copi cyfeirio o'r polisi*

Cyngor dros wasanaethau ieuenctid gwirfoddol y sir
Gwefan a manylion cyswllt - *Dylai'r ffederasiwn sirol lenwi'r manylion yn y copi cyfeirio o'r polisi*

Mae'r NSPCC yn rhedeg ystod eang o wasanaethau diogelu gan gynnwys llinellau cymorth cenedlaethol. Llinell gymorth 24 awr rad ac am ddim yr NSPCC - Ffoniwch: 0808 800 5000 neu E-bostiwch: help@nspcc.org.uk neu ffoniwch Childline - Rhif ffôn: 0800 1111

## 3.14. Cyfeirio at gymorth

Mae FfCCFfI wedi creu rhestr o sefydliadau ac asiantaethau sy'n gallu darparu cymorth arbenigol i aelodau, staff a gwirfoddolwyr a chaiff y rhestr ei diweddaru'n rheolaidd.

## Rhestr Atodiadau

### Dyletswydd gyfreithiol i ofalu

Atodiad 1 Canllawiau gan y Comisiwn Elusennau

### Recriwtio Diogel – Adran un

Atodiad 2 Ffurflen gais ar gyfer pobl â swyddi o ymddiriedaeth
Atodiad 3 Ffurflen gais ar gyfer Aelodau o'r Staff
Atodiad 4 Diffiniad o weithgaredd rheoledig
Atodiad 5 Gwiriadau gan y DBS ar gyfer Rolau'r CFfI (yn cynnwys lefelau gwiriadau)
Atodiad 6 Ffurflen caniatâd i wirio statws gwiriad DBS ar-lein
Atodiad 7 Ffurflen geirda a Llythyr eglurhaol
Atodiad 8 Polisi ynghylch recriwtio cyn-droseddwyr
Atodiad 9 Taflen cofnod Recriwtio Diogel
Atodiad 10 Grŵp Rheoli Achos (papur enghreifftiol))

### Rhedeg yn Ddiogel - Adran dau

Atodiad 11 Ffurflen caniatâd rhieni flynyddol
Atodiad 12 Bonyn caniatâd rhieni
Atodiad 13 Ffurflen manylion oedolyn
Atodiad 14 Cofnod o ganiatâd i dynnu lluniau
Atodiad 15 Polisi cyfrinachedd
Atodiad 16 Cadw a Storio Cofnodion Diogelu
Atodiad 17 Datganiad Cyfryngau Cymdeithasol

### Cyfeirio Pryderon – Adran tri

Atodiad 18 Ffurflen cofnodi Pryder/Achos (templed)
Atodiad 19 Disgrifiad o rôl swyddog diogelu
Atodiad 20 Cynllun gweithredu diogelu
Atodiad 21 Mathau o gamdriniaeth ac adnabod yr arwyddion - Plant
Atodiad 22 Mathau o gamdriniaeth ac adnabod yr arwyddion - Oedolion

Fun, Learning and Achievement

Fun, Learning and Achievement